and defenceless Llywelyn; elated with the triumph he had thus achieved, he severed the Prince's head from his body, and despatched it to Edward, who was then at Conway. The bleeding trophy was received by the King with barbarous exultation, totally unworthy of a maguanimous Prince. That he should rejoice in the fall of such a formidable enemy was not unnatural, but the insult offered to his mangled remains was unpardonable, a true picture of cruelty and tyranny. The event gave additional courage to the English, and before the Welsh could repair the loss they sustained by the death of their Prince, the enemies followed up their victorious career, took possession of Snowden, the Castle of Dolbadarn, and routed the Welsh in all directions; thus in confusion and dismay, they fled on every side-rocks, woods, and caves were the shelter\* of the remaining part of the Cymry-they were vigorously pursued with fire and sword, and the inoffensive as well as the unresisting natives were slaughtered without mercy. An ancient historian has observed, that more than three thousand perished in this dreadful carnage !+ What generous lover of his country, who reads this tragic history, but would pronounce over the manes of these brave defenders of their country the emphatic sentiment of the poet,

"Rest, ye brave dead! 'midst the hills of your sires;
Oh! who would not slumber, when freedom expires!
Lonely and voiceless your halls must remain,
The children of song may not breathe in the chain."—HEMANS.

Prince David managed to conceal himself and family for some months after, almost famished for want of provisions; in this dilemma, twot of his retainers, who are supposed to have been bribed by the English, treacherously delivered their Prince to Edward's ambition, and on the night of the 21st of June he sent a detachment of his army, and took David and his family in a morass. This Prince, with his wife, two sons, and seven daughters, were brought

David was examined at Rhuddlan, and several very curious relics were found upon him; among the rest was one called *Croesenydd*, or a part of the real cross of Christ, highly venerated by the Princes of Wales, and the crown of the celebrated King Arthur, which, with several others, were taken from him and delivered to the King.

prisoners to Rhuddlan Castle, where the King then resided.

Polidore's Virgil, 324 Hollinshead, 382 + Polidore, 282

M Namius says that Prince Arthur brought a part of the real cross from the Iloly Land.

In this deserted situation, our Prince requested he might see the King, but, after many solicitations, the indulgence was denied him;\* he was imprisoned for a while at this Castle, and afterwards sent in chains to Shrewsbury, where he was condemned to five different punishments, and those cruel in the extreme.+

The death of David closed the sovereignty of the ancient British empire, which, according to the Cambrian Records, continued from the first coming of Brutus, 1136 before Christ, to 1282 after Christ, a period combining not less than two thousand four hundred and eighteen years! When we consider this, we cannot be surprised at the resolute courage with which they rallied around the standard of their independence; a reflection on their patriotic perseverance, even at this distant period, is enough to awaken in our breasts the emotions of sympathy and regret.

The ancient Britons bravely withstood the army of Imperial Rome, and ably resisted the utmost efforts of the *Picts*, *Scots*, and *Saxons*, and through various changes of fortune, afterwards suc-

cessfully resisted the Norman Princes.

But it is not to their valarous spirit alone, that I would call the attention of the reader; there are other circumstances that claim our admiration. The virtues and hospitality of the people—the simple and unsophisticated manners by which they were distinguished—and an enthusiastic fondness for their national music, are in themselves a sufficient testimony to the nobility of their character. These good qualities were united with an ardent love of liberty, contentment in their situation, and a strong attachment to their native mountains. Though they had no ambition to add to their own territory, by aggressions upon that of their neighbours, they were forced into a long and unequal contest in defence of their native rights.

The King of England having at length reached the height of his ambition, in the final conquest of Wales, annexed it to that of England, and in order to secure the obedience of the newly subdued country, and rivet the fetters he had put on, Edward introduced English jurisprudence, divided North Wales into counties, and appointed proper officers to enforce the obedience of his reluctant subjects.

In order to further his designs and accomplish his projects, the Conqueror took up his residence at Rhuddlan Castle, and there promulgated the famous body‡ of laws called "The Statutes of

J. Rossi's Ant. War, 166.
 + See Carte, 195, from the Chronicles of Dunstable.
 ‡ Leges Walia, 542.
 Welsh Chronicle, 377.

Rhuddlan.\*† From this ancient fortress he issued out a proclamation to all the inhabitants of Wales, pledging himself that he would take them under his protection, and at the same time giving them assurances that they should enjoy their ancient land and liberties as heretofore, reserving for himself only the same rents, duties, and service, which were always claimed by the Princes of Wales.‡

Edward soon forfeited his hollow promises in this instance. for he granted to his followers a considerable portion of the best land in the Principality; he gave the Lordship of Ruthin to Reginald de Grey—the Lordship of Denbigh to the Earl of Lincoln—and all his other adherents were amply rewarded for their service by the grants of vast estates.

With a view to conciliate the minds and redress the grievances of the Welsh Clergy, Edward sent for the Archbishop of Canterbury to come to Rhuddlan, who issued out orders for repairing the different churches that had been injured by the late war. The King also made a recompence to "Master Richard Barnard, Parson of Rhuddlan," for some land taken from him previous to his enlarging the Castle.

For the injuries done to the inhabitants of Rhuddlan during the war, Edward made this town a free borough, and granted it great privileges; as a further proof of his good will, he attempted to remove the See of St. Asaph to Rhuddlan, but to this the Pope would not give his consent.

These liberal and lenient measures were a wise policy in Edward, but the subsequent introduction of foreign laws and rigorous treatment, supported by other harsh and oppressive measures, were not at all likely to suit a people sore with injuries, and so attached to their native Princes. It may still be affirmed, however, that in no part of the busy transactions of Edward's life, did he display a greater depth of policy than he did in the preservation of his newly acquired territory. Some times he flattered and soothed the vindictive spirit of the fiery Cambrians, and at other times he punished with rigour their unbending obstinacy; in these alternate fits of kindness and severity, he experienced much difficulty in curbing the eager patriotism of our contrymen. Though he had done away with the royal power of Wales—vanquished the brave and generous

Though these Statutes are very little attended to, either by lawyers or historians, the learned Judge Barrington says that they deserve particular attention. They not only inform us what were the customs in Wales at that time, but likewise the remedy provided by the law of England.

<sup>+</sup> There is a M.S. of this law in the Hengwrt Collection .- Llwyd's Archiology.

<sup>#</sup> Henry de Knyghton de Event Ang. 2465. Rymer, II. 277. Welsh Chronicle 374.

Welsh Chronicle, 377.

<sup>¶</sup> Rot, Wallia, 75.

<sup>|</sup> Carte, Vol. I. 196.

Llywelyn—exposed his lifeless head to the derision of the multitude—and cruelly murdered his brother David—he still found that the Welsh would not willingly bend their knee to one whom they looked upon as an usurper of their rights and privileges. They promised him submission, however, providing he would govern them in person, or that they were willing to be governed by a chieftain of their own country, but firmly declared that they would yield no obedience to any person who was not born in Wales and resided among them. At last their wishes were gratified; the idea struck Edward that his Queen was pregnant, and he instantly sent orders for Eleanor to come to Wales. Though it was then in the depth of winter, and the season severely cold, he caused her to be removed to Caernarvon Castle, the place designed for her accouchment. Notwithstanding her advanced state of pregnancy, her delicate and critical situation, she performed her journey on horseback!

A little before the time of the Queen's delivery, Edward issued a proclamation that he would hold his Parliament\* at Rhuddlan, for the purpose of taking into consideration the best mode of securing the public welfare of Wales; and he particularly desired all the Welsh chieftains to meet him there. Edward delayed to call them into council until Sir Gruffyth Llwyd (Knighted on the occasion) brought the news of his having a son born at Caernarvon on the 25th of April. He immediately commanded the attendance of the Welsh chieftains, and there practised his well known fraud and deceit; he commenced his harrangue by stating, that in consequence of their long expressed desire to have a Prince, a native of their own country, if they would promise obedience to the one he named he would indulge them by nominating a person whose life had hitherto been irreproachable, one who was born among them and could not speak a word of English.+ The Welsh eagerly assented to acknowledge such a person for their future ruler; but little did they think, when expressing their acclamation of joy, and tendering unbounded pro-

This Fragment
Is the Remains of the Building
Wherein King Edward the First
Held his Parliament,
A D. 1283;
In which was passed the Statute of Rhuddlan,
Securing
To the Principality of Wales
Its Judicial Rights
And Independence.

<sup>\*</sup> There is now standing at Rhuddlan a part of the wall of the house wherein Edward I, held his Parliament. The late Dean Shipley of St. Asaph, at the instance of the Rev. Henry Parry, Llanasa, caused a tablet to be placed upon it, with the following inscription:

<sup>+</sup> Stowe's Annals, 203. Powell, 376.

mises of obedience, who this Prince should be, when the King informed them that their future Prince was his own son, born in Caernarvon Castle a few days before!! Their surprise was great, but as they were bound by the letter of their promise, they submitted, and the only consolation left was the hope of the young Prince making his residence among them, which with tolerable magnanimity assisted them to sustain their disappointment.

The King and his Queen must have resided in this Castle for many months after this, for in 1284 Princess Eleanor\* was born here. The finishing of this stupendous work occupied a considerable time, as in 1291 there was an order† for overlooking its works.

Notwithstanding the drains which a continued warfare had made from this country, it still remained very populous, for Edward politically raised fifteen thousand men from these parts in aid of his Scottish expedition; that unwilling soldiers are not like volunteers, and the consequence nearly proved fatal to him. Owing to national prejudices, frequent quarrels took place between the English and Welsh troops, and in the end (but not before some mortal conflicts had occurred) the Welsh separated themselves from the English, and left them "to fight their own battles."

The next account we have of this fortress is in 1322, when Sir Gruffydd Llwyd, owing to the rapacity of the Lords Marchers, created and headed an insurrection, and attempted to recover the lost liberty of the country. He over-ran North Wales, and took several Castles; but at last he was taken prisoner, confined in Rhuddlan Castle, and afterwards executed.

Richard II. dined at this fortress in 1399, on his way to Flint Castle, where he was delivered by the Earl of Northumberland into the power of his rival Bolingbroke.

The crown fees of the Castle and "Vill of Rothelane," were granted to Catherine Queen of England, in 1422, by her son Henry VI.; they were then worth 421. 12s. 6d.||

The fortress was totally neglected from this time until the civil wars of Charles, when it was occupied by the Royalists, but after a short siege the garrison was obliged to surrender to General Mytton in July, 1646. The same year it was, by order of Parliament, dismantled, together with several other Castles.

According to the plan set out, this fortress is the last in rotation for disquisition, and consequently ends the subject of this Essay.

<sup>\*</sup> Fuller's Worthies of Wales. + Rot. Wallia, 98. \* Carte, Vol. II. 264.

Dalrymple's Annals of Scotland, Vol. II 257. T Stowe, 321.

<sup>|</sup> Rolls of Parliament at that time.

But I cannot for a moment deny myself the pleasure of connecting therewith a narration of events, illustrating the national worth and character of my countrymen, who have been as memorable for their uniform loyalty to the crown since the union, as they were tenacious of their rights and privileges before that event took place.

There is no portion in the whole history of Wales of deeper interest than that which records the subjugation of our country by England; nor is there any circumstance more likely to excite the feeling of the Welsh patriot, than a reflection upon the sturdy and unyielding valour with which his ancestors maintained so long and unequal a struggle in defence of their country. But I shall now endeavour to throw a veil over the hostile warfare that took place between the ancient Britons and their oppressors, the latter of whom, by their superior physical resources, crushed the glowing patriotism of Cambrian courage.

We, however, acknowledge with gratitude "that we were conquered to our gain, and undone to our advantage." When English generosity appeared, Welsh loyalty increased; our countrymen soon found out that the change was beneficial. Instead of precarious liberty, they now began to enjoy a permanent and solid freedom, secured by equal and fixed laws, and established under one august monarch. We shall find the remnant of the ancient British nation,

monarch. We shall find the remnant of the ancient British nation, after being the victims of ambition for so many centuries, now rivalling their conquerors in their duties as loyal subjects, und uniting in interest and mingling in friendship with their old enemies—at last both nations cemented together and became one. Now the highest point of ambition is, who shall be the most useful to the

arts and best affected to the British crown!

Though the population of London alone is greater than that of all Wales, we cannot give up the high claim our country has to the production of men of erudition, patriotism, and talent! I would have our English friends know, that they have derived more benefits and advantages from Welshmen than is generally apprehended. Let not my country blush when I mention the names of a few of her distinguished sons, who have contributed so largely to the welfare of Britain. An eminent sage of the law† hath affirmed, that our admirable system of jurisprudence—the present laws of England—were first instituted by a Welshman, Dyfnwal Moelmud; he also says that no material changes have been made in that system, either by the Romans, the Saxons, Danes, or Normans; if that be the

<sup>\*</sup> Vaughan of Hengwrt. + Sir John Fortescue, Laudibus Legum Anglia.

case, I consider that from a Welshman we have received the justly boasted constitution of the empire!

The arts and sciences of England are indebted to a Welshman, Asser Menevensis, at whose instance the Great Alfred first founded

the University of Oxford!

The people of England, and all who have respect to the word of God, are indebted to a Welshman, *Tyndal*, for the first translation of the Bible into the English Language! Mr. Horn Took calls it the immortal translation, and the standard of the language.

The commercial interests of England are indebted to a Welshman, Sir Richard Clough, at whose suggestion Sir Thomas Gres-

ham first built the Royal Exchange, in London

The inhabitants of the Metropolis (no one ought to be ignorant of this) are for ever indebted to a Welshman, Sir Hugh Myddleton, of Denbigh, who, at the expence of his own ruin, caused a river of spring water to run into that great City. This useful and vital fluid rushes through thousands of ramifications, and supports the life of its inhabitants!

I should be wanting in gratitude were I to omit mentioning the valuable services of another illustrious Welshman, Sir Wm. Jones, who left his own country for the benefit of millions of his fellow creatures in a distant climate. I shall not dwell on the extraordinary diligence with which he laboured in the mines of jurisprudence, neither shall I enter into any particulars respecting his wonderful pursuits in the study of Oriental learning;\* his very volumnious works, now before the public, are a sufficient proof to convince the world of his pre-eminence in both. Rather than I should be charged with partiality, in over-rating the merits of this bright ornament of human society, I shall here repeat the language of Sir Robert Chambers, his successor in the Presidential Chair of the Asiatick Society at Calcutta, who, in eulogising the character of my countryman, said " If ever the English settlement in India shall add to the splendour of their prosperity in commerce and war, the honour and pride of having, beyond all former example, communicated to Europe the wisdom and learning of Asia, for that well-earned honour, that just principle of honest pride, they must own themselves indebted to Sir William Jones."

Nor is it unworthy of remark, that the inhabitants of Great

<sup>•</sup> His wonderful capacity for the acquisition of languages has never been exceeded, he knew no less than thirty-three; his proficiency in these particulars has been, and is the subject of admiration and applause: even the most enlightened professors of the doctrines of Brama confess with pride, delight, and surprise, that his knowledge of their sacred dialects was most correct and profound!

Britain, in a considerable degree, are indebted to Welsh blood for the salvation of this country! I allude to the great General of the age, the Duke of Wellington, who, when he was President of the Cambrian Society in London, publicly declared that he "felt proud in acknowledging, that he had Welsh blood running through his veins!"

And, though last not least, it is a fact that the throne of England is indebted to a Welshman, Henry VII. grandson to Sir Owain Tudor, for amicably uniting the houses of York and Lancaster, and adding to this realm, without the shedding of blood, the kingdom of Scotland! By Henry's marriage with the heiress of York, he united the two rival houses, and by that of his daughter with James IV. of Scotland, were united the two rival nations!

From Henry's loins, in the female line, has sprung our present excellent sovereign George IV. Thus the three nations are united together, and the British Isles are eventually placed under one head; and in that head aboriginal rights—the claims of connexion—and the pretensions of conquest are happily concentred.

I eulogize the deeds of some of my distinguished countrymen, not with a view of provoking unhallowed jealousy, or sowing the seeds of discord, but for the purpose of shewing our English friends that, while we as Welshmen cheerfully acknowledge the benefits our country has derived from its annexation to the crown of England, the blessings of incorporation have been reciprocal. Henceforward, therefore, the sons of Albion, Erin, Caledonia, and Walia, may harmoniously join in the noble sentiment of the Bard—

"The Shamrock of Erin, so brilliant and green, Entwined with the Leek and the Thistle has been; Oh! may they for ever a safeguard compose, To shelter from danger Old England's fair Rose: And grant that Great Britain, for ever may be, The terror of tyrants, the friend of the free: Mewn awen fwyn lawen byw byth y bo hi!!"

GWLADGARWR.

Bright in a constlucible degree, are included by the Merch of the Strike of the Societion of this country! I resident so not constituted at the societion of this country! I resident so not constituted at the the Colomic country of the societies are included at the Colomic country of the societies of the Strike of the Societies of the Colomic country of the societies of the Strike of the Stri

Percepted of the percept of the formation of the spring of the series of

the objection of the state of t

And the state of t

Evening of William

# TRAETHAWD

AR

## ANGENRHEIDRWYDD CYFRAITH

I

GYNNAL MOESAU DA;

GAN

MR. SAMUEL ROBERTS, LLANBRYNMAIR.

" Salus populi suprema lex."

## CYNNWYSIAD.

Dangosir bod gweithredoedd ac ymddygiadau y goruchaf—Drygioni calon dyn—Natur cyfansoddiad cymdeithas—A Hanes gwahanol genedlaethau y byd, yn cyduno i egluro natur, i gadarnhau gwirionedd, ac i arddangos pwysfawrogrwydd y gosodiad dan sylw.

# TRAETHAWD.

I DESTUN mòr bwysig, wedi ei eirio mòr ddëalladwy, afreidiol fyddai Rhaglith.

"Moesau da" ydyw ymddygiad addas dyn, yn mhob perthynas, fel aelod cymdeithas; a "Chyfraith" ydyw rhëol osodedig ei ymddygiad fel y cyfryw, a bygythiad o gosp am drosedd yn gefnogiad iddi.

Dengys Gweithredoedd ac Ymddygiadau y Goruchaf—Drygioni calon Dyn—Natur cyfansoddiad Cymdeithas—a Hanes cenedlaethau

y byd, bod Cyfraith yn angenrheidiol i gynnal moesau da.

I.-Canfyddir hyn yn holl Weithredoedd ac Ymddygiadau Llywydd doeth y bydoedd. Uniondeb ydyw egwyddor sylfaenol ei natur, a pherffeithrwydd trefn ydyw nodweddiad gogoneddus ei weithredoedd oll. Y mae yn llywodraethu mewn doethineb yr hyn a grëodd mewn daioni. Gwelir yn holl rànau y Beirianwaith "olwyn yn troi mewn olwyn" gan hardd-ddangos y cywreinrwyddd cysonaf. Yn yr ëangder diderfyn o'n hamgylch, myrdd myrddiynau o heuliau a sêr a gylch-dröant yn rhëolaidd, yn ol eu deddfau priodol, gan fwynseinio y beroriaeth felysaf yn astud glust y bydoedd. Rhwymir hyfrydwch Pleïades, a datodir rhwymau Orion; dygir allan Mazzaroth yn eu hamser, a thywysir Arcturus a'i feibion wrth rëol ac mewn doethineb. Byddinir y sêr gan Jehofa, geilw hwynt oll wrth eu henwau, ac ni phalla un. Edwyn yr haul ei osodiadau a chyflawna y ddaear ei chylch-droion, mewn modd rhëolaidd, gan dywys yn olynol ei thymhorau a'i blynyddoedd. Efe a roddes ei ddeddf i'r môr i fod yn attalfa i ymchwydd llifeiriol ei dònau. Gwisgodd oleuni fel dilledyn, a sefydlodd orseddfainc ei frenhin-llys yn y nefoedd ar balmant o berlau. Cyhoeddodd ei gyfraith lân yn nghlyw seraphiaid ac angylion, a gwisgodd gleddyf daufiniog cyfiawnder er amddiffyn ei gogoniant. Dëolodd ei throseddwŷr o drigfânau hyfrydlawn Paradwys gan eu cloi mewn cadwynau tragywyddol, dan dywyllwch hyd farn y dydd mawr. Hysbysodd, wedi hyny, i ddynion egwyddorion ei lywodraeth. A chan ymofidio yn ei galon wrth weled eu haml ddrygioni, claddodd ar unwaith fyrdd o wrthryfelwŷr yn ninystr ofnadwy tònau'r diluw. Cododd drachefn o Seir, ymlewyrchodd o fynydd Paran, disgynodd mewn cerbyd o dân ar ben Sinai; daeth gyda myrddiwn o weinidogion ei lŷs, â thanllyd "gyfraith" o'i ddeheulaw. Ysgrifenodd yr unrhyw â'i fŷs ei hun; a chyda sain udgorn a llef geiriau, archodd ei chyhoeddi i'r holl bobl, ei selio â gwaed, a'i chadw, mewn arch o aur, dros oesoedd tragywyddol. Rhoddodd, wedi hyny, "orchymyn ar orchymyn" er "cynnal moesau da," gan eglur arddangos, yn ei holl ymddygiadau, fod ufudd-dod i'r gyfraith yn hollol angenrheidiol er dedwyddwch ac anrhydedd dyn. Ac, yn ddiweddaf oll, yn lle gwneuthur ei gyfraith yn ddirŷm, o'i wîr gariad at droseddwŷr euog, aberthodd, heb arbed, Oen anwyl ei fynwes, ar allor cyfiawnder, er dangos i'r bydoedd gadernid ei orsedd, dysgleirdeb ei goron, ac uniondeb ei gyfraith.

II .- Ymddengys "Angenrheidrwydd cyfraith i gynnal moesau

da" yn wyneb mawr ddrygioni calon dyn.

Ardystia genau y gwirionedd ei hun bod calònau plant dynion yn llawn ynddynt i wneuthur drwg; a bod holl fwriad meddylfryd eu calònau yn unig yn ddrygionus bob amser. Er cael y driniaeth orau, a'r gwrteithiad brasaf-yn lle grawnwin-y maent yn dwyn grawn gwenwyn. Eu calon annëallus hwy a dywyllwyd. Er tybied eu bod yn ddoethion, aethant yn ffyliaid. Newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac ymlusgiaid, a phedwar-carnolion. Ymroddasant i wyniau gwarthus gan wneuthur brynti. Ymlanwasant â phob anghyfiawnder, godineb, anwiredd, cybydd-dod, drygioni, cenfigen, llofruddiaeth, cynhen, twyll, drwg-anwydau; yn hustyngwŷr, yn athrodwŷr, yn gâs gauddynt Dduw, yn drahâus, yn feilchion, yn ffrostwŷr, yn ddychymmygwŷr drygioni, yn anufuddion i rïeni, yn annëallus, yn dòrwŷr ammod, yn an rharedig, yn anghymmodlawn, yn annhrugarogion;-ie, gwyrasant oll; aethant i gyd yn anfuddiol; bedd agored yw eu cêg; â'u tafodau y gwnaethant ddichell; gwenwyn aspiaid sydd dan eu gwefusau. Buan yw eu traed i dywallt gwaed. Distryw ac aflwydd sydd yn eu holl ffyrdd: ac er gwybod fod y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth, cyd-ymfoddlonant ynddynt. Ymhyfrydant mewn gwaed a dinystr, ac ymwerthant i wneuthur drwg. Defnyddir hael-roddion cysurawl y nef i andwyo dynoliaeth. Distryw ydyw tueddbeniad y difyr-gampau mwyaf dewisedig. Mynych y gwelir creulondeb-yn lle sancteiddrwydd-yn argraphedig ar ffrwynau y meirch; ac ysgelerder-yn lle diniweidrwydd-ar addurn y cerbydau. Cynhen a chabledd ydyw cylch plethedig y chwareufwrdd. Boddir y synhwyrau cyflymaf a'r teimladau tyneraf mewn glythineb a meddwdod. Gwisgir gwên dichell, arferir geiriau têg, a thrwy dwyll sarphaidd, hûd-ddenir y forwyn brydweddol i aberthu ei diweirdeb ar allor chwant, ac i werthu ei hanrhydedd a'i chysur am ddifyrwch munud

awr: yna cefnir arni yn ei hadfyd, dïystyrir yn ysgornllyd ei chwynion a'i dagrau, a gwneir ei hing a'i chyfyngder yn destun gwatwargerdd. Dilynir, drachefn, "y fenyw wenieithus" gan luoedd o "ieuenctyd heb ddeall," er bod ei ffordd yn arwain i ystafelloedd angau. I'w lletty y mae cyrchfa myrddiynau, er mai colledigaeth vdyw ceidwad ei phorth, a bod "Y ffordd i uffern" yn argraphedig, mewn llythyrenau o dân, ar gapan ei drws. Er hefyd mai anrhaith ynfydion andwyedig ydyw dodrefn ei thŷ, ac mai gwobr anwiredd sy'n mwgdarthu ei gwely, eto codir hi i eistedd wrth fwrdd anrhydedd, ac i farchogaeth mewn rhwysg ar olwynion gorwychder. Halogir y doniau mwyaf awenyddawl trwy eu camddefnyddio i lygru myfyrdod y galon, i oreuro yr aflendid ffieiddiaf, i dŵyll-dawelu dychrynfeydd cydwybod glwyfedig, ac i esmwyth-balmantu y brifffordd lithrig lydan sy'n arwain i waered i eigion gehenna. Gwefusau y plentyn, cyn dysgu iawn dòri geiriau, a ymsymudant i gablu, a thafod bloesg yr henwr penllwyd a draetha gabledd. Gogwyddir y glust, gan wenu yn ddifyrlawn, i wrando ar lais hudoliaeth; a dirgel-ddychymmygir tŵyll yn sŵn y fflangell, wrth fûr y carchardŷ, ac yngolwg y pren dioddef. Coronir rhinwedd â drain; rhoddir corsen gwawd yn ei deheulaw; perir iddi blygu pen yn nghongl pob hëol; teflir llèn ddû dros ei hwyneb cû hardd-deg, er cuddio ei gwrid a'i dagrau; ac wedi ei hymlid yn archolledig i anialdiroedd enciliad, rhoddir ei choron seiriandeg ar ben llygredd, a gwisgir drygioni yn ei mantell dywysogaidd. Arweinir y "March coch," gyda banllefau gorfoledd, ar balmant o esgyrn, drwy afonydd o waed. Halogir y gwyryfon a'u mamau o fewn y muriau cysegredig; aberthir babanod diniwed, ffrwyth y brû, ar allorau eilunod; ac, i beffeithio yr ysgelerder gorwarthus, cyfenwir hyny yn ddwyfol addoliad! Dyma, yn ol y profion egluraf, ydyw tuedd naturiol calon lygredig dyn.-Gesyd dröell naturiaeth yn fflam-Lleinw deyrnasoedd âg annhrefn-Lliwia foroedd â gwaed-A thrŷ y gwledydd ëangaf yn feusydd galanas. Nid dichonadwy gwadu na chelu y gwirionedd hwn; ac er bod cip-olwg arno, yn ei liw dychrynllyd, yn ddigon i beri i ddyngarwch a rhinwedd dywallt dagrau o waed, eto rhaid oedd ei grybwyll er dangos bod "cyfraith yn angenrheidiol i gynnal moesau da." ' Cyfraith' sydd i ffrwyno cynddaredd dyn pan y mae nwydau aflywodraethus ei galon ar ymdòri allan fel rhuthr meirch porthiannus. 'Cyfraith' ydyw yr unig wrthglawdd sydd i attal diluw llygredd rhag gôrlifo yn rhyferthwy dinystriol dros y byd. 'Cyfraith' ydyw cleddyf daufiniog cyfiawnder i ddïal gwaed ei lladdedigion merthyredig. 'Cyfraith' ydyw tarian brofedig rhinwedd, i ddiffodd picellau tanllyd trachwant a llygredd, a'i hunig arfogaeth

yn wyneb ymosodiadau ei gelynion. 'Cyfraith,' fel craig fawr, ydyw cysgodfa ddiogel diniweidrwydd, tlodi a gwendid yn wyneb rhuthrgyrchoedd cynddeiriog creulondeb, trais a gormes, a 'Chyfraith' hefyd, ydyw unig amddiffynfa "moesau da" yn nydd y frwydr.

III.—Dengys natur cyfansoddiad Cymdeithas bod " Cyfraith yn

angenrheidiol i gynnal moesau da."

Trefnodd y Goruchaf i ddynion gymdeithasu â'u gilydd; ac heb gymdeithas diflanai ein cysuron a darfyddai ein hanfodiad. gyfathrach anocheladwy rhoddwyd i lawr sylfaen cymdeithas; a ffurfiwyd, mewn canlyniad, lïaws o gysylltiadau perthynasol, megis Tad, Mam; Gŵr, Gwraig; Brawd, Chwaer; Câr, Cymmydog, ac amryw eraill. Felly, lle y mae cyfathrach, rhaid o angenrheidrwydd bod yno gysylltiadau perthynasol; a lle y mae cysylltiadau perthynasol, rhaid, yn ol egwyddorion cyntaf natur, bod dyledswyddau perthynasol yn sylfaenedig arnynt; a lle mae dyledswyddau perthynasol, rhaid, yn ol yr ail osodiad, bod rhyw rwymedigaethau sefydledig i'w cyflawni heblaw mympwy cyfnewidiol calon dyn; -- oblegid nid " sic volo" hunanoldeb a gormes sydd i fod yn rhëol cymdeithas. Mewn gair, lle y mae dynion rhaid bod cyfathrach; lle y mae cyfathrach rhaid bod perthynas; lle y mae perthynas rhaid bod dyledswydd; a lle y mae dyledswydd rhaid bod "cyfraith;"-canys nis gall Penryddid fod yn sylfaen i hardd-adail tangnefedd a dedwyddwch: "Cyfraith," gan hyny, ydyw sylfaen cadernid-tarian amddiffyn-ernes cynnydd-mammaeth dedwyddwch-rhwymyn perffeithrwydd-a choron gogoniant pob cymdeithas.-Ond yn

IV.—Hanes gwahanol Genedlaethau y byd a rydd y dangosiad egluraf a'r prawf cadarnaf o "Angenrheidrwydd cyfraith i gynnal

moesau da."

Llwyr afreidiol, gan hyny, fyddai sefyll yn hîr i ddyrus-resymu ar dir egwyddorion pan y mae ffeithiau anwadadwy a hirfaith brofiad

yn cyduno i egluro a chadarnâu y gosodiad dan sylw.

Y mae cyfiawnder dïaleddol wedi gorfod ysgrifenu, flwyddyn ar ol blwyddyn, mewn llythyrenau cochion o waed a thân, a hyny yn mron ar ben pob hëol, bod "Cyfraith yn angenrheidiol i gynnal moesau da;" ac y mae un linell o gôf-lyfr cyfiawnder, yn ddigon i beri i'r Gwrth-ddeddfwŷr mwyaf cyndyn a phenrydd guddio eu penau mewn cywilydd a dychryn, a gwrido, dan leni gwarth, mewn distawrwydd tragywyddol.

Tan aden cyfraith y meithrinwyd y Celfyddydau a'r Gwybodaethau sydd yn addurno dyn. Sefydliad cyfraith mewn gwlad, yn ol unol dystiolaethau yr Awduron enwocaf, ydyw y cam cyntaf o'i derchafiad a'i gogoniant. Rhoddir y lle cyntaf i hyn, a'r pwys mwyaf ar hyn, mewn Hanes-lyfrau. Heb gyfraith ni chefnogir celfyddyd; heb gelfyddyd ni fegir gwybodaeth; heb wybodaeth ni thrinir masnach; ac heb fasnach ni chyrhaeddir na chyfoeth, na gogoniant na chadernid.

Sefydliad cyfraith, yn ddiddadl, a ddarfu genedlu a meithrin yn y fynwes ddynol y ddwy egwyddor fawr a ydynt â'r lywodraeth benaf ar galon dyn, sef ofn gwarth, a chariad at anrhydedd. Y mae yr egwyddorion hyn yn aml yn gryfach na deniadau rhinwedd, ac yn llymach na chleddyf cyfiawnder. Medrant ffrwyno cybydd-dod, anlladrwydd, balchder, annïolchgarwch, cenfigen, ac amryw ddrwganwydau eraill y rhai ydynt yn annghyrhaeddadwy i fflangell cosp: a gallant goroni haelfrydedd, gostyngeiddrwydd, a rhinweddau eraill na fedr cyfiawnder cyhoeddus byth eu gwobrwyo. Dyma y cymhellai cryfaf i foesgarwch a rhinwedd, a dyma y gadwyn aur blethedig sydd yn tueddu fwyaf i gadw cymdeithas yn dangnefeddus, a'r byd mewn iawn drefn. A'r ystyriaeth o effeithiau daionus cyfraith yn yr ystyr yma, a barodd i rai ei galw, "The masterpiece of human genius."

Dengys y President De Goguet, yn ol cydrediad tystiolaethau y Teithwŷr a'r Hynafyddion cywiraf, bod dynion cyn sefydliad cyfraith yn grwydriaid gwylltion ac annedwydd, creulawn-ac anifeilaidd; yn ddieithriaid i egwyddorion dyngarwch; yn amddifaid o gysuron dynoliaeth; yn bywiolaethu ar ddail a gwreiddiau; ac yn trigo mewn ffauau ac ogofeydd, gan ymhyfrydu mewn ffieidd-dra, gwaed, a dinystr.

Yn narluniad y Bardd Homer o'r Cyclopiaid, yn y nawfed Llyfr o'i Odyssey, canfyddir drych cywir o sefyllfa dynion heb gyfraith. Trais a gormes ydoedd cylch terfyn pob tylwyth. Nwyd a chwant ydoedd unig rëol eu holl ymddygiadau. Ni chyd-ymgynghorent mewn amgylchiadau o bwys, ni chynnorthwyent y gwàn dan ei faich, ac ni chydymdeimlent â'r gorthrymedig yn ei adfyd. Ni hauent eu tir, ac ni fedent gynnyrch eu meusydd. Dringent y creigiau fel geifr gwylltion, ar eu traed a'u dwylaw. Trigent, ar dywydd têg, ar gopâau y mynyddoedd; ac yn nydd y dryc-hîn ymguddient dan gysgod y clogwyni. Eu Benywod a syrthient i afaelion y treiswŷr cryfaf, neu a ddilynent yn olynol y cynllwynwŷr cyfrwysaf. Ni adnebyddid eu tadau gan y plant a enid. Ac yr oedd cysur a bywyd gwâs a morwyn, gwraig a phlentyn, yn troi yn gyfangwbl ar fympwy afresymol a thymmer nwydwyllt y gormeswr creulonaf.

Dengys Tully, yn eu Lythyr at ei frawd Quintus, mai doethineb i sefydlu cyfreithiau da, mewn cysylltiad â deniadau areithyddiaeth i dynu sylw atynt, oedd yr unig foddion effeithiol i wareiddio dynion anfoesgar, i feithrin gwybodaeth a rhinwedd, ac i gorpholi tylwythau gwylltion a gwasgaredig yn gymdeithasau trefnus a heddychlawn, dan rëolaeth egwyddorion cyfiawnder. A thrwy egluro a chefnogi yr un egwyddorion yn ei areithiau, ei ysgrifeniadau, yn gystal ag yn ei holl ymddygiadau yr ennillodd yr anrhydedd o gael ei alw yn "Dâd ei wlâd, ac Ail-sylfaenydd Rhufain."

Yr ystyriaeth o "Angenrheidrwydd Cyfraith i gynnal moesa da" a gynhyrfodd y Deddfroddwŷr doethaf yn y cynoesoedd, cyn dysgu y gelfyddyd o ysgrifenu, i gyfansoddi eu cyfreithiau ar fesur cerdd, yn y modd manylaf, i gael eu canu yn yr eisteddfodau cyhoeddus, fel y byddai iddynt wneuthur argraph dyfnach a mwy arosol ar galònau y werin: a hyn hefyd oedd yr amcan mewn golwg wrth weinyddu y cyfreithiau hyny yn mhyrth y dinasoedd, ger bron yr holl bobl, fel y byddai gwarth a chosp y troseddwr yn fwy cyhoeddus ac yn fwy effeithiol.

Ar ol y diluw, pan y darfu i'r Noachidæ ollwng dros gôf egwyddorion cyfiawnder, ac esgeuluso gosodiadau cyfraith seithblyg yr hên batriarch eu tad, tòrodd annhrefn i mewn i'w mysg, terfynodd yr annhrefn hwnw mewn ymwasgariad, a suddodd y nifer amlaf o'r tylwythau gwasgaredig hyny i ddyfnderoedd eithaf barbareidd-dra ac anwybodaeth.

Medrusrwydd i sefydlu cyfreithiau buddiol, mewn cysylltiad ag awdurdod i sicrâu ufudd-dod iddynt, a ddarfu dderchafu Nimrod, Assur, a Chedorlaomer i sefyllfaoedd o anrhydedd, eu codi i orseddau brenhinol, a'u cymhwyso i ysgwyd teyrn-wïail awdurdod: a hyn hefyd a ddarfu anfarwoli eu henwau fel sylfaenwŷr ymerodraethau ëang Babilon, Assyria, a Phersia.

Yn amser Ninus, Semiramis, a Ninyas, pan oedd ymerodraeth Assyria yn uwchder ei chadernid a'i gogoniant, yr oedd ynddi dri chynghor tra enwog, yn gyfansoddedig, gan mwyaf, o Hynafiaid doethaf y genedl, i sefydlu cyfreithiau addas; a thri o Lysoedd cyffredinol i weinyddu y cyfreithiau mewn cyfiawnder. Ond yn amser Sardanapalus, pan oedd y brenhin yn amlach yn ei wîndŷ nag yn ei Lŷs, syrthiodd yr hên ymerodraeth fawr hono yn ysglyfaeth i wrthryfelwŷr; ac mewn dychryn ac anobaith tàniodd y brenin ei lŷs, difaodd ei drysorau gwerthfawrocaf yn y danllwyth, a llosgodd ei hun ynghanol ei efnuchiaid a'i ordderchadon.

Ar ol bwrw ymaith iau Assyria, syrthiodd y Mediaid, am nad oedd ganddynt gyfreithiau sefydledig, i eithafoedd annhrefn; ac ymddyrysu yr oeddynt mewn terfysg diorphwys nes i Deioces, trwy ddoethineb ei ymddygiadau ac uniondeb ei egwyddorion, cnnill eu sylw a'u cymmeradwyaeth, a chael annogaeth ganddynt i sefydlu

cyfreithiau ac i gymmeryd awenau y llywodraeth yn ei law;—yna mwynasant dangnefedd, a ffynasant.

Tan lywodraeth cyfreithiau uniawn yr ennillodd yr Aipht y fath enwogrwydd yn y dyddiau gynt nes ei bod yn "fammaeth y celfyddydau, yn grŷd y gwybodaethau, yn wlad y doethion, ac yn gynllun ymerodraethau enwocaf y byd." Trwy gyhoeddi yr annogaethau cryfaf, a sefydlu y rhwymedigaethau dwysaf i'r amaethwŷr fod yn ddiwyd-i'r masnachwŷr fod yn onest-i'r plant fod yn ufudd-i'r gwragedd fod yn ddiwair-i'r swyddogion fod yn heddychol-i'r barnwŷr fod yn gyfiawn-ac i'r brenin fod yn dad y genedl, blodeuodd eu gwlad fel gardd Paradwys. Gwisgodd eu dolydd y gwyrddlesni harddaf, a dygodd eu meusydd bob rhyw ffrwyth, yn gnŵd Llwythwyd eu trysordai â llawnder. Huliwyd eu byrddau â danteithion. A llanwyd eu calonau â llawenydd. Teyrnasodd heddwch o fewn eu rhagfur, trefn o fewn eu temlau, cyfiawnder o fewn eu llysoedd, a ffyniant o fewn eu palasau. Cefnogid ieuenctyd awenyddgar-perchid y fenyw rinweddol-anrhydeddid coron penllwydni-ymgrymid i'r offeiriad ffyddlawn-gwisgid y swyddog teilwng yn mantell sidanaidd derchafiad-rhoddid modrwy berlawg awdurdod am fŷs y doeth-dysgleiriai cadwyn aur anrhydedd am wddf y gwladgarwr-a llefid "Abrec" o flaen gwir noddwŷr y genedl.

Yn nyddiau y barnwŷr y rhai oeddynt yn gweinyddu cyfiawnder, yn ol rhëol y gyfraith, yr oedd Israel yn llwyddo, ac yn cael llonyddwch; ond pan ymlygrodd eu blaenoriaid gan ŵyro barn,

" ymadawodd y gogoniant."

Doethineb Solomon yn sefydlu cyfreithiau da, a'i ymdrech i farnu ei ddeiliaid mewn cyfiawnder ydoedd sylfaen ei gyfoeth, ei enwogrwydd, a'i ogoniant. Hyn a barodd i frenhinoedd Arabia a holl dywysogion y ddaear geisio gweled ei wyneb, gan ddwyn iddo anrhegion-aur ac arian; arfau a gwisgoedd; meirch a mulod; eppaod a pheunod; coed algummim a pher-aroglau; ac ifori a meini gwerthfawr -lawer iawn. Hyn a doddodd ysbryd Brenines gyfrwysgall Seba, ac a barodd iddi dòri allan mewn syndod a dywedyd, bod ei weinidogion oll yn wyufydedig, a'i bobl oll yn ddedwydd. Efe a eisteddai ar orsedd o ifori, wedi ei haddurno â blodau o aur pûr, i dderbyn ei gennadon, i gyhoeddi ei gyfreithiau, ac i weinyddu cyfiawnder. Deuddeg o lewod a gylchynent ei droedfainc i ddangos y dylai gorseddfa barn fod yn fawreddawg ac ofnadwy. Ond cymmeryd cip-olwg o lestri ei deml, o ddodrefn i lŷs, ac o addurn hâfdŷ coedwig Libanus, mewn cysylltiad â rhifedi ei gerbydau, helaethrwydd ei fasnach, gogoniant ei ymerodraeth, a dedwyddwch ei ddeiliaid, canfyddir ar unwaith bod cyfreithiau addas yn sierâu cadwraeth "moesau da;" ac yn

sylfaen cyfoeth ac enwogrwydd a gogoniant a dedwyddwch. Nid rhyfedd, gan hyny, oedd clywed Solomon, y doethaf o ddynion, yn dywedyd, a hyny pan oeddei benwyni yn anrhydeddusach na'i goron, Mai trwy farn y cadarnêir gwlad, y sicrêir gorsedd, ac yr amlêir y cyfiawn.

Yr hyn a dragywyddolodd warth, ac a gyflymodd ddinystr Jehoiacim oedd ei gynddaredd a'i ryfyg yn taflu "Llyfr y gyfraith" i'r tân, ar

ol ei ddarnio yn gyntaf â chyllell ysgrifenydd.

Esgeuluso darllen y 'gyfraith,' ar ygŵyliau gosodedig, yn ol ordinad y Goruchaf, a achosodd ddiwreiddiad y genedl Iuddewig o'u gwlad hyfrydlawn, ac a barodd drais-gludiad dodrefn drudfawr eu teml a'u llysoedd i hulio byrddau tywysogion Babilon, ac i addurno teml eu duw, Belus.

O erddi blodeuog yr Aipht, Caldea, a Phalestine, hawdd i'r hanesydd groesi i diroedd Groeg; ac yno, mewn cylch bychan, ceir y profion cadarnaf a'r amlygiadau egluraf o "angenrheidrwydd cyfraith

i gynnal moesau da."

Er bod y cûdd-chwedlan paganaidd yn priodoli cryn enwogrwydd i'r Titaniaid, y Pelasgi, y Cariaid, ac eraill o'r cynfrodorion; eto, y gwir yw, mai crwydriaid annedwydd a barbaraidd oeddynt cyn sefydliad cyfraith yn eu tir. Cyfraith, trwy feithrin eu rhinweddau dysgleirwych, a gloywi eu doniau awenyddawl, a ddarfu eu codi, o radd i radd, i enwogrwydd anfarwol. Trwy sefydlu cyfraith y cafodd Cecrops yr anrhydedd o fod yn achnbydd Attica—yn blanydd Athen—yn sylfeinydd teml Minerva—ac yn sefydlydd llŷs yr Arëopagus.

Yr ystyriaeth o "angenrheidrwydd cyfraith i gynnal moesau da," a barodd i frenhinoedd a duwiau blygu, heb rwgnach, i ddedryd yr Areopagitæ. Hyn a barodd i Amphyction sefydlu y cynghor-lŷs a dawelodd ei wlad, ac a anfarwolodd ei enw. Hyn a enwogodd y Delphinium, y Paladium, a'r Prytanëum fel llysoedd barn. Hyn a dderchafodd Cranaus, Erechtheus a Theseus i'r fath uwchafiaeth ar eu gorseddau brenhinol. Hyn a gynhyrfodd erwindeb Draco, diwygiwr Athen, ac a barodd iddo selio, mewn effaith, ei gyfreithiau â gwaed. Hyn a barodd i Solon ail-gadarnhau yr Areopagus, a sefydlu "senedd y pedwar cant," mewn gobaith y byddent, fel dwy angor ansymudadwy, yn ddigon i ddiogelu y wlad rhag myned yn ddrylliau o flaen tonau chwyddedig aflywodraeth a gormes: a'i ddoethineb fel Deddfwr, ydoedd coron ei barch a'i enwogrwydd, ac unig sylfaen ei awdurdod a'i ddefnyddioldeb. Doethineb ac ymdrech Lycurgus, fel deddfwr, a ennillodd iddo yr enwad anrhydeddus "Cyfaill y duwiau;" a hyn a barodd i annhrefn ffoi o Sparta ac a'i derchafodd, mewn gallu a gogoniant, goruwch ei holl gymmydogesau. Tan rëolaeth Pelopidas ac Epaminondas y gwnaed y "Theban pigs" yn "Arglwyddi Groeg." Dysgyblaeth cyfreithiau milwraidd Groeg a wnaeth ei milwŷr yn anorchfygadwy, ac a anfarwolodd eu gorchestion wrth dreflan Marathon—yn mwlch y Thermopylæ—wrth dref Platea—ar benrhyn Mycale—wrth ynys Salamis—wrth yr afon Granicus—ac wrth drefydd Arbela ac Issus. Hyn hefyd a roddodd goron buddugoliaeth ar ben mintai o honynt, ar wastadedd Cunaxa, yn nghanol myrddiynau o'u gelynion, ac a ddïogelodd eu dychweliad i'w gwlad, drwy rwystrau aneirif, dan lywyddiaeth Xenophon. Yr ystyriaeth o "Angenrheidrwydd cyfraith i gynnal moesau da," a barodd i'w doethion ddywedyd,—

"Ymwylltia y werin pan gysgo y brenin;

Ond byddant yn ddedwydd pen ddeffrŷ y Llywydd."

Hyn a barodd i Philip o Macedon, ac Alexander Fawr ar ei ol, ymostwng yn wirfoddol i erfyn addysgiadau yn egwyddorion Rhëol-

aeth gan yr Athronydd Xenocrates.

Tan effeithiolaeth uniongyrchol cyfreithiau rhagorawl Lycurgus a Solon y mîniwyd cynion Phidias—y cywreiniwyd pwyntel Zeuxis —y melyswyd rhyddiaith Herodotus, tad Hanesyddiaeth—y mesurwyd dywediadau a gorphwys-dônau Isocrates—y coronwyd yr Awen gan Euripides a Sophocles—y cynhyrfwyd hyawdledd Demosthenes a Thucydides—y meithrinwyd gwladgarwch Pericles a Cimon—y taniwyd gwroldeb Miltiades, Pausanias a Leonidas—ac y gloywyd rhinweddau dysgleirwych yr Athrawon anfarwol Zeno a Socrates. A dengys Xenophon, yn ei Cyropædia, mai yn ngherbyd rhinwedd, dan effeithiolaeth egwyddorion cyfreithiau da, y marchogodd Cyrus, drwy fyrdd o elynion, o fwthyn bugail i orsedd Babilon.

"Salus populi suprema lex," ydoedd egwyddor sylfaenol Llywodraeth Rhufain pan yn ei llawn ogoniant. Dyma ydoedd Arwyddair ei Deddf-lyfrau—diweddglo deuddeg llêch ei chyfraith—yr Alpha a'r Omega yn nghredo doethion ei senedd—a thestun amryw o gyfansoddiadau anfarwol ei phrif Awenyddion. Yr egwyddor hon a ddarfu ei derchafu i eistedd, fel Brenines, ar orsedd y ddaear, a'i dysgu i ysgwyd ei theyrnwialen gyda rhwysg cyffredinol. Tra dàn lywodraeth hon, yr oedd ei muriau o feini marmor, ei llysoedd wedi eu gwisgo âg aur, ei themlau yn addurnedig gan berlau, a'r pêrarogl puraf yn llenwi ei holl gyssegroedd. Tra dàn lywodraeth hon, yr oedd ei thrysordai yn llawnion, ei hathrofäon yn enwog, a'i llengau milwraidd yn anorchfygadwy. Tra dàn lywodraeth hon, yr oedd ei chymmydogesau yn plygu ger ei bron i

dderbyn y gyfraith o'i genau, gan fwrw eu hanrhegion wrth ei thraed a'i haddoli fel Ymerodres y ddaear. Trwy ei threfn filwraidd, cymylodd ogoniant Carthage, Persia, Assyria, a Macedonia; a tharawodd ddychryn trwy Æthiopia, Parthia, Germany, a'r India. Ond pan unwaith yr ymadawodd cyfiawnder o'i llysoedd barn, newidiodd yr aur coeth da, a diflannodd yr holl ogoniant. Nid oedd ei milwŷr mwy yn anorchfygadwy. Ei thywysogion, fel hyddod heb gael porfa, oeddynt ddinerth o flaen yr ymlidwŷr. Anrheithiwyd ei thrysordai gan y gelyn. Maluriwyd ei themlau addurnedig, a thaflwyd ei meini caboledig yn mhen pob hëol. Llychwinwyd ei hallorau harddaf gan lŵch a mŵg a gwaed. Rhydodd ei delwau dysgleiriaf. Taflwyd ei chôfgolofnau mwyaf cedyrn i'r llwch. Ffôdd Awenydd. Distawodd y gân. Aeth y dolydd gwyrddleision yn anialdir diffrwyth. Llwyr ddifwynwyd ar unwaith.

"Terra potens armis atque ubere glebæ." Cododd pob annrhefn ei ben, ac ymledodd drygioni fel plâ dros y wlâd. Y genedl, gan ymlygru a ymlygrodd. Y morwynion a arferent anlladrwydd o'u mebyd; a'r gwragedd a wenent ar eu gau-gariadau wrth fyrddau eu harglwyddi, ac a werthent, heb wrido, eu diweirdeb i estroniaid, gan yfed eu llwyddiant o'u llestri prīodas. Trwy hyn aeth y dirywiad yn gyffredinol. Gwelwyd epil yr Enwogion a fedrent beri i Pyrrhus a Hannibal grynu, heb wroldeb i wisgo y cleddyf—heb fedr i drîn y gŵys—heb ddawn i sefyll ar y Rostrum—ac heb gy-

mhwysder i blygu wrth yr allor.

Traddodiadau y Noachidæ ydoedd sylfaen cyfansoddiad Ymerodraeth ëang China; a'r cyfreithiau a sylfaenwyd ar yr egwyddorion hŷny—er wedi eu llygru yn fawr gan Confucius, Mencius, ac eraill—ydyw y gadwyn blethedig a rwymodd ei myrddiynau aneirif i gŷdweithredu mewn undeb, yn wyneb chwyldröadau dinystriol o ddwy i dair mil o flynyddoedd.

Y mae'n wir bod coelgrefydd, i raddau galarus yn gyssylltiedig âg egwyddorion y rhan grefyddol o'r Gyfundraith Dderwyddol, eto rhaid addef mai y gosodiadau gwladol sylfaenedig arni, oeddynt yr unig foddion effeithiol i gadw y werin mewn ufudd-dod a thangnefedd: a hyn hefyd, yn benaf, a ddarfu godi Archdderwyddon Môn

i'r eisteddleoedd uwchaf ar Orseddau Magi y Gorllewin.

Trwy sefydlu cyfreithiau uniawn y darfu i Charlemagne ac Alfred Fawr, Sylfeinydd Athrofa Rhydychen, wasgaru, i raddau, y tywyllwch dudew barbaraidd oedd yn gorchuddio Ewrop yn y nawfed ganrif; a thrwy hyn hefyd yr ennillodd Hywel Dda a Blegwryd ei weinidog y fath barch ac enwogrwydd yn y ganrif gaulynol.

Tan effeithiolaeth iachusayıl sefydliadau a chyfreithiau da, y mae

wyneb llydan y "Byd Newydd" yn ymadnewyddu i wisgo harddwch. Gwelir yno yn awr fyrdd o blant yn cyrchu yn finteioedd i'r Ysgolion; ac yn eu dychweliad adref gyda'r hŵyr, clywir y llenyrch a'r gelltydd, oeddynt unwaith yn driglëoedd dreigiau, yn adseinio eu difyr ganiadau. Meithrinir yno yn bresennol y celfyddydau a'r gwybodaethau a addurnant ddyn. Eu Hathrofäon sefydledig a flodeuant dàn nawdd y Llywodraeth, a'u pinaglau cyssegredig a dderchafant eu pènau hyd y nefoedd.

Canfyddir, yn rhy amlwg, o'r tu arall, effeithiau galarus ac andwyol penrhyddid ac annuwiaeth yn y difrod galaethus a oddiweddodd Ffrainc, yn amser y chŵyldröad, yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Llanwyd y wlad o derfysg a dychryn. Lliwiwyd yr hëolydd â gwaed. Ni pherchid na gwraig na gwyryf; ac ni arbedid y plentyn sugno mwy na'r henŵr penllwyd. Nid oedd tawelwch i dad wrth ei fwrdd gyda'i blant—na dïogelwch i briod yn ei wely gydâ'i anwylyd—na nodded i efrydydd yn ei lyfrgell gydâ'i Fibl—na chyssegr i addolwr yn ei deml wrth yr Allor. Mwrddrwyd yno filoedd o wirioniaid, heb gysgod prawf, chwaethach awdurdod cyfraith. Yna, wedi tyngu tragywyddol elyniaeth i drefn rhëolaeth freninol, a thragywyddol ffyddlondeb i chwech o ffûg-sefydliadau gwahanol, a hŷny o fewn cylch o ddeutu chwe' blynedd, plygodd y genedl ddïofrydedig i ruddfan a gwaedu dan orthrymder gormeswr.

Cyn terfynu y Llythyr hwn, erfyniaf genad i gyfeirio meddwl y

darllenydd at dri o adsylwadau.


1. Canfyddir, yn wyneb yr ystyriaeth o bwys a gwirionedd y testun dan sylw bod deddfwŷr doethion, a llywiawdwŷr cyfiawn yn teilyngu yr anrhydedd a'r parch mwyaf. "Awdurdodau goruchel" a gweinidogion gosodedig gan y Goruchaf ydynt, er dial llid ar ddrwgweithredwŷr ac er mawl i'r gweithredwŷr da. Gwisgo y maent gleddyf cyfiawnder, ac "angenrhaid yw ymostwng iddynt," nid yn unig o herwydd y "formidine pænæ," ond o herwydd y "virtutis amore" hefyd. Nid rhyfedd, gan hỳny, eu bod, yn ol hen arferiad, yn cael eu galw yn "conditores imperiorum," am eu bod yn gwneuthur "bythod o bridd yn ddinasoedd o farmor:"—yn "Perpetui principes," am eu bod yn teyrnasu yn eu gosodiadau gwladol dros oesoedd tragywyddol pan eu hunain wedi eu rhifo gydâ'r marwolion:—yn "Salvatores," am eu bod yn ymlid gormes a therfysg i ddïyngan diroedd anghof:—ac yn "Patres patriæ," am eu bod yn gwneuthur y Gyfraith, nid yn ddagr dichell nac yn gleddyf gormes—ond yn "ffon gonestrwydd, yn darian diniweidrwydd, ac yn etifeddiaeth y tlawd."

2. Canfyddir, yn amlwg, y dylid talu, gydâ llawenydd, " deyrnged

a tholl ac ofn a pharch i'r rhai sydd yn gwylied ar hyn yma." Y mae holl ysgogiadau cymdeithas, a holl egwyddorion masnachaeth, yn eu gwahanol gyssylltiadau aneirif yn gofyn eu sylw manylaf, a hŷny yn feunyddiol. Nid bychan gan hŷny yw eu gofal, ac nid ysgafn eu baich: ac nid yw ond cyfiawnder iddynt gael cefnogiad a chynnaliaeth. Heb deyrngcd ni chynnelir llywodraeth, heb lywodraeth ni chedwir trefn, heb drefn ni chefnogir "moesau da," ac heb foesau da ni chyrhaeddir na dedwyddwch nac enwogrwydd.

Canfyddir, yn olaf, y dylem ni fel Prydeiniaid, gydnabod, mewn ysbryd diolchgar, ein rhwymedigaethau annrhaethadwy i Lywydd y bydoedd, am y rhagorfreintiau lliosog a fwynêir genym dan nawdd llywodraeth dirion Teulu Brunswick. Dan effeithiolaeth uniongyrchol gosodiadau rhagorol llywodraeth ein gwlad, y meithrinwyd yn mynwesau ein hamaethwŷr a'n masnachwŷr—ein morwŷr a'n milwŷr—ein llywiawdwŷr a'n hathrawon—ie, a'n rhianedd hefyd—y rhinweddau dysgleirwych ag ydynt wedi derchafu Prydain i fod yn Eden y byd o ran ei ffrwythlonedd—yn Dyrus y byd o ran ei masnach—yn Fabilon y byd o ran ei gogoniant—yn Rhufain y byd o ran ei hawdurdod—yn Athen y byd o ran ei dysgeidiaeth—ac yn Gaersalem y byd o ran ei chrefydd.

SOLON.



# AWDLAU

The same point to deal our or lives and a describe a green a green and and a describe many and another many a series as a firm and the same and a series and a se

y torrest the following and the first spiles of

ay send out graph or many light and the presentatives?

AR

WLEDD BELSASSAR.

SOUTH AND THE PROPERTY OF THE PARTY OF THE P

## AWA

# HEREN BELLEVING THE STATE OF TH

The bord of a second se

Heles as provided the contract of the contract

## AWDL

## AR WLEDD BELSASSAR,

#### GAN CATWG.

#### Y CYNNWYSIAD.

RHAN I.

Gwledd Belsassar hyd llinell 5. Dull Belsassar yn dangos llygredd dyn trwy bechod, 9. Pechod yn waharddedig, 13. Dïal am bechod, 17. Israel am eu pechodau yn cael eu caethgludo i Babilon am 70 mlynedd, eu gwaradwydd, a'u cystudd yno, 27. Y gelynion yn gofyn cân ganddynt, 31. Yn diystyru Duw ac yn cymmell Israel i addoli eu duwiau, 27. Israel yn dewis marw yn hytrach na hyny, 41. Israel, gan alaru, yn troi eu hwynebau tua'r Deml Santaidd, 45. Duw yn gogoneddu ei enw trwy eu gwaredu o'r tân, 49. Cerydd Israel yn fendithiol i'w dwyn i edifeirwch, 53. Y Caldeaid yn ymgaledu, 61. Yr awdwr yn esgyn i ucheldir, ac yn darogan gwarediad Israel, gan ganfod byddinoedd y Mediaid a'r Persiaid yn ymgyrchu tua Babilon, 75. Agweddau y byddinoedd a'u cyflymder, 85. Cyrus yn eu rhëoleiddio, eu harddwch a'u hëofnder, 89. Darostwng y wlâd, 91. Gobrias a Gadata yn encilio o'r ddinas at Cyrus, 93. Gwarchae ar Babilon ddwy flynedd, 99. Prophwydoliaeth am Cyrus, 103. Belsassar yn ei ddinas gadarn, 107. Sylwiadau ar y ddinas, 143. Annuwioldeb ei phreswylwŷr, 163. Cyrus yn gwarchae oddiallan, a Belsassar oddifewn yn ddiofal yn hyderu yn ei dduwiau, a chadernid y ddinas, 171. Dyfodiad yr ŵyl flynyddol, 175.

#### RHAN II.

Belsassar yn ordeinio gwledd i fil o arglwyddi, 179. Gresynu am na chyfranai i drueiniaid, ymprydio a gweddio Duw, yn hytrach na gwledda ar y fath amser, pan yr oedd y gelynion oddiallan yn darparu dinystr y lle ac yntau, 191. Parotoi y wlêdd, danteithion y wlad ar y byrddau, 197. Dyfodiad y brenin a'i dywysogion i mewn, 201. Eu hymddygiad annuwiol yn sarâu Duw, ac yn tynu ei ŵg ef arnynt, 229. Bysedd llaw dyn yn ysgrifenu ar y pared, 233. Chwyldroi y wledd o elwch i alar, a chyffro ac ystumiau y brenin, 235. Galw am y doethion i ddarllen yr ysgrifen, hwythau yn methu, 243. Y brenin yn flin arno, a phawb yn synu, 239. Nitocris yn cysuro 'r brenin gan hyspysu iddo am Daniel, 253. Galw Daniel ger bron, 255. Araeth y brenin wrtho, 273. Araeth Daniel, 330.

Yr ysgrifen a'i deongliad, 345. Y doethion yn synu, 349. Eofnder, Daniel, 353. Y brenin yn gorchymyn cyflawni ei addewid i Daniel, 355. Distawrwydd mawr, ac o herwydd drymed yr argoelion, pawb yn dihoeni, ymollwng 'a chysgu, 361. Y dinaswŷr yn feddwon, y gwylwyr ar porthorion yn cysgu, Pyrth yr afon heb eu cau, yr afon yn sêch, Gobrias a Gadata yn arwain llu ar hydd-di i'r ddinas, ac yn myned ar hyd yr heolydd i agori pyrth y caerau i Cyrus a'i luoedd, Sêr a Lloer yn eu goleuo, 385. Y dinasyddion yn eu cwsg, Cyrus a'i luoedd yn cymmeryd y ddinas, 399. Y prif bechodau 391. a dynodd farn ar y ddinas, 407. Y lladdedigon, Belsassar a'i holl denlu yn lladdedig, 415. Darius yn dyfod i'r frenhiniaeth, 417. Cyrus yn rhyddâu Israel, a hwythau yn myned i'w gwlâd, 421. Sicrwydd cyflawniad y prophwydoliaethau yn ol trefn Rhagluniaeth, 425. Pechod yn achos trallodus chwyldroion byd, a Rhagluniaeth y Nef yn goruwchreoli pob peth i ddwyn i ben amcanion y Goruchaf, 429. Tri thro hynod yn Babilon o herwydd pechod, a'r diweddaf oedd drymaf, 445. Diweddglo.

#### RHAN I.

GWLEDD Belsassar, ar ei oriau—olaf;
Ei elwch a'i aethau,
Ai einioes ef yn nesâu
I gyngerth, ing, ac angau.
Dull Belsassar a'n harwedd—i weled,
Er alaeth, y llygredd
A wnai bechod i'n buchedd;
Yr hyn wnai lwgr yn ei wledd.

Pechod yw gwaelod pob gwŷn,—gwaharddai Y Gwir Dduw ei ganlyn, Gan rybuddiaw y daw dyn I ddialedd o'i ddilyn.

Dïelir pawb a'i dilyn,—dïal dwys A dâl Duw i'w blentyn Am bechod,—wermod ei wŷn A ddiarbed rydderbyn.

Gwthiwyd plant Duw yn gaethion,—o'u tiroedd Torwyd yr Iuddewon Am bechod,—mewn trafodion, Ei bobl ânt i Babilon, I flin oddef seithneg o flynyddau
Di hedd, o hyd dan waradwyddiadau,
Yn nhir gelynion,—yn oer galonau;—
Mawr oedd euogrwydd, a môr o ddagrau;
A niweidiwyd caniadau ei bobloedd;
Griddfanu ydoedd greddf eu heneidiau.

Gweled dirmyg eu galon—afrywiog, A friwiai eu calon, Yn gofyn cerdd lwysgerdd, lon, O syw ganiadau Sïon.

A deuai waeth-waeth, eu Duw a hwythau A dra-diystyrid drwy dost eiriau: Mỳnai 'r galon brydion eu bwriadau Erchyllach, trawsach treisiau,—eu trosi A'u dwyn i addoli mudion ddelwau.

Coelio duwiau y Caldeaid,—gwydus! Gwadu 'r Duw bendigaid! Mawr yw hyn! gwell meirw, o rhaid: Ebai 'r hyawdl Hebreaid.

Galarant, tröant eu trem,
Aml sylwant, at Deml Salem,—
Nes cyrhaedd mynwes cariad
Eu dwyfol dosduriol Dad.

A'u Duw mâd ac ofnadwy, Yn eu mysg, a wnai enw mwy Hynod iddo ei hunan, Ac o'r tân eu gwared hwy.

Garw ddial gai 'r Iuddewon—ond etto, Bu 'n dattod y galon: Marwhau a thymheru hon I ddiwygiad oedd ddigon.

Bu gwaeth, er eu bygythio,
Ddynion afradlon y fro.
Ni fawrhaid yn y fro hon,
Dduw oesawl na'i dda weision.
Gerthed eu bai! gwrthod budd,
A rhoi heibio bob rhybudd;
A chan gyd-bechu'n gadarn,
Hwy ânt,—addfedant i farn.

O'r dyffyrn, esgyn a wnaf—yn odrist, Gan edrych beth welaf; O dir uchel edrychaf, Ac amlwg olwg a gâf.

I'r caethion dilon mae dydd—yn nesu I'w haneisor Lywydd Gerth rwymo eu gorthrymydd, A'u galw hwy draw i'w gwlad rydd.

Wele lu mawr ar erfawr yrfa, Yn ymadael o derfyn Media, Oll heb arswyd, a llu o Bersia, A rhai ymunwŷr o Armenia, Trwy ammod yn troi yma; anrheithiant Bawb a lynant yn Babilonia.

Y milwŷr ar eu camelod, Wŷch ryfelwŷr a chawrfilod, A meirch dihafeirch yn dyfod, Glewion, arfawg lu anorfod.

Yn ol y gâd, niwl a gerdd, Lluwch ogylch, llwch a'u hagerdd. A'r niwl yn troi yn olau Trwy dân gwyllt rhwng traed yn gwau. Hwy a lymion garlamant; Yma yn swta nesânt.

Wele, ddoniawl Faeslywydd union, Cyrus, nai Darius, hynod Wron, Yn effraw fyddinaw ei ddynion; Rëoleiddia ei ddewr lüyddion: Yn ewybr ac yn hoewon—ymrestrant, A bygylant wynebau galon.

Hwy lanwant Fabilonia—oludog; Wele'r wlad yn sathrfa Am bechod: bythol nôd wna Yn ninystr y fan yna.

Acw, wele, encilwŷr—o'r ddinas, Addas gyfarwyddwŷr, Gobrias ac y Brëyr Gadata gyda y gwŷr. Ceiswŷr gwaed am waed ydynt—a dïal; Deuwr a â rhagddynt Er y caerau a'r cyrynt, Dau â i mewn er dim ynt.

Gwedi rhwygo y fro frâs, Gwrdd unant ger y ddinas.

Ychydig o ymdrechiadau—a fu O fewn dwy o flwyddau; Gwelwyd o ddeutu 'r gwaliau, Ymdrin ddygn am dro neu ddau.

Cawn hanes cyn ei eni— am Cyrus Ddaionus, a'i enwi Yn addwyn frenin iddi; Y chwyl hon yr ymchwel hi.

Belsassar i'w blâs iesin; Ei gref nawdd ef yw ei ddin; Ac adail gaerog ydyw, Drych hefyd i'r hollfyd yw.

Ymaros uwchlaw ei muriau—a wnaf, I wneud sylwiadau O'i hynod ryfeddodau Llïosog, cyn ei llesgâu.

Anhafal yw hon hefyd; Hon sydd ben dinasoedd byd. Meithder i bellder heb ail Yw hyd a lled ei hadail: Pymtheng milltir, mewn tîr têg, Ydyw, Petrual wiwdeg;

Tringain milltir ogylch Yw hon; a chaer yn ei chylch; A chan porth prês eres wrdd; A dŵ'r agwrdd yn drogylch.

Trwyddi hefyd traidd afon—yn dyfod Rhwng deufur uchelion, A phyrth prês ddwy rês ar hon, Trwy y muriau tra mawrion.

Wele ynddi grogerddi agyrddion, A gwiwfad eres—golygfa dirion— Rhodfëydd hygyrch—llennyrch dillynionUwchlaw y ddinas, iach le i ddynion; Lle sawrus llysiau irion—sydd yna— Awyr a gluda eu harogl hedion.

Wi! ei hoff lysoedd hi a'i phalasau; Fireinied ei hamlwg fawrion demlau, Yn ddirhynodol gan addurniadau, Eu parwyd hwy a lanwyd o luniau Llu daear—a lle y duwiau—ynddynt; Rhai nad ydynt werth rhoi eu nodiadau.

Ynddynt hefyd, drymllyd drem! Sylwais, mae llestri Salem: Anaddas, ni a wyddom, Eu lleâu â duwiau'r dom.

Y brif ddinas sydd brawf o ddoniau Ceinwiw, odidog, y cyndadau:— Ni henwid byth ei hynod bethau, Rhy faith aros rhifo ei thyrau Lle mynych y llummanau;—llawn weithion Yw hon o feithion hynafiaethau.

Ond annuw iawn y dynion
Oll a drefyd ar hyd hon.
Lleddir, gosdyngir y da,
Dyrchir, dyheddir didda.
Llosgi, lladd, a dyspaddu,
Ar arch rydd Llywydd y llu.

Dynion yn trin dewiniaeth—sy yna, A swyn a hudoliaeth; Ni bu rai a wyrai waeth, Ar ddaear, i audduwiaeth.

Rhoddi mawrhydi i Merodach, Nebo, Nergal, ac i Faal folach, Gas weision, ac i Shesach;—gan wadu, Cablu, nid caru, Duw cywirach.

Gan angerddol, reddfol rym Llygredd yn ei holl awgrym, Goddefir pob drwg ddyfais; Balchder, gorthrymder, a thrais: Pob pechod a bennodir Sydd yn hon:—hi sawdd yn wir. Gwŷr Cyrus ger y caerau—y gwyliant: A'r trigolion hwythau O'u mewn hwynt; ac yn mwynâu Da fyd a phob defodau.

I'w mur, a'u duwiau meirwon,—a dorau Hyderai'r trigolion; Na welid yna alon I beri brad a braw bron.

A deuai gŵyl y duw gau—hòno oedd Flynyddol ei chylchau, Er rhoi dïolch i'r duwiau, A gwledd i'w rhyfedd fawrâu.

#### RHAN II.

BELSASSAR lawn cyfaredd, Archai a darluniai'r wledd, I'w gweini yn ddi gynnil; Gwledd fawr i'w arglwyddi fil.

Och! frenin, na chyfranai
I dlodion, efryddion rai.
I wledda nid dyma'r dydd;
Mae Cyrus am y caerydd.
Ha! frenin ofer, annuw,
Ymprydia, gweddïa Dduw.
Darparu a sychu sydd
I fynu dy afonydd:
Lyw annuw, nid crindduw, crêd,
Na mûr, a wna ymwared.
Tithau, pe gwypit weithion,
Tydi a syrthi'r nôs hon!

A'r wledd rhagddi, a gweini coginiaeth; Ymroed i'r perwyl, mawr y darpariaeth; Byrddau a drefnwyd, huliwyd yn helaeth, Y rhai a lanwyd â phob ryw luniaeth, Seigiau y dywysogaeth, yn ddestlus, Sy'n ddïarbedus yn y ddarbodaeth.

A deddyw mawr Lyw y wledd Gyfeiryd mewn rhwysgfawredd; A'i segur dywysogion, Gwŷr a fawrâid ger ei fron.

Maith imi lenwi darluniad—ollawl Eu dull a'u hymddygiad:— Diŵyrni gellir dirnad Fod i 'r wledd defodau 'r wlad.

Eisteddant, mawrânt eu Rhi
A rhodres i'w fawrhydri.
Ow! ni welir un holiad,
A fŷn y Rhi ofyn rhad
Duw weithion, er bendithiaw
Y wledd, o roddion ei law.
Na, na, i loddesta'dd ânt;
Duw uniawn ni adwaenant.
Ymborthant, fawr, erfawr rill;
Draw o'u gŵydd aid a'r gweddill:
Heb sôn am ffyddlon goffâu
Gwir roddwr trugareddau.
Gweini gwîn i'w mîn mỳnant
Breisgion wŷr, brwysgo a wnant.

A mawrâu eu duwiau am eu dyhedd Arddyrchu ogylch, yr ordderch wragedd; Peri halawgrwysg i bob rhyw lygredd, Er gwae a dylaith, rhwyg a dïaledd; Sarhau Duw, nes o'r diwedd—ryfygu Taer ymyru â llestri tŷ'r Mawredd.

Ennynai hyn yn union, Eiddigedd Naf, uchaf Iôn. Gwelid gŵg am y drwg dra I'r brenin, er braw yna.

Ys arwydd echrys, er ei ddychryn, I'w weled ar y pared purwyn, Lle y daeth bysedd llaw dyn—i gerfio: Brined yno y barnwyd annyn.

Ei lwydd a'i wledd a luddiwyd;—o elwch I alar chwyldrowyd, O'i wrês a'i rodres i rwyd Gwae, erysi, ac arswyd.

Gweddnewidiai, delwai 'r dyn Gan gyffro, agro, egryn, A rhwymau llwynau 'r Llyw od, .
O ddeutu yn ymddattod.
Curai ynghyd, dybryd wedd!
Ei ddeulin gan ddialedd.

Galwai'n groch, mewn broch a braw—adwythig, Y doethion, gan addaw, Os cai a ddarllenai'r llaw, Roi addien wobrau iddaw.

Daeth yno bob doethineb—a alwai: Ond wele fethineb, O honynt ni chaed wyneb A'i llëai—ni allai neb.

Y brenin ni b'ai 'r unwedd, Cyffröai, newidiai 'i wedd; Terfysgus arswydus âi; Gorsŷnai gwŷr ei senedd.

Yna daeth i'w enaid ef Arswydus, gwynofus gnif. O! anhydyn, elyn Naf! Pa lîd i'w ofid a ŷf?

Yn ystod y trafod trwm,
A dyryswch direswm,
Daeth Nitocris, megis mam
Dyner, a newydd dinam,
Fod i Ddaniel fad ddoniau
I gael rhîn a'i eglurâu.
Daniel uwchlaw 'r dewiniaid
Oedd ddoeth a dewr ddyddiau 'th daid.

Galwer am hwn, hwn, ebai hi—a all Ei ollawl ddëongli: Cais Ddaniel, oruchel Ri, Llaw Daniel all dy weini.

Ei llais ddadebrai y llu O brudd wŷn braidd i wenu. Cennadon âi 'n union, a Daniel a gyrchid yna.

Yn chwai medd y Llyw, Na chêl Dy enw, ai ti yw Daniel? Imi yn hygoel mynega—ai ti Wyt o gaethglud Juda, Dewinydd, dëonglydd da Fu rymus i'r fro yma?

Methodd doethion i'w hòni—ddïorlludd Ddarllen a dëongli Yr ysgrif, fel y gweli Mor dêg, ar fy mhared i.

Yr ysgrifen os darlleni—yn llawn Gan ei llwyr ddëongli, Ysgafn borphor a wisgi, Ag aur dorch anrhegir di. Cai harddwch, parch, ac urddas—y trydydd Lyw tradewr i'm teyrnas; Dy enw fydd mawr i'm dinas, Dy fri trwy Galdea frâs.

Ebai Daniel, Bid yna
Dy anrhegion heirddion, ha!
Cai roi 'r rhai'n i'w carwr hwy,
Dibris genyf dy wobrwy.
Yr ysgrifen darllenaf;
I glyw y Rhi eglurâf.

Clyw, O frenin, nis celaf wirionedd; Duw a ranai i'th dad yn dirionwedd, Doraeth mirain, llywodraeth a mawredd. Yntau âi 'n fradwr, treisiwr trahauswedd. Crynai fyd i gyd yn gydwedd—rhagddo; Rhag yno ddirio ei fawr gynddaredd.

A fỳnai a laddai o lid, A fỳnai a gadwai i gyd, A fỳnai ostyngai ei 'stâd, Ac a fỳnai dyrchai i'w dud, Archai, ac a fỳnai gai fod.

Uchder ei falchder a fu—wir achos I'r Goruchaf wgu, A'i droi 'n îs; o deyrnasu I waeth 'stâd na chaethwas du.

Pablwyd, ac o fysg pobloedd Gyrwyd ef, digariad oedd. Y pwyll i'w galon pallai,
Megis calon eidion âi:
Di anwydau dyn ydoedd;
Un fel uthr anghenfil oedd;
Gyda'r cyfryw'n byw, a bod
Ar wellt, fel rhyw wylltfilod.
A chyd a hwy gwlychwyd ef
Gan, a than wlith y wiwnef.

Hyd oni wybu, a chydnabod—pwy Oedd pen pob awdurdod, A phrif Lyw pob byw a bod, Barn, iawnder, a brenindod.

Tithau, ei fab, ti aethost Yn flaenawr rhy fawr ei fost.

Ymgodaist yma gwed'yn,—heb ystyr, Heb ostwng mewn dychryn; A dilynaist ei linyn, Er gwybod o honod hyn.

Dïystyraist, gwatworaist Ddnw tirion, Ti heddyw, alwaist am sancteiddolion A daionus lestri ei dŷ union; Yma daethant; a chyda'th gymdeithion, A chyda'r ordderchadon, buost ti I'w halogi, y'ngwydd ei olygon.

Moliennaist, addolaist dy ddelwau,
A dy fwyn oeddynt eu defnyddiau,
Gyda braenus, wywedig breniau;
Dison ydynt a disyniadau.
A Duw 'th bywyd a 'th bïau—ni pherchaist;
Ti hawdd adewaist Dduw y duwiau.

O ger ei fron anfonid Y darn llaw, megis dwrn llid, I fanol ysgrifenu Dy ddychrynllyd ddedryd ddu.

Samaritan lân a ganlyn

JMEGJJ 2PA AJJ AJJ

A'i heglurâd gwelir yw hyn. Y farn yw hyn: Dy freniniaeth Rhifai Dduw, a'i rhif hi a ddaeth I ben; ef a'i gorphenodd Er ei fawl, mewn cywir fodd.

Tithau, pwyswyd ti, weithion, Yn gywir, frŷ, ger ei fròn, Mewn tafol oesol, iesin; Gwael wyd, fe 'th brofwyd yn brìn.

Dy freniniaeth helaeth hon, Heddyw, a roed yn ddwy rân; Persiaid a Mediaid a'i mŷn. Gwir hefyd yw'r ysgrifen.

Y doethion heb sôn a sỳnant—i gyd, A diwyd wrandawant Ar Ddaniel lawn urdduniant: Rhyfeddu o'r neilldu wnant.

Toster a iawnder un-Duw—cyhoeddai, Cyhuddodd yr annuw. O! agyrddwas y Gwir-Dduw: Eon a dewr dros enw Duw.

Archai y Llyw, gwyw heb gêl, Ei adduned i Ddaniel. Ni wenai yno wyneb Gan fraw: nid annistaw neb.

Gan drymion argoelion gwelwant; Wedi hyny y dihoenant; Ymhell i ing ymollyngant: Dir y gwasgwyd, a dargysgant.

Rhag cyni af fi o'r fàn I syllu beth sy' allan.

A gwelaf fod trigolion—y gaered
Yn gorwedd, fel meirwon,
Yn ei bythau yn ben boethion;
Llu anfuddiol, oll yn feddwon:
Neb effro yn gwylio gâlon
Ar ei thyrau, na phorthorion.
O rhyfedd! Pyrth yr afon—heb eu cau!
Och! hithau 'n sech weithion!
Ar hyd yr hon
Wele alou!

Ac wele, yr encilwŷr—i'r flaenrhes Yn eres flaenorwŷr, Gobrïas, ac y brëyr Gadata. Pa gynna gwŷr?

Taerion torant
I fewn, hŷf ânt,
Agorant byrth y gaered;
Llyna y llwybr, yn llawn lled,
Heb oludd, hyd deml Belus,
I Gyrus yn agored.

O'r ffurfafen ysblenydd Lleuer, sêr, a lloer y sydd.

Ac eilwaith y trigolion—i'w cael Yn eu cwsg echryslon. Oni faeddir hwy 'n feddwon? Oni syrth y ddinas hon?

Wele, Gyrus a'i lu gwrol,—treiddiant Trwyddi yn fuddugol; Taro wnant cyn troi yn ol; Ennillant hi yn ollol.

Cyn y borau gwnaed ei theiau Hi yn feddau anufuddion. Cyrus, yntau, a'i lummanau Ar ei chaerau, orwych Wron.

Rhedeg i ryfyg rhydost,
I uchder, balchder, a bost,
Ac i ddewis gaudduwiaeth,
I chwerwedd, o'r diwedd daeth:
Gorddwys watwor y Gwir-Dduw,
Ysu yn dost weision Duw,
Pechod na bu wermod waeth,
A'u dug i farnedigaeth.

O wledda traws! O ladd trwm! Ac uthrol y rhwyg athrwm. Lluoedd ar luoedd a lâs O ddynion, yn y ddinas.

Taro Belsassar yn farwol—o'i gwsg, A'i osgordd freninol; Medi yn ddiammodol, Heb adaw neb o'i dŷ 'n ol. Yna Darius yn dirion, A ddaeth i'r freniniaeth hon.

Cyrus ddaionus yna—a ollwng Allan gaethglud Juda; Ant tu a'u gwlad ddifrad dda, I rydd eilfyd o'r ddàlfa.

Pob rhyw ddwyfol brophwydoliaeth—heb ludd, A gwblâ Rhagluniaeth: Yn ol y Gair dwyfol daeth Y farn hon ar freniniaeth.

Chwyldröau, troellau trallod,—gweledig Dreigliadau tra hynod Fu—ac sydd beunydd yn bod Heb achos, ond o bechod.

A rhagluniaeth Iôr goleuni—a geir Yn goruwch rëoli Pob gwaith a chwyl:—ymchwyl i Fwriadon ei Fawrhydi.

Daw baich ar wlad a becho—heb ommedd: Bu yma dri chwyldro Terwyn,—a Duw yn taro Yn drymach, trymach bob tro.

Gwir yw gymmysgu yr Iaith Am enwir, yma unwaith, Troi dyn anhydyn yn ail I annofus anifail, O'i uchder i isder;-a Dwyn einioes y dyn yna: Holl edryd y llywodraeth, Heddyw, i ddistryw a ddaeth. Aeth i'r llwch harddwch eurdde, A llwyr ddinystriwyd y lle. "Syrthiodd Babilon." Sôn sydd, Heb gêl, o wlad bwygilydd. Llwybr i ddyn lle bu'r ddinas, Ni welir drwy 'r certhdir câs. Nid oes ol ei hëolydd; Ei hanes hi, hỳny sydd.

Trefle y Fwltur aflan,
Trigfod gwestfilod yw'r fân.
Mân anial, yn dâl dilyth
Nodau barn, heb newid byth.
Gwylia, ddaear! gwêl ddiwedd
Ynfyd Lyw a'i anfad wledd.

Crist fu'n golygu trefn gwledd;—dywedai Ei odidog Fawredd, Yn llwyr oll, y dull a'r wedd I'w gweini i ogonedd.

Boed i ddyn a dderbyn ddysg Wledda yn ol ei âddysg: Ac ni chair gwae, na chwerwedd, Dafn o lid o fewn y wledd.

G. WILLIAMS, neu

Gutyn Peris.



## AWDL

# AR WLEDD BELSASSAR,

### GAN DANIEL, GLAN AFON EUPHRATES.

BYR GYNNWYSIAD O'R PRIF BENAU.

Belsassar mewn rhwysg a mawredd yn cynnal Gwledd ardderchog yn Mabilon fawr, i fil o Dywysogion, pan ydoedd y ddinas tan warchae, gan luoedd y Mediaid a'r Persiaid.—Gwyl arbenig yn y ddinas. -Llawenydd a gorfoledd y trigolion.-Paratoadau mawrion ar gyfer y wledd .- Y Dinasyddion, yn eu hynfydrwydd, yn lladd ac yn aberthu i dduwiau a delwau Babilon-Yn gweddio ar Bel a Nebo eu gwared rhag Cyrus a'i fyddinoedd.-Mawrion y ddinas, yn eu harddwch a'u gwychder, yn cyfeirio tu a Îlŷs y Brenin.-Arlwyadau y wledd .-- Y cynteddau yn llawn o bob hyfrydwch, a mwyniant daearol.-Hyfryd sain y Cerddorion.-Harddwch mawreddog Belsassar.-Disglaer brydferthwch ei Ordderchadon, yn synu Urddasolion y wledd.—Araeth Belsassar wrth y Tywysogion.—Ei benderfyniad i fyned allan dranoeth i ymladd â lluoedd Cyrus.—Ychydig sylwadau ar fawredd a gogoniant Nabucodonosor.-Ei ymddygiad tu ag at yr Iuddewon.-Ei orchest yn Nghaersalem.-Ysbail y ddinas yn ei feddiant.—Belsassar a'i westeion yn rhyfygus gablu Duw'r nefoedd. -Yn anfon am lestri 'r deml, nid yn unig i harddu 'r wledd, ond yn benaf i ddiystyru Duw Israel.-Difyrwch y wledd yn dechreu siglo. -Anwadalwch mwyniant daearol.-Bysedd llaw dyn ar galchiad y pared yn llŷs y Brenin.—Angel yn ysgrifenu barn yn ei erbyn.— Dirfawr syndod Belsassar.—Euogrwydd ei gydwybod yn rhwygo ei enaid .- Y doethion a'r dewiniaid yn methu dirnad y geiriau .-Dychryndod y gwahoddedigion.—Daniel y prophwyd yn egluro'r geiriau.-Dinystr Babilon a'i delwau yn nesâu, yn ol prophwydoliaeth Esay.-Lluoedd Cyrus wrth y muriau.-Yn troi afon Euphrates. -Diofalwch v gwilwŷr.-Y gelynion yn annisgwyliadwy yn myned i mewn i'r ddinas yn nyfnder nôs.-Y canlyniadau arswydus.-Cedyrn y llu yn cyfeirio tu a llŷs y Brenin.—Dinystr ofnadwy yn y lle.— Lladd Belsassar. - Golwg ar ardderchawgrwydd Babilon a'i hardaloedd, yn nydd ei llwyddiant.-Ei hangliyfannedd-dra presennol.-Yn gadael Babilon fawr, y ddinas dêg, a'i phalasau hefyd, yn garneddau i adar v nefoedd, ac i ddreigiau yr anialwch.

BELSASSAR wnai lachar wledd,
I'w Wroniaid eirianwedd,
Yn Mabilon dirion dêg,
Lydan ddinas oleudeg,
Gwledd fawr, gwyl o ddifyrwch,
I'w weision hoff loywon fflwch,
Dewisol flodau Asia,
Ar ddiwrnod hynod o ha',
Mewn rhyfeddawl freiniawl fri,
Eurog wledd i'w arglwyddi.

Ar godiad haul araul rhoed banerau, I chwifiaw 'r uchelion, dirion dyrau; Yn addurnawl ddisglaer hyd y caerau, Mae prydweddol, urddasol dduwiesau; Gyda 'u gwridog dêg gariadau 'n hoywon, Rhodiai y mawrion ar hyd y muriau.

Gwylmabsant prysur hoyweglur hyglod, Llawen wledd ddifyr, a llòn loyw ddefod, Dydd cyfeddach, gloddest, a thrybestod, Gwŷch ŵyl addurnawl, ac uchel ddiwrnod; Jubili heini hynod—ysblenydd, O fawr lawenydd efo 'r eilunod.

Y teirw a'r hyrddod lladdent trwy'r hirddydd, A cheirw gwylltion, o ochrau y gelltydd, Carnolion daear, ac adar coedydd; Mawr yw y lluniaeth, a mwy'r llawenydd, Drwy hylon dêr hëolydd—Babilon, Ni fu dynion yn fwy eu dywenydd.

Gorfeddwent yn grefyddol,—aberthent I borthi chwant cnawdol: Gwyl fwystfilaidd, ffiaidd, ffôl, Aflan oedd yn flynyddol.

Dynion gwalltgo', gwedi rhwystro, Yma 'n boddio meini byddar; Lladd aberthau, i ffôl ddelwau, Gwyl i dduwiau gwael y ddaear.

Delwau arian, ac aur dilin—molent Yn mhalas y brenin; Delwau o goed, diawl a gwîn, A lwyr wyrai Iu'r werin. Mawr ddiwrnod yn bod i Bel—trwy'r deyrnas, Yw hwn o urddas i'w heini arddel; Difyr drwy bybyr dre' Babel,—yw'r llu, Yma yn llonychu mewn llanw uchel.

Ar Nebo bloeddio wnai 'r blaid—eu gwared Rhag Cyrus y Persiaid; Eu gelyn, cyndyn y'i caid, A'i orenwog wroniaid.

Dydd y wledd a anrhydeddid,—teml yr haul Oleuni araul, a wiwlan eurid: Drwy barthau'r dre' aberthid—i'r duwiau, A llu o ddelwau'n y lle addolid.

Gwledd i ddangos nerth prydferthwch—palas Llïosog deyrnas, llŷs ei gadarnwch; Tai a gerddi têg, harddwch—ei fawredd; Gwledd o oferedd, a gloyw ddifyrwch.

Goreufalch dêg wyryfon—y ddinas, A ddawnsia'n yn hyfrydlon; A gwelid lluoedd gwiwlon, O bobl wŷch yn Babilon.

Pybyr yw llongwŷr y llynges,—rhwyfant Ar afon Euphrates, Disglaer blaid gànaid gynhes Ydynt hwy o dàn y tês.

Têg brydnawn o lawn lawenydd—haelwych A heulwen o gynnydd, Yma ar Belsassar sydd, Is ei blaned ysblenydd.

Eirian eu tegwch, rhïanod hygar, A dỳnai i fynu dàn ei faniar; I blâs iesin y brenin Belsassar, Y goleudeg, emog, le digymhar, Yn llu hyweddgu hawddgar,—wrth wahodd, Yn gain y deuodd enwogion daear.

Ei hoyw lwysaidd, chwyrn hylaw weision, Parod y'nt hwythau, pêr yw danteithion, Ei bybyr gaerau o bob rhagorion, A gwresog hylwydd wiw groeso calon; Lluniwyd y byrddau'n llawnion—â dysglau, Rhyw hynod seigiau i'r hên d'wysogion. I'r werinos Belsassar a ranai
Ddiodydd, a bwydydd ni arbedai;
Gan y gweision yr oedd gwîn, ac osai;
Holl gynnydd ei geurydd a agorai,
Ystôr o drysor didrai—cenedloedd,
A golud oesoedd yno gludasai.

Gwîn yn anghyffredin eang ffrydiau, Sydd yn afonydd yn ei drigfanau; Lle na fu ei eilydd, llawn—afalau, Pob rhagorol, a phêr ethol ffrwythau Mil o ddolydd, a mêl ddiliau—helaeth, A llawen odiaeth yw 'r holl eneidiau.

Ac O! mor ryfedd ydyw'r cynteddau,
O bob têg, harddaf liwdeg wyrdd flodau;
Llòn, eres annedd llawn o rosynau;
Mawr oedd ei barlwr, a myrdd o berlau,
A digonedd o deganau—euraid,
Yn wychion delaid, a chànaid olau.
Nyth o wagedd yn ei thegwch,—difyr
Ysdafell hyfrydwch,
Pob mwynder, hoff lawnder fflwch,
Oedd yno, a diddanwch.

Cerddorion tỳnion eu tànnau— y sy'n Dadseinio 'r anneddau, Holl fywyd gwynfyd sy'n gwau, Drwy y gorwych dêr gaerau.

Hoyw loywdeg fel yr haul ydoedd—y gŵr Yn ei gaerawg wisgoedd, A sêr yn wir seirian oedd, Ei lawen hyfryd luoedd.

Ar orseddfeinciau gorau y gwron, Yn eu têg dlysau, a'u gynau gwynion, Hardd eurwych ydoedd ei ordderchadon; Ar y gweddaidd, arafaidd wyryfon, Yn y wledd ardderchawg heulawg hylon, Eryraidd sylwai yr urddasolion, Eu hawddgar, liwgar, olygon,—erfai, Yno dêr daniai eneidiau 'r dynion.

Agor ymadrodd mewn geiriau medrus, Wnai Belsassar ffraeth, mewn afiaeth nwyfus, Wrth ei holl wrolion, dynion dawnus, Yn y plâs eirian, tirion, pleserus, Ar sedd oleuwedd liwus—o arian, Yn ŵr hoyw dyddan, ac anrhydeddus.

- " O dywysogion dewrion, a durawl,
- "O waed gwroniaid hoywdeg, eirianawl,
- " Pybyr feibion eryron arwrawl,
- " A redodd oesau anrhydeddusawl,
- "Yn wychion arfogion anorchfygawl;
- " Awn allan y foru 'n yn llu niferawl;
- " Ar Gyrus a'i wŷr gwrawl—yn ddïau,
- " Ni a wnawn wyrthiau, fy nynion nerthawl.
- "Ei fawr gâd o'r wlad erlidiwn,-ei wŷr
- " A'i wersyll ysbeiliwn,
- " A'i ryfelwŷr a falwn,
- " Anfad gawr, yn fwyd i gŵn".

Codai 'r enwog d'wysogion, Oll i fynu yn llu llon.

- " O! frenin y fawr annedd,
- " A glyw yr ardderchog wledd,
- " Mae arfau ein teidiau têg,
- " Heb rydu bob rhyw adeg;
- " Duwiau yr hen Galdeaid,
- " A gweision dewrion dy daid,
- " Anorfod ddynion erfawr,
- " Dòrai lu daear i lawr;
- "Gwae i Gyrus goeg wron,
- " Ddwyn saeth at y ddinas hon;
- " Bel ein duw o'n blaen a dŷr
- "Uthr filain wrthryfelwŷr."

Yn eu dïod yr andwyant—Gyrus,
A gorwag ymffrostiant;
O'r oror ei wŷr a yrant;
Ei drueiniaid a drywanant,
A'i lüyddion ef a laddant:
Y llŷs hynod oll a seiniant;—mewn gorchest
A gloddest y gwleddant.\*

Belshazzar and his lords are in the midst of their revels, the cups going round apace, and all upon the merry pin, drinking confusion, it may be, to Cyrus and his army, and roaring out huzzas, in confidence of the speedy raising of the siege. M. Henry's Ex. 5 ch. Daniel.

Nerthol, arwrol ar eiriau—yw pawb Mewn pybyr feddyliau; Ni fu dynion gweigion gau, Mwy anorfod mewn arfau.

Hawdd yw sôn yn ddisynwyr,
Am ymladd a lladd yn llwyr,
Holl luoedd, dorfoedd dirfawr,
Y Persiaid a'r Mediaid mawr,
A chael glân oruchel glôd,
I'w henwau bawb yn hynod,
A rhodio ffordd anrhydedd,
Mewn gwynfyd a hyfryd hedd.

Yma y sodda'r masweddion—hoenus, Y'nghanol gorchestion; Adail ddisail y nôs hon A godant yn Nghaergwdion.

Yn y wledd oleuwedd lân,
Seiniant glod, eu hynod, hên
Deidiau, a'u troiau mewn trîn,
A chabledd ryfedd i'r Iôn,
Y nefol drag'wyddol Gûn:
Ar ei sedd, O! mawr yw sŵn
Belsassar, loddestgar ddyn.

Llawer o falchder a fu Yn dilyn hwn a'i deulu; Rhyfelgar anwar enaid, Hynod oedd yn ei hên daid; Y ffordd yr âi honai hawl, Ennillodd Asia 'n ollawl: Hên Dyrust hynod orwych, Firain dref eirian ei drych; Hardd ddinas mewn urddas oedd, Cre' gadarn fel craig ydoedd; Trwy derfysg, tyrau dirfawr, Hon chwalwyd, llosgwyd i'r llawr. Tref Sidon wiwlon dêg wedd, A gorniwyd oll yn garnedd: A thrwm y gwnai orthrymu, Pob rhyw fan trwy Gana'n gu:

<sup>+</sup> Nebuchadnezzar besieged Tyre for thirteen years, when he took the City and razed it to the ground,

Rhoddodd Salem mewn rhuddwaed, Tỳnai y dref tàn ei draed, A'i dynion mewn cadwynau, Yn dỳn a roes dàn yr iau.

O! Gana'n dêg, lon eurdeg lân ardal,
A'i llysoedd enwog, y lle sydd anial;
Ei hyfryd deml oedd hefyd ddihafal,
Geinwedd, ysbeiliwyd ganddo, was Belial:
Ar y difyr wŷr dïofal,—y nôs hon,
O du'r Iuddewon daw awr i ddïal.

E dynasai Nebucodonosor,
Gwron aflonydd, a gerwin flaenor,
Oludoedd trymion, o wledydd tramor;
Iddo anrhegion ddeuai yn rhagor;
Tra iesin oedd y trysor—cysegrlan,
A gafodd yn Nghana'n, eirian oror.

Cysegrwyd, rhoddwyd y rhai'n Yn nhemlau, caerau cywrain, Eilunod Babel hoenwych, Fawr iawn dref, eirian ei drŷch; Drwy allu Bel dryllio byd, A wnai'r hyfion wŷr, hefyd.

Yn nghanol eu holl orfoledd—bloeddient Yn gableddus ryfedd ; Llygrwyd, halogwyd y wledd, Yn erwin mewn anwiredd.

Plant Israel yn wael a welwyd—yno, Enw eu Duw a gablwyd; Y cadarn Iôn watworwyd! Daeth y wledd i ryfedd rwyd.

Y mae 'r llywydd mawr llawen—i'w weled A'i olwg fel mellten; Disgleiriad ei oes glaerwen, Sy', ŵr balch, agos ar bèn.

I'w lŷs dêr galwodd am lestri gwiwlan, Teml fawrglod, tŷ hynod Duw ei hunan, Ei ryfedd ddisgleirwedd ddysglau arian, Y gèmau, a'r perlau o aur purlan Gafwyd yno'n gyfan,—mewn gorfoledd, I iselu mawredd Salem eiriau. Y meiliau harddwych yn llonwych llanwant, At eu pen llywydd yn ufydd yfant; Mawl i'w duwiau a'u delwau dalant: Ar bob gêm o Salem manwl sylwant, Fel disglaer sêr lleuerant—yn y wledd, Trwy ei orwych annedd têr wreichionant.

Onid olwyn auwadalwch,
Ydoedd einioes eu dyddanwch?
Euraidd forau o ddifyrch,
Nôs o alar yno, sylwch!

Yma, siwrwd amserol,—am enyd Yw mwyniant daearol; Yn y dydd annedwyddol, Y rhaid yn wir rodio 'n ol.

Duw nef wen lawen oleuwedd—ganfu Eu gwyfyd a'u gwagedd; Ei olwg mewn dïaledd Droes i lawr, d'rysai y wledd.

I farnu hwn, a'i freniniaeth—rwysgfawr I wasgfa marwolaeth, Angel yn ddirgel a ddaeth, I'w lwys hylon lŷs helaeth.

Gweled y pared purwyn—a lanwodd Ei lwynau â dychryn; Gallu Duw, ac ôl llaw dyn, Iddo, tost oedd y testyn.

Wele bwys ôl y bysedd—ar y mûr, Yn rhwymo 'i holl agwedd, Erchyll y clwyf archoll cledd, I'w enaid yn ei annedd.

Cydwybod, hynod oedd hon,—yn dangos Ei dynged echryslon; Dirgeledd droi ei galon, Tarawai frâth trwy ei fròn.

Dïau cydwybod euog—sy' ffwrnais Uffernol gynddeiriog, Ac uwch ben ei pherchenog, Mae mynyddau, creigiau crôg. Rhyw eirias, grychias ferw grochan,—o'i fewn Yw ei fynwes frwmstan, Ail i gynhwrf twrf y tân, A'r sŵn dw'r sy'n y daran.

O bobyl enwog y Babiloniaid,
E alwodd yno lu o ddewiniaid,
Holl ddirgel gynghor yr oror euraid,
A llyfrau, caeth rëolau cythreuliaid;
Er doniau, blodau 'r blaid,—ni chadd heddwch,
O! na dyddanwch nid oedd i'w enaid.

Maeddwyd astronomyddion,—a delwodd Holl deulu'r seryddion; Er addaw aur, a rhoddion, Ddarnau têg, am ddirnad hon. Wedi eu llenwi a dallineb—mae'r Mawrion, mewn trychineb; A dyddan iach nid oedd neb, O! ni wenai un wyneb.

Iôn trag'wyddol, rhyfeddol ei foddion, A'i weithredoedd sy'n y moroedd mawrion, Beth yw cyrhaeddiadau doniau dynion, At amgyffred ei galed ddirgelion? Eglurâu, golau ar hon,—nid allai Y gwŷr a chwiliai y goruchelion.

Gan Ddaniel ardderchog, yr hoff brophwyd, Er mor dywell, y llinell ddarllenwyd, Yn y glân glorian hon a eglurwyd, Geiriau y bysedd a gywir bwyswyd; Mae 'r orsedd mewn mawr arswyd—ysgeler, Y brenin, cofier, yn brin iawn cafwyd.

Darfu ar gynnydd y dirfawr giniaw, Y mae 'r brenin gerwin yn ymguraw, Gan ofid, e welid llu yn wylaw; Y pêr gerddorion sy'n dystion distaw, Loesau i'w brònau, a braw—echryslon, Yn awr mae 'r eigion ar ymrwygaw.

O! ddinas Babilon wiwlon olau, Cryfion a mawrion ydyw ei muriau; Mae gwancus eirth Cyrus wrth y caerau; Eu llafur erfawr i'w llifo'r arfau: Er tegweh a phybyrwch ei bàrau, Ei phlant enwir, ddyrnir heno 'n ddaruau; Eu hannedwydd eneidiau—arswydol, A yrir i ingol oror angau.

Yn ei oes wiwlan Esay a welodd, Y cawr a sonir, Cyrus a enwodd; [Issiah ch. 45.] Duw Iôr yn gadarn ei darian gododd, Cofiai ei elynion, O! cyflawnodd, Yn ddidwn a dd'wedodd—am Fabilou, I'r Iuddewon yn ei air addawodd.

O hon Iuddewon a ddeuant yn lân, Adre' i Gana'n wen drwy ogoniant; Bro Salem a breswyliant—hir ddyddiau; Yno eu telynau eto lònant.

Y ddinas a'i meddiannau—agorir I Gyrus yn ddïau; Dryllir, dulir eu delwau; Mae nôs hîr yma 'n nesâu.

Mae'r gadres fel mawr gedrwydd—llonwych, Yn llenwi y meusydd; O flaen y dre' aflonydd, Rhif y sêr o arfau sydd.

Trwy waith chwyrn, cedyrn cydwedd—trwyadl Y troed pwysau mawredd; Dw'r yr afon, dro rhyfedd, Yn îs i lawr nôs y wledd!

Prysur fu llu y Persiaid,—hoff eirian, A pharod y Mediaid; Eu dynion dewrion diriaid, Dreiddiai 'r lle drwy ddw'r a llaid.

Ni bu gosgorddion y wledd fawreddog; Ei milwŷr na'i gwilwŷr yn wagelog Gelynawl, estronawl weis tariànog, Yn dorf a agorai y dref gaerog; Llu dirfawr, llewod arfog—yn rhwygo, Oedd y nôs hòno 'n y ddinas enwog.

Gwedi 'r mwyniant, gogoniant gwiw gynnydd, Y bu erchylldod, a difrod efrydd; Llifai gwaed a gwîn drwy 'r gerwin geurydd; Ar hyd y fân rhedai afonydd: Gwilwŷr a sawdwŷr y sydd,—fawr nifer, Yn dŷrau ysgeler, draws eu gilydd.

Do'i Mediaid a Phersiaid i'w hoff orsedd, A môr o ddiluw, a mawr ddialedd, Mal bleiddiaid, yn ddiriaid llawn cynddaredd, Dryllient urddas y ddinas gadarnwedd; Llwyr fwriwyd i'r llawr fawredd—gwledd ddifyr, Llu o ryfelwŷr a'u holl orfoledd.

Gollyngwyd o gell angau,—niferi O farwol genadau; Y llymion, sythion saethau, Y sydd drwy 'u gilydd yn gwau.

I wledd y bonedd arbènig, Y deuai 'r fyddin dorf eiddig: Mae ei elynion mileinig, Yma 'n lleueru mewn llurig.

Ysdafell y gweis difyr,—agorwyd Gan Gyrus yn bybyr; Mesurai bawb, amser bŷr, Ro'i i fil o ryfelwŷr.

Taflwyd a hyrddiwyd o'u hurddas,—hygar Enwogion y ddinas; Daeth angeu a'i gleddeu glâs, I dòri y gwŷr diras.

Belsassar anwar a fawr ddychrynwyd, Ei dŷ o'r gelynion drŵg a lanwyd, Ei hygar lân wragedd, greulon rwygwyd, A'i wiwlwys, addurnawl lŷs, a ddarniwyd; Yn ei wledd, hwn a laddwyd—yn farwol, A'i holl weis gwrol a hyll wasgarwyd.

Babilon ddihafal ei hardaloedd,
Trwy hên osau, arglwyddes teyrnasoedd;
E fu ar hon hynod, wych freninoedd;
Dinas ddisgleirwen, llawen ei lluoedd,
A dynion nwyfus o dân y nefoedd;
Gwlad hoff orenwog, gloyw ei dyffrynoedd,
Sinar hardd, yn ardd wen oedd—îs haulwen,
Bro, ail i Eden bêr olau ydoedd.

Hon ydoedd orwych, hynodwedd aeres,
Lon firain heini wiwlan frenines
Y tiroedd a'r moroedd, ddigydmhares:
Dyddiau o fawr boenau fu i'r baenes,
E dalwyd i'r hudoles;—Duw'r lluoedd
A dôrai 'r gwleddoedd o dai 'r arglwyddes.

Hen ardal anial, unig, yr awron Yw 'r orawr nodedig; Lle bu y wledd foneddig, Yn y dre 'does dyn a drig!

Ar ol Babilon fawr ei gogoniant,
Ynysoedd laweroedd a alarant:
Yn y llwybrau mynych, lle bu 'r mwyniant,
Yn awr y dreigiau anwar a drigant;
Adar lu, nythu a wnant—trwy 'i chaerau,
Yn ei phalasau yr anhoff leisiant.

ROBERT PARRY, Eglwys Fâch.



# AWDL\*

# AR WLEDD BELSASSAR,

#### GAN BELTESASSAR.

#### ARGUMENT.

#### PART I.

The Poem opens with a description of Babylon, its magnificence and various beauties.-The Euphrates flowing through the City, on the banks of which the Jews are discovered weeping, lamenting their captivity, and longing after Zion .- A prophet is introduced, who reminds them that their sins are the cause of their afflictions.— He calls them to repentance, and encourages them by reminding them of former instances of divine interference in behalf of a penitent people, as illustrated in the deliverances of their forefathers.-He declares the intentions of Jehovah to raise a deliverer for them -describes the armies of the Lord assembling in defence of his people, approaching the City, and preparing to besiege it-details the particular circumstances which should attend the taking of Babylon, the transfer of the Kingdom, and the consequent deliverance of the Jews.—He is here interrupted by a confused noise occasioned by the approach of the army of Cyrus.-The Medes surround the City, and are daily assailed by the taunts and scoffs of the Babylonians; who trust in the strength of their massive walls.

#### PART II.

The second part opens with a description of the morning, which is hailed by the Babylonians as the day on which they hold the annual Feast in honour of their gods.—Their festive mirth.—The dance and song.—The Hecatombs that are offered by the priests.—The temple crowded with votive worshippers.—The king goes in procession to the house of his god.—The heralds proclaim the royal Feast, and invite the nobles to attend.—The setting sun is represented as hastening to the horizon, unwilling to witness the scene of iniquity.—The nobles are seen on their way to the palace.—The banqueting hall and the scene of clamourous mirth, &c. are depicted.—Whilst the king is blasphemously defying the God of the Jews,

<sup>·</sup> Barnwyd mai yr Awdl hon a deilyngai y Gadair.

the handwriting appears on the wall.—His fear and consternation, &c. —He calls for the wise men, who are unable to decipher the mysterious characters.—The prophet Daniel is summoned, who interprets them.—The clash of arms and the voice of contending warriors are heard without the walls of the palace.—Lest he should witness the dreadful scene of slaughter which is about to follow, the Poet retires.

#### Y DOSPARTH I.

HANBYCH, dref hoenwych, ar finion—ffrydiau Euphrades bereiddlon; Ei mûr a'i dorau mawrion, Ei thyroedd a'i llysoedd llòn.

Neud yw, o Seithdlws daear,—y flaenaf, O luniant digymhar. A hardd y sai'r dduwies wâr, Orsŷnawl, yn mro Sinar.

Hyd yr hëolydd daw yr awelon Ag iraidd arogl o'i gerddi aeron. Ei brig-gauedig gedrwydd-gysgodion A oera iâs wyniawl twymwres hinon. A'i hydrwyadl Bedryon, O mor wych; Ei llwyni llonwych, a'i llynau llawnion.

Hên ac ieuangc, mewn gorfywiog awydd, Ar hyd ei helaeth, hyfryd hëolydd, Draw eu gwelir, yn gwau drwy eu gilydd, Yn annybenawl fyrddiynau, beunydd. Trwyddi brŵd sibrwd y sydd,—fal môr-ferw, A'i uchel lanw yn golchi 'i lènydd,

Ei chàn dôr, hwyr a borau,—drwy rygnawg Rugl eu henwawg bybyr golynau, Uwch eu twrf na rhôch tyrfau—yn dyar, Neu ruad anwar môr a'i dònau.

Ar ael y fron araul, fry,
Saif yr hoenlon syw freinlys:—
Wyneb haul, a'i wymp belydr,
A'i serena'n gan mal gwydr.
Aur telaid llawer talaeth
A bro, i'w euro a aeth.

Wrth ystlys y llŷs mae 'r llôn, Grogedig, erddi gwyrddion.
A'u haeron draw ar irwydd
Sy'n chwarae: a'u blodan blydd
Ym mîn nôs y mynwesant
Wlych y nên, a'i lochi wnant.
A phan y daw 'r gu-wawr gain
I agor dôr y dwyrain,
Agorant eu brîg araul,
A'u mynwes, i wrês yr haul.

Euphrades sydd yn ffrydio—drwy ganol Y dref wirodiaethol, drwy farw-deithio, Fel un fai 'n dymuno—rhoi adlewych I bob rhyw wrthddrych iawnwych yno.

Draw, ar bob llaw, mae lliaws
O blanhigion, irion naws.
A thal heirdd fythol-wyrddion
Dew gelli, a llwyni llòn.
Godreon ei minion myg
A hulir â mêr helyg.
Eu blagur a oblygynt
Uwch y dòn, O wyched ynt!
A glwys y maent hyd ei glàn
Yn chwyfiaw, a chyhwfan,
Gan wyraw dàn yr awel
Eu brigau irfoddau fel
Rhyw ddi rif hardd wyryfon,
Euraid wallt, yn crymu 'r dòn.

Ond ust! ar fy nghlust y daw Sŵn alaeth, a sain wylaw. Er mor bybyr mûr Babel, Nid yw mor fangaw nas del Fry drosto afar dristyd, Ail i fwth y sala 'i fyd. Draw gwelaf ryw drigolion, A llwyd wedd gerllaw y dòn, Yn eistedd, ac yn astud Dremiaw ar ei chwyldro mud. Pryder, mal pry', a edwodd Y rudd wèn, a'i hiraidd nodd A wywodd gan boeth waeau Hiraethlon yn y fron frau.

Acw hongiant, ar helyg gangau,—o'i mewn, Eu mwynion delynau. Tôn y gwynt arnynt yn gwau,—lleiuw finion Euphrades union a phrid seiniau.

Neulltuedig, unig ynt,
Odiaeth wahanol ydynt,
Egwyddawr ac agweddion,
I'r bobl oll drwy Babilon.
Yn nhŷ Bel ni ymbiliant,
Yn ei wedd plygn ni wnant.
A duwian y Caldēaid,
Yn eu gŵydd, mal dim a gaid.
Jehofa, Duw eu tadau,
A gaiff o hyd ei goffâu.

Sôn yn ddidau wnant am farnau' Iôn a'i wyrthiau, a'i law nerthol, Dros eu tadau yn mhob bylchau, A'i fawr radau, pan fu reidiol.

- 'Ond yn awr gwrthodwyd ni,' Cwynent mewn eithaf cyni.
- ' O'n gwlad enedigol lòn,
- ' Oll dodwyd ni 'n alltudion.
- 'Y traed hyn fu 'n troedio ael
- ' Mynydd Caersalem anwael,
- ' Och! ond trwm, ni chant dramwy,
- ' Chwaith ei dôl na'i maenol mwy.
- ' Yn iach Sïon dirion dêg,
- ' Ni chawn ni byth ychwaneg
- ' Droedio 'th hëolydd drudwych,
- ' Na moli yn dy deml wych.
- 'Y llygaid hyn, cyn eu cau,
- ' Ni welant Salem olau.
- 'Ond salaidd iawn dyselir
- 'Eu gwawl mewn alltudiawl dir.'

Yna deuai rhyw Brophwyd ëon,—draw, O'r dref, at yr afon, I draddawd ymadroddion, Er gwellâu briwiau eu bron. Ar orsaf lâs y safai,—ac atto Yn gyttun y cyrchai, Heb un yn goll, yr holl rai; A'r gŵr mal hyn 'r agorai:

- " O chwi, hil Abr'am! ystyriwch lwybrau
- "Jehofa, a'i ddidwyll ryfeddodau.
- " Eich ynfyd fywyd, a'ch anfad feiau,
- " A dỳrai y llid, a'r holl drallodau
- " Sydd yn disgyn, peunydd, ar eich penau
- "Yma, o gyrhaedd Caersalem gaerau.
  - " Cyndyn, anhydyn, fu eich eneidiau,
- "Gan niweidio gweis Duw a'i genadau;
- "Gwadu eu gwiredd, a gwawdio 'u geiriau,
- " A'u bwrw i ddyfnion chwerwon garcharau:
- "A byw chwed'yn mewn erchyll bechodau,
- "A rhoi addoliad i bob rhyw ddelwau.
- "Rhoddasoch i Moloch, a'i fflam aelau,
- "Eich meibion tirion, yn faith bentyrau:-
- " Ac er trymion fygythion, ac aethau,
- " A mawr-res hynod o ymrysonau,
- " A Duw'n ei fawredd yn codi'n forau,
- " A rhoi llîn ar lîn o'i dduwiol enau;
- " Arfeddyd pob rhyw foddau-i droi 'n ol
- " Dorau gelynol eich dûr galonau;
  - " Oll, er hyn, dryllio 'r iau,
  - "Och! waeth-waeth a wnaech chwithau:
  - "Yna Duw a'ch gadawodd
  - "I'ch rhwysg, i fynu fe 'ch rhodd,
  - " I dd'od yn wael ddiadell,
  - " Mor isel, i Babel bell.
- " Etto rhagorol Dduw trugarawg
- "Yw llywydd Israel, a galluawg.
- "Ni fydd hwyr i faddeu i'r euawg,
- " A adawo'i feiau andwyawg.
- "Y mae yn ei natur dosturiawg
- " Radau foroedd i'r edifeiriawg.
- " Ac er iddo mewn dig gorhaeddawg
- "Ein rhoi yn nwylaw estron halawg,
- " A'n gyru, mal defaid gwasgarawg,
- " O araul fryniau Israel freiniawg;

- " Er hyn ni phery yr hawg—i'n cospi,
- " A'n trallodi a'i ddigter llidiawg.
- " Gan hyn, hil Iago, na wàn lewygwch
- " O dàn farnau Iôn cyfion, ond cofiwch
- "Ymwneud â'i fawredd mewn edifeirwch,
- " A llwyr wylo mewn diball arolwch;
- " Fe glyw ef eich llef o'r llwch ;-a buan
- " Iwch daw a diddan lawch'a dedwyddwch.
  - "Ystyriwch ei dosturi,
  - " A nawdd gynt, i'n tadau ni.
  - " Ei wyrthiau a'i law nerthol
  - " I'w darwain hwy, droiau 'n ol,
  - " O dir Ham, er dorau heyrn,
  - " A grymusder gormesdeyrn.
  - " E roddodd Flaenor iddynt,
  - " A ddug ar adenydd gwynt,
  - " Eu lluoedd oll yn llawen
  - "O'r Aipht, er ffromder ei rhên.
  - " Arweiniodd, tu ar anial,
  - "Y dorf, a bu gerwin dâl
  - " I'r Aiphtiaid, rhwng canaid-droch,
  - " A muriau caeth y Môr Coch.
    - " Fe yr Iôn hyf Arweinydd
  - " I ninnau 'n ddiau ryw ddydd.
  - "Yn ei fryd e fwriadawdd
  - " O bell godi i ni nawdd.
  - " Mae sain o'r dwyrain yn d'od,
  - "Twrw ei lu, mal taer lewod,
  - "Yn gannoedd yn ymgynnull,
  - " Yn dorf ofnadwy ei dull.
  - " Ac â byw lid i gwblâu
  - " Ei fawr odiaeth fwriadau;
  - " Ac oll yn barod i'r gâd,
  - " Arosant ei air-wysiad,
  - " A gant o'i enau, heb gêl,
  - " 'Ewch bawb, dinystriwch Babel;
  - " 'Heddyw yr wyf yn rhoddi
  - " 'Y lle chweg yn eich llaw chwi.
  - " 'Ond dygweh holl hâd Iago
  - " 'Yn ol i'w hên freiniol fro.'

- " A'i fûr o'i ogylch, mal 'r ymfawryga
- " Acw, Lyw diwall hên enwog Galdea;
- " Cadarn yw weithion, mewn cedr y nytha,
- " Echrys ei wyddfod ar uchorseddfa.
- "Y rhên, ar yngan yr hwn yr hongia
- " Edef einioes y rhifed a fŷna;
- " Da ysblenydd y gwledydd a gluda,
- " Ar eu haml ethol ffrwythau'r ymlytha;
- "Yn ei warsythrwydd dïystyr sathra,
- " A'r wreng a dreng, a throstynt y dringa
- " I anrhydedd, a rhodia-yn goegfalch,
- " Ffroen-uchelfalch ar ei ffraenwych wylfa.
  - " Etto creadur yttwyd,
  - "Uwch yw Duw, er uched wyd.
  - " Er iddo ef ein rhoddi
  - "Yn dlawd wystl yn dy law di,
  - "Yn eu lid, a'n hymlid ni
  - "O'n gwlad, mewn tyn galedi;
  - "Y pair, ar ol ein puraw
  - "O'n sorod oll, ys oer daw;-
  - "Yna oll deuwn allan
  - "Yn ein pwys, mal glwys aur glân.
  - " Ond llwyr ysir, llosgir llu
  - "Y gâlon, wnai 'n bygylu.
  - " Un wedd a ddïenyddwŷr
  - "Y tri llanc, er gwanc y gwŷr.
    - " Ni phery felly dy fâr
  - "Yn oesoedd Belsassar;
  - " E ddaw Duw a'i ddydd dïal,
  - " A'i ddwrn dwys rhydd erwin dâl.
  - "O! ofered dy furiau,
  - " A lluoedd y tyroedd tau,
  - " Dy aerwŷr dewrfryd eres,
  - " Dy aur prid, a'th gàn dôr prês,
  - " Ban y dêl i'th erbyn di
  - " Ein Iôr a'i lu aneiri'.
  - "Cyn hir fe'u gwelir yn gwau
  - "Yn gâd fawr rhag dy furiau;
  - " A'u attal mor hawdd itti
  - " Daraw y llawr—gwneud i'r lli
  - "Yn Euphrades bêr-ffrydiol
  - " Ddolenu i'w darddle 'n ol.

- "O! feibion Sion, y sydd
- " Mewn poenau trymion peunydd,
- " Ac anhafal ddygn ofid,
- " Wrth adgofio eu bro brid,
- " Sefwch, ac edrychwch ar dêr iechyd-
- "wriaeth yr Arglwydd, i'n rhwydd arweddyd,
- "O lafurio 'n Mabel i fro 'n mebyd,
- " Mewn aidd sanctaidd a hoenus ieuengctyd.
- "Dirwynu mae 'r dêr ennyd,-mae 'n agos,
- " I Dduw ddangos rhyw ffordd i ddiengyd.
- " Megis gynt y môr pan agorai,
- " A'r Iorddonen wen pan wahanai,
- " E drydd Euphrades yn drai,-a daw'n sych;
- " Ni chwery glwysglych ar ei glâsglai.
  - " Mwy ni ffrydia drwy ei bala
  - " Na'i harllwysfa ei dŵr lles-fawr,
  - "Ond gor-ruthrau aerawg lengau,
  - " A'u glain arfau gloewon erfawr.
- "Gwae i Fab'lon, drom yn nesu
- " Mae y noson
- " I'w rhoi 'n isel lawenychu.
- " A hi 'n uchel
- " Daw yr ornest a hi 'n bloddest
- " Ac yn gloddest, gan goleddu
- " Pob erchylldod, a rhoi mawrglod
- " I'w heilunod, a'u moliannu.
- " Pan fo'i mawrion yn westeion,
- "A'u berw 'n hoenlon, drwy 'r breninlys,
- "Yn clodfori Bel a'i foli,
- " A dyioli ei nawdd dilys.
  - " Dorau Euphrades derwych
  - " Lleibia'r Sanct, gan wneud llwybr sych;
  - " A thrwyddynt rhuthra eiddig
  - " Arfogion dewrion a dig :-
- "Ar ei gwaelod y rhodiant,-a'i gwely
  - "Gwiwlon a orlanwant,
  - " A'u hyfion eirf chwyfio wnant,
  - " A'u glànau a ddysgleiniant.
- " Hyrddiant, dewr-dyrant drwy y dorau,
- " Fry i y ddinas yn fyrddiynau,

- " A chyferfydd cyd-chwyf eu harfau
- "O flaen y llŷs, yn flin eu lleisiau.
  - " Can's i'r fan bo'r buria 'n bod,
  - "Yr â'r aruthr eryrod.
- " Y Gwylwŷr a fygylant,—lluosog
  - " I'r Llŷs y gorruthrant,
  - " A'r Brenin yn ei wîn a wanant,
  - " A'i arlüyddwŷr dewr a laddant,
  - " A'i ruddain goron a roddant-ar ben
  - "Ei Llyw addien, mewn bri a llwyddiant.
  - " Fel hyn, mewn munudyn, â
  - " Diaillt deyrnedd Caldea,
  - "Yn ddirwystr, i ddewr estron,
  - "Yr hwn yw offeryn Iôn
  - " I gwblâu ei eirau ef,
  - " A'n hedryd ninnau adref.
- "Ein Iôr gwiwlwys a gyffry ei galon
- " I'n hadfer ni, a'n rhoddi yn rhyddion;
- " Egyr ddorau ein carcharau chwerwon,
- "Rhwyddhâ wâs hoywwych, ein ffordd i Sïon.
- "Y ddinas a theml ddawnus Iôn,-dïau,
- "Cyweiria fylchau ei muriau mawrion.
  - " Dedryd i'r deml ei dodrefn,
  - " A hon a dry i'w hên drefn ;-
  - " A'ch llygaid chwi, yn ddïau,
  - " A welant hyn cyn eu cau.
- "O hil Abr'am! cawn ettwa lwybro
- "Ar hyd ein hyfryd fabol hoywfro;
- " Cawn drem ar Salem cyn noswylio,
- "A moli Iôn yn ei deml yno."

Bloedd uchel drwy Fabel fawr,
Twrf terfysg trafod dirfawr:
"Gwelir gâlon mewn golwg
Drwy 'r glyn draw—argoelion drwg.
Y Mediaid, yn haid ddi hedd,
A Chyrus wych i'w harwedd,
I'r ddinas sy'n rhwydd nesâu,
Ceuwch—diriwch y dorau."
Dyna 'u hoer-drwst yn hwyr-droi,
A rhwnc-lusg eu barau 'n cloi.

Wele 'r gethin fyddin fawr
Yn nesu, 'n llu aneisawr,
A'u llummanau 'n gwau i'r gwynt,
Ac ornaidd olwg arnynt.
Milein feirch a chammelod,
Yn dyrau ar dyrau 'n dod;
A phâr anadl eu ffroenau
Ryw lwyd niwl, ar led yn hau.
Is carna 'u rhwysg cryna 'r âr,
Dros enwog frodir Sinar.
Deuant, gwersyllant ger serth
Furiau Babilon fawr-werth.

A'r Babiloniaid a gaid i'w gwawdio Oddiar eu muriau, gan ddewr ymheuro; Deisyf eu gwaethaf, a dwys fygythio; A throi gwed'yn saethau i'w hergydio; Yn fawr eu bost gan ymffrostio,—beunydd, O'u henwog gaerydd; a'u didranc herio.

Ond ni wna gwawd dynion gwael I'r Mediad dewr ymadael;— O dŷn warchadle nid â Y ddinas nes meddianna.

#### YR AIL DDOSPARTH.

Y wawr weddus, a'i bysedd rhuddain, Sydd draw yn agor dôr y dwyrain. Drwy y coed mae'r adar cain,—â'u didlawd, Dyner arawd yn eu harwyrain.

(O'i blâs iesin na chai Belsassar Wel'd ei rhuddgain oleuder hawddgar Y tro olaf, cyn myn'd trwy alar, O'i aur orsedd i fedd yn fyddar.)

Nid cynt y ceir hynt yr haul Draw yn nhŷ 'r dwyrain araul, Nad yw 'r bobloedd, drwy Bab'lon, A dawnsiau, a llefau llòn, I'w arwyrain ar wawriad Gwyl Bel, yn uchel eu nâd.

Mwynber seiniau offerynau, A'u pêr-leisiau pur luosog, Sy'n gorlenwi'r ddinas drwyddi A gorhysi sarllach gwresog.

A Bel sy'n agor ei byrth I reibio am yr ebyrth.

Drwy 'i gynteddau ceir eidionau A'u brefiadau, heb rifedi, Ei allorau âg offrymau Ac aberthau braisg i borthi.

Pob cell a chafell o'i chwr, Olynol, a dŷn lenwir O grefyddol addolwŷr, Yn fangaw dorf erfyngar. Wele draw gammelod, ri, Dan feichiawg, lethawg lwythi, O ddrudion roddion at raid Bel ffur a'i abl offeiriaid.

O'i lŷs mewn urddas y daw Belsassar, Mewn diwyg edmyg, a'i hoyw gydmhar, A llu o wychion osgyrdd llachar Yn ei ddilyd, gan ddiwyd ddyar; A'r llòn drigolion i'w gàr—sy'n gwarâu Eu penau 'n ddïau tu a'r ddaear.

A rhed o'i flaen Herodion—yn gwaeddi A gwedd odidoglon;— Traidd eu llef hyd hardd a llôn, Boblawg, hëolydd Bab'lon.

- ' Chwi enwog Dywysogion,
- ' Heirddion sêr y ddinas hon,
- 'Iwch oll y mae annerch wâr
- 'O blås iesin Belsassar.
- ' Rhyngodd bodd iddo roddi
- ' Ei chwyl wahoddiad i chwi
- ' Heno i dd'od yn unwedd,
- 'Wrth ei wŷs, i'w lŷs a'i wledd.'

Fel hyn i derfyn y dydd, Yn llawn o bob llawenydd, Y ceir Babel uchel, lòn, Drwy 'i hylon dêr hëolydd.

Y mae yr haul, draw mor wylaidd,—fel un Yn flîn o'r drych fliaidd, A brys yn ei olwg braidd I guddio 'i wyneb gweddaidd.

Yn awr mae lleni hwyrol—yn estyn Eu hedyn achludol Dros y ddinas urddasol, A bryn, a dyffryn, a dôl.

Wele eirian wawl arall Yn cyfodi, gwedi gwyll, Nes troi llywel Babel bell Yn ail ddydd, o loywaidd ddull. Ffaglau a llusernau sydd, Drwy y ddinas urddaswedd, A'u têr dân y gwatwar dydd, Nes hwnt yru nôs o'i sedd.

Yn mhob annedd mae gwledda,—amhuredd, A mawrwyn, a thraha, Nes llanw Babel uchcl â Garm elwch, a grymiala.

Troi i'r llŷs mewn brys o'r bron Yn awr y mae 'r Blaenorion, I fawr hoen y WLEDD FREINIOL, Yn eu rhif, heb un ar ol. I'r neuadd y crynhöant Yn llòn iawn, a'i llenwi wnant. Eu mawr ri, er mor ëang, I'w dwyn y sydd o dan sang. Rhed byrddau 'n rhengau drwy 'r wych Fan neuadd, mewn trefn hoywych. A than gu ddanteithion gant, A gwiw seigiau, gosigant. Moethau, a phob ammeuthyn, A fedd dae'r at foddio dyn. Ar glau aur-gawgiau i gyd, A siglant, mewn modd soeglyd. Llugyrn aur o'i lliwgar nen Acw hongiant,-a thair cangen A ddeillia o'i hardd a llòn Golofnau naddawg-lyfnion; Mal sêr, a'u lleuer, yn llu, O'r entyrch yn amrantu.

Ac ar y mûr ceir mawrwych
Ddelwau maith, o gerfwaith gwych,
O'r gwŷr a fu ragorol
Yn y bau, flynyddau 'n ol.
Nimrod, yr hwn osodawdd
Dda sail eu dinas ddi sawdd;
A Belus, a phawb eilwaith,
O'u myg odidogion maith.
A cherf-lun Bel a welir
Yn mherfedd ydd annedd hir,
O aur bath, yn rhoi ei bwys
Ar golofn farmor gulwys.

A moes addas ymseddu Mae 'r gwesteion llon, yn llu, Nes llenwi 'r neuadd addien Heb un bwlch, o ben i ben. Brithir y rhengau hirion A llu o rianod llòn, Y chweg belydru tegwch Prid o'u fflur wynebpryd fflwch, Mal sŵyn a melus wenwyn Yn dallu a denu dyn. Uwchlaw y saif uchel sedd Y Brenin, fab eirianwedd, Gan fain glain yn dysgleiniaw Yn loyw ei drem a'i liw draw. Gerllaw, mewn gwawr a llewych, Y ceir ei wâr gydmhar gwych; A'i gwisg mor lachar a gaid, Yn llegu gwawl y llygaid. Hwynt yw canol-bwynt yn awr Yr holl dorf a'r llu dirfawr :--Y rhai sydd, mal disglaer sêr, Yn llawen yn eu lleuer.

Ffrystio weithion y mae 'r caethion, A'u twrw 'n ëon, a'u tro 'n hoywaidd;— Oll yn gwisgi droedio i weini I'w harglwyddi, yn rhyglyddaidd.

Wele yn awr lawen wî Wynfydawg yn cyfodi. Dadwrdd, dwndwr, a thwrw, A garw forach a gor-ferw, Gan wîn yn llosg-ennynu, Arfoloch yw rhôch eu rhu.

Mae pob tafod yn rhoi mawrglod I'w heilunod, a hael hòni Holl oruchel fawredd Babel, A'i dïogel fûr diwegi.

Yn eu mysg y clywir mawl Alawau 'r Bardd teuluawl, Y sydd ar ei sedd, eirieos, Uwch y mil, mewn gwycha moes; A'i lais yn dilyn ei law, Mewn hwyl yn tra mwyn eiliaw.

Gan draethu trâs Belsassar,-ei achau,

A'i wychedd digymhar;— A'i gyfodi gwedi 'n gâr I dduwiau 'r nef a'r ddaear.

Ar unwaith wele 'r annedd Heb air, ac mor fûd a'r bedd. Dacw Belsassar yn barod, A'i araith ddyfaith ar ddod.

- 'O! chwi odidog dywysogion,
- ' Llòn eu golwg, a llawen galon,
- 'Dra y gweloch oleuder gwiwlon
- 'Yn teru 'n wyneb eich teyrn union;
- ' Ond un ddi ŵg—dyna ddigon,—yna
- 'Edwa, ys oera, 'ch holl gysuron.
  - 'Yr wyf yn ddewin ar bob cyfrinion,
- ' Iē adwaenaf feddyliau dynion,
- O draw gwelaf ddyfnder y galon
- O hyd i'r gwaelod, a phob dirgelion.
- ' Breuddwyd, a phob arwyddion,-sydd i mi
- 'Yn ail i oleuni gloyw haul hinon.
- 'Ar Fabel ddihefelydd,—a'i gwênawl
  - 'Ogoniant, wyf Lywydd.
    'Diddadl i mi'n gystadlydd
  - ' Mewn gallu, ni fu ni fydd.
- ' Pwy yn gydmhar i Belsassar
- 'Drwy fro daear, o fri dïen?

- ' Ydwyf benaf, ac urddasaf,
- 'Lyw uchelaf dan gylch haulwen.
- ' Mae 'n fri i ddaear fy nghariaw,-a'r haul
  - ' Roi'i wên i'm goleuaw; 'Y lloer a'r sêr ar bob llaw"

  - 'I'm mwyniant sy'n ymunaw.
- ' A pha dduw drwy 'r hoff ddaear-i FEL
  - ' A'i foliant yn gymhar,
  - ' A daena ei aden wâr
  - ' I lochi 'n dinas lachar.
  - ' Iselwyd Duw Caersalem,
  - ' Er rhôch ei lid a'i fraich lèm,
  - 'A'i astrus wyrthiau rhestrol,
  - ' A'i ddoniau ef ddyddiau 'n ol.

  - ' Ac er ei holl ffrostgar waith,
  - ' Neu driniad ei daraniaith,
  - ' A chaeth fygythion, a chur,
  - 'I'w haedd-alon, a'i ddolur,
- ' A sôn am Sion a'i sant-aidd enw,
  - ' A'i ddinwyth ogoniant,
  - ' Ei fawl, a thŷ ei foliant,
  - ' A'i dirion ragorion gant.
  - O flaen BEL e ddiflanai
  - ' Ei holl nerth, a phallu wnai.
  - ' Ei deml wych, a'i dŷ mawl ef,
  - ' Heddyw sydd yn anhaddef.
  - ' A'i haur lestri yr awrhon
  - ' A geir yn brid ger ein bron,
  - 'Yn dêg dlysau dïogel
  - 'Yn hulio bwrdd Cylchwyl BEL.
- Deuwch, a llenwch hwy 'n llawnion,-uchel
  - 'Rhown iechyd BEL weithion,
  - ' Am 'r orfodaeth helaeth hon
  - ' Ar Dduw gan yr Iuddewon.
  - ' Wele fi 'n rhoddi 'r awrhon
  - 'Her i Dduw yr \* \* \* \*
  - \* \* \* Och \* \* \* edrychwch draw Arwyddion i'm cythruddaw.
    - Wele fi 'n roddi 'r awrhon Her i Dduw yr Iuddewon: Och! gwelwch, edrychwch draw!

Gan eu llwg, yn llewygol,

'Fy enaid a naid yn ol!'

'Y Brenin!!' eb ar unwaith, Yr holl lu, mewn teryll iaith.

'Yna chwi, cynneliwch ef.' Ond garw uchled y grochlef,

' Draw! hwnt, draw, ar y pared!

'Rhyw law yn chwyfiaw ar led!'

Ar y wàl draw, e welir Ger gwên y canwyllbren hîr, Ryw ddigorph ddelw anelwig, Deneu, gûl, heb gnawd neu gîg. O mor drwm, ar y mûr draw, A llesgaidd y mae 'n llusgaw; Ac â bŷs, fel fflamawg bìn, Llŷsg eiriau, â llws gerwin. O! a'r newid wnai 'r neuadd, Sigla, dygryna pob gradd. Traidd trwy eigion y fron frau Waedd ddwys yr arglwyddesau. Dacw gerf-lun Bel uchelwawr O'i le yn cwympo i lawr. Llewyga gwawl y llugyrn, Deryw eu chwai belydr chwyrn Oll, ond rhyw wyrdd-der teryll; Llewyrn yw, 'n lleueru 'n hyll, I ddangos gweddau ingawl Ac erchyll, rhwng gwyll a gwawl. Aeth fferdod drwy 'u haelodau, Fel caethion mewn cyffion cau.

Dyheu mae mynwes euog—Belsassar, Fel arth udgar, anwar, newynog. Mae braw y Llaw alluog—yn berwi Trwy ei wythi ei waed toreithiog.

Dafnau o annwn sydd yn defnynu Acw i'w enaid euog, ac yn cynnu; Mewn llewyg drathost mae 'n llygadrythu Ar yr ysgrifen sydd yn serenu Rhag ei wyneb, ac yn daroganu Rhês o wythawl ddamweiniau er saethu Tân i enaid y brwnt, a'i ennynu. Gan boen a gloes mae 'r gwyneb yn glasu, Dan ymwylltiaw, a'r llygaid yn melltu. Cyhyr y bochau sydd yn crybychu, A'r dannedd ifori yn rhydynu. Diffin y mae ei freichiau 'n ymdaflu, Mal dyn ar foddi, yn 'screch ymdrechu. Mae llinynau llym y llwynau 'n llàmu Gan ddychryn, a glîn mewn glîn yn glynu. Braw 'r canlyniad sy'n irad fraenaru, Fel fflamawg eirf miniawg yn ymwanu, Ei ddiriaid enaid, gan ei ddirdynu. Ys garw uched y mae yn ysgrechu; Deuwch weithion, dywysogion sywgu, Symudwch y rhîn sy i'm dychrynu; A ddaw o fil ddim un i ddyfalu Ystyr yr ysgrifen, a'i dilenu? Ond d'wed golygon trymion yn tremu, Uwch un ymadrodd, nad ych yn medru. Yna mae 'n gwaeddi, a'i lais yn crynu, Yn grôch ac erchyll, Gyrwch i gyrchu Y doethion a'r dewinion i dynu Yr hug a wahardd i'r drygau oerddu, Odid a lunia, gael eu dadlenu. Ac i y rhai y ceir rhu-anynawd Fy nhlawd gydwybod i yn adebu.

Acw yn hedeg y gwelir cenadwŷr Drwy bob congl i ymofyn dëonglwŷr. Ar wîb rhedant, y doethion a'r brudwŷr, I'r Llŷs rhïeddawg, a'r holl seryddwŷr. Saif draw, ger y LLAW, yr holl wŷr—yn fud, Oll yn astud i ddarllen ei hystyr:

Trèmiant a syllant yn sŷn;—ac yna
Dadganant mewn dychryn,
'BYS DUW, mae 'n hysbys, yw hyn:—
'Rhyw hael-ddysg uwch marwol-ddyn.'

A'u geiriau, mal eirf gerwin,—trywanant Trwy enaid y brenin. Ac uthrol ei ysgethrin Lafar bloesg, a'i lafur blîn. Yn hyn y daw 'r b frenhines—i'r golwg, Yn gain ei mwnwg, a gwèn ei mynwes, Mor urdden, a gwên gynes—ar ei mîn, I roi i'r Brenin ryw eurber hanes.

'O eirian Lyw, bydd fyw fyth,

' Drwy gofus oes dragyfyth;

' Na ddalier dy feddyliau

'Yn gaethion, drwy goelion gau;

' Ffoed dy wae,—y mae gwr mâd

'Yn y deyrnas a'u dirnad.

' Yr hwn sy'n deall rhiniau,-a'u dyben,

' Yn debyg i'r duwiau:

' Drwy nodi dirwyniadau

'Yr hyn y sydd ar nesâu.

Oedd ef ddëonglydd hyfad

'Breuddwydion dyfnion dy Dâd.
'Fel mellten, drwy 'r nen, i'w nol,

' Gyrer rhedegwŷr gwrol;

' Er dim prysured yma

' Y gŵr doeth—er drŵg—er da.'

Tawelu, llonyddu 'n awr,
I raddau, mae cythruddwawr
Belsassar, a lliniaru
Mae ei wedd lèm, a'i drèm dru.
Yn ei olwg ef eilwaith
Sedda anesmwythdra maith.
Gwibio rhwng ofn a gobaith,
Y ceir ei fyddyliau caith.
Mae'n ëofn—etto 'n ofni
Y Llaw dân, a'i hamcan hi.
Mae 'n awchus—etto 'n rhusaw;—
Mae 'n ddyrys, rhwng brys a braw.
Am y ddôr yn agoryd
Edrych, mewn hirnych, o hyd.

Ac o'r diwedd dacw 'r dewin—yn dyfod I'r ystafell iesin.

Eir ag ef, rhwng byrddau 'r gwîn, Yn llôn ger bron y brenin.

Yna Belsassar, yn wâr ei eiriau, Drwy ofn a hyder, rhy' ofyniadau,

b Nitocris, Belshazzar's mother.

- ' A wyt ti Ddaniel hynod dy ddoniau,
- ' O glud Caersalem, glodgar ei seiliau?
- ' I ti y cyfranwyd tecaf riniau
- ' Hwnt a ddaw oddiwrth y santaidd Dduwiau,
- ' I ddwyn dyfnion ddirgelion i'r golau,
- ' Deall arwyddion o dywyll raddau.
- ' Acw, yn ellain, mae rhwng y canwyllau,
- 'Ryw law uthr, hynod, a fflur lyth'renau,
- ' Na cheir drwy Fabel, na'i chaerau—hyfryd,
- 'Wr i agoryd ystyr y geiriau.
  - ' Os gelli di eu deall,
  - ' A'u heglurấu yn glaer oll,
  - ' Cei fawl, o urddasawl ddull,
  - ' A pharch yn agos a phell.
  - 'Cei wisgo 'r porphor perffaith,
  - ' A diwyg o geindeg waith.
  - ' Am dy wddf, yn em i'w dwyn,
  - 'Y rhoir gwiwder aur-gadwyn.
  - 'Yn nghlau ragorfreintiau 'r fro
  - 'Yn drydydd ti gei droedio.'

Yna Daniel yn dyner—a ettyb, Etto 'n llawn gwrolder,

- " Aur rhudd i eraill rhodder,
- " I ti boed d' anrhegion têr.
- " Etto 'r ysgrifen a ddarllenaf
- " I'r Brenin, a'i rhîn a olrheiniaf.
- "Yn awr, O Lyw! clyw lais claf—y fflamlaw
- "Yn dygnawl eiliaw dy gnul olaf.
- " Awdwr y nefoedd, daear, a neifion,
- "Ynad yr anwir, a thad yr union;
- "Y DUW MAWR, ac i eilunod meirwon
- " Ni rydd ei hygaraf urdd a'i goron:
- "Gan ddïal ar ei alon ;—a rhoi hedd,
- " Drwy hynawsedd, i ei druain weision.
  - "Y Duw a roes i dy Dâd
  - " Oruch mawr, a chymmeriad;
  - "Gallu odiaeth, rhwysg llydan,
  - " A chlôd dros y byd achlân.
  - "Y Duw 'r hwn y meiddiaist di
  - "Y nôs hon ei lysenwi,

- " A halogi LLESTRI llåd
- " Ei ddilys dŷ addoliad;
- "Ow! ac yfed, â halawg wetus,-wîn
  - "O honynt yn wawdus;
  - " A'i herio ef yn ddi rus,
  - " Drwy i annog yn druenus.
- " Rhoddi hoywfri i dduwiau hyfreg,
- "O arian, ac aur, pren, neu gareg;
- " A gwawdio gallu gwiwdeg-Duw Sion,
- " A'i enw tirion, â phob gwatwareg.

#### 'MENE.

- " 'Yr IEHOFAH hwnw a rifodd
- " 'Dy gu deyrnas di, ac a'i darniodd.

#### 'TECEL.'

- " 'Yn y clorianau dwys fe'th bwysodd
- "' Yn noeth-gyfion, a phrin y'th gafodd.

#### ' PERES.'

- " 'A'th freniniaeth fraen a wahanodd,
- " 'I'w weis y Mediaid fe'i symudodd.'"
  - ' Dowch a'r llòn anrhegion rhâd,
  - 'I wobrwyo 'r Hebread.
  - 'Amser a eglura 'n glau
  - ' Ai gwir ydyw y geiriau.'

Twrf alaeth, hynt rhyfelwŷr—a ddeillia Oddiallan i'r fagwŷr.

Trwst arfau, a gwaeddau gwŷr, A dewr wawch yr ymdrechwŷr.

Dynesu mae 'r llu i'r llŷs,—hwy luniant Ryw gelanedd ddyrys:— Ciliaf draw, mewn braw a brŷs, Rhag achreth y rhwyg echrys.

Y PARCH. EVAN EVANS,

Darlythydd Cymraeg
Yn Eglwys St. Martin, Caerllëon,
A Churad Christleton.

A control of the PTER STATE of the State of

O artas, no are proposed area.

A granulity gallar granulity all proposed area.

A granulity all a granulity area.

Abundania di Armania de 10 cm. a. con de 10 cm. de 10 cm

HEYMYONN

AND AND ASSESSMENT OF THE PARTY OF THE PARTY

STADERTING OF STARTE SAN BOARDING BARTON

described to the supplier of t

additibly a service of exercise the property of the property o

the court was well of oil of short qualities of street, the charge well (\$150 december 2000) and the charge and

新型 网络西克·阿尔曼 中面区面 Y

# CYWYDD

AR

YMDRECH BUDDUG YN ERBYN Y RHUFEINIAID,

GAN

Y PARCH. E. HUWS, BODFARY.

0.0 7357

marata researches

AGEARGIFFIER STREET, NY DOROTH HOUSEN

The second service of the second

The Company of the American

## CYWYDD\*

AR

### YMDRECH BUDDUG YN ERBYN Y RHUFEINIAID,

#### GAN MERDDIN EMRYS.

#### Y CYNNWYSIAD.

Effeithiau Rhyddid trwy 'r byd, ac yn fwy enwedig yn Mrydain.

—Rhwysg a theyrnormesiad y Rhufeiniaid.—Araeth Boadicea i'w deiliaid.—Yr ysbryd o ryddid a ennynodd ynddynt.— Dinystr Llundain, a golygiad o Dafwys, a'i gorfoledd ar yr achosion.—Hu Gadarn, a duwiau eraill, yn arwyddocân eu boddlonrwydd o ymdrech y Brython.—Y Derwyddon yn rhoddi yr un arwyddion o'r aberthau.—Tri chan mil yn ymgynnull at Boadicea, a'i merched.—Darluniad o honynt.—Darluniad o'r noswaith o flaen y frwydr.—Gwroliaeth Boadicea, ei merched, a'i milwŷr yn eu hymdrech.—Darluniad o'r noswaith ganlynol.—Ymsyniadau Boadicea yn ei llŷs.—Ei hynafiaid yn ymddangos iddi, ac yn ei chefnogi i farw yn hytrach na bod yn gaeth.—Ymdrech natur rhwng bywyd a marwolaeth.—Ysbryd ei gŵr yn ymddangos iddi, ac yn hysbysu yr hyn a ddygwyddai i genedl y Brython.—Boadicea yn cymmeryd y gwenwyn, ac yn marw.

O! Ryddid! pa arwyddion
A welir, ar dîr a'r dôn,
O'th anian, a thywyniad
Dy wrês ar y fynwes fâd?
Nid trwy fron gwron y gâd
Yn unig mae d' ennyniad,
Ond treiddi ddwy lili lôn
Y Fenyw, ïe y Fanon;
A'r lliwgar rudd a'r llygad
Yn dân gwyllt wnai di 'n y gâd.
Rhagot ti, na rhwygiad tôn,
Na chaerau, muriau mawrion
Y Rhufain hên, na rhyfedd
Dŵr daear Seinar, a sedd

Bernid mai y Cywydd hwn a deilyngai y Tlws.

Y Brenin mawr! mawr!—(neb mwy)
Ynt rai i gyd, ond rhwygadwy!
Fal yr elfen felltenawg,
Drwy 'r nef draw 'n rhuaw yr hawg:
Tra rhwng creigiau, holltau hên,
Tŷr ddorau trwy 'r ddaearen;
Ar led, trwy fronau 'r cedyrn
Ymdaeni, chwali 'n dra chwyrn.

Yn Mrydain gynt, mawr ydoedd D' effeithiau 'mhob cyrau c'oedd; Nes codi 'n Ynys Cedyrn, Rhag pob plaid, warcheidwaid chwyrn. Caswallon,—iawn wron oedd; Arthur,—ei mûr rhwng moroedd! Caradog!—cywir wedi Caed ei fron:—Frython o fri! Ond etto, 'n ol rhifo 'r rhai'n Am Rydid, a llu 'Mrydain, Mwy 'n y côf, mi wn, y ca' Y syw Foadicea.

Os trwy 'r byd, gwaedlyd fu gwaith Rhufeiniaid, a'u rhif unwaith; Mwy wedi yma ydoedd Eu gwŷn, a ganlyn yn g'oedd! Nid digon oedd rhoi 'n Bonedd, Bri, a gwlad, dàn eu bỳr gledd: Anrheithio, a llywio 'n llym, (Warth egraidd) mal wrth awgrym; Gwŷr Rhufain, garw eu rhyfyg, Yn malchedd eu mawredd myg, A dybient lle dygent dîd, Ddadwreiddio 'n ddi-oed Ryddid: Fal y b'ai fawl a bywyd, Ar gledd bwynt arglwyddi byd. Arglwyddi 'r byd rhyglyddawl, I'r byd rho'ent hefyd eu hawl: Tybio wnaent (ond tŷb wan oedd) Yn isel o'n Hynysoedd; A'n cedyrn, hên eu ciwdawd, Iddynt hwy mal oeddynt wawd; A'r Fenyw, pob rhyw fwyniant Och oedd, fal tybient, i'w chwant!

Ond Ah! y mawr enaid oedd O'r golwg, yn nirgeloedd Prydain hên: ei helfen hi, Yn ei bol, yw tân-Beli. Y Rhyddid mor brid i'w bro Fawr oedd, ac heb farweiddio, Yn fynwes y wên Fanon T'wynai 'n frwd, taniai 'n y fron: Gwae ffrewyll a'i cyffröawdd; Ennyn hwn oedd yno 'n hawdd! Clywaf ei llais :- "Rhag trais trwch " Mawr elyn, ymwrolwch:

- "Ymwrolwch; mawr alwad, " A hir, i'n gylwir o'n gwlad!
- " Sy'n wylaw dàn sèn alon,
- " Curwŷr dwys rhwng caerau 'r dòn.
- " A oes bri, i chwi, o'u chwant,
- " Neu i Fonedd, na fynant?
- " Oes trysor rhwng ein moroedd?
- " Hwn i gyd yw eu rhan g'oedd!
- " Oes hardd bryd gyd a thêg wedd,
- " I'r fenyw o hir fonedd?
- " Ow! trechir hwn i'w trachwant;
- " Diderfyn och wyn eu chwant!
- " I minnau, er fy monedd,
- " Caniatâu mwynâu mewn hêdd
- "Rhan ni wnaent, o'r hyn iawn oedd
- " I'm i gyd :-- a myg ydoedd.
- " Ac o ddirmyg i fyg-waed,
- " Ffrewyllau, gwelïau, a gwaed,
- "Treisio fy merched wedi,
- "Yw 'r hyn oll sydd i'n rhan ni!
- "Ymwrolwch:-mawr alwad,
- " Hir, hir i'n glywir o'n gwlad :-
- " Angau i'r gwych, ing ar gaeth,
- " Gwelwch! neu fuddugoliaeth!

Ar y gair yr âi gorwynt Drwy 'r wlad, o'i hên gariad gynt; A thân anian ennynawdd I ryfel yn uchel nawdd. Lle 'r alon oll, ar olwg, Yn y màn, oedd dân a mŵg;

A ergydiwyd o'r goedwig, A mîn y dòn, mànau dîg. Hên Dafwys, oedd ddwys ei ddydd, A lanwyd o lawenydd. Ac fal cawr dirfawr o'i don, D'ai i fynu 'mblaid y Fanon; Ac o'i werdd-wisg, a'i wyrdd-wallt, Y llifai, rhedai ddwfr hallt! Crochlefodd, bloeddiodd o blaid, (Eon ddolef!) hên ddeiliaid: A chwarddodd, pan welodd waith Troi 'n ddolydd-ddolydd eilwaith, Y dref lawn, dra aflonydd, Gaerawg, flodenawg ei dydd; Lle trigai, pwysai, heb baid, Rhif anwir o'r Rhufeiniaid. Ei fwyniant ef oedd fyned A holl dwrw ei lanw ar lêd, Yn chwyrn drwy gedyrn goedydd, Lle neidiai a rhedai 'r hydd: A'i Frython, rai gwychion gynt, Am ei lwydd a ymladdynt.

Hên gadarn Hu 'n y goedwig,
A lleisiau y duwiau dîg,
A glywid ar glau awel
Y gwynt, yn arwydd ddi gêl,
O'u gwiw nerthawl gynnorthwy
I'w Brython:—tirion ynt hwy!
Ar eu tanllyd gerbydau,
Trwy 'r tîr y gwelir hwy 'n gwau;
A'u harfau, fal fflamau fflwch
Yn niwloedd yr anialwch!

Derwyddon wedi roddynt Arwyddion gwychion, fal gynt, Gwiw lwyddiant, o goluddion Aberthau,—nid lluniau llòn! Tri chan mil o heppil Hu Ar unwaith, heb ymrànu: O finau eu hafonydd, Pysgodwŷr a helwŷr hŷdd; A llwythau mŷg llaeth a mêl, Gwŷr iachus a goruchel, A gynnullent, gain allu, At eu Banon galon gu; Sef Banon, a'i bron a'i bri, Eres un ar *Iseni*.

Hon welaf !--nid yw 'n wylaw! Dwfn ei bryd, a diofn braw: Am ddïal, sef dïal da, Mae 'n arfawg fal Minerfa. I'w merched, ow dynged waeth! Difuddio 'u hetifeddiaeth! Eu gruddiau (gynt lliwiau llwydd) Têg wridawg töa gw'radwydd; Dan eu gwallt, gadwynawg gûdd, Euraidd wawr, ar y ddwyrudd! Tosturi o'u cyni caeth, A chofiant o uchafiaeth, Rhieni, sef bri a braint Tâd a Mam, a'u cam cymmaint, A ennynodd yn anian Dïeithriaid, a deiliaid dân.

Drwy 'r nôs, a mawr achos oedd Y gwylient yn nirgeloedd Y coedydd, a'u cauedig Gysgodion o freisgion frig: Wrth eu tânau, gorau gwawl, Di-brinaf nôd wybrenawl. Cân rhyfel, neud uchel dôn A derw addysg Derwyddon, Eres haid, tra ar eu sŵydd Ys dòrent ar ddystarwydd!

Gwawriodd dydd:—a haf-ddydd hwn, A roi wên-dêg ar wyndwn:
Ac eur-wisg ar bob goror,
Ochrau maith, a chyrau môr.
Pan ro'ed bloedd gyhoedd drwy 'r gâd
Ar filoedd i ryfeliad,
Ebrwydd, ar arwydd, hir rif,
Banerawg, byw, aneirif;

Cerbydau, a charnau chwyrn Meirch y gâd, mawr-wych gedyrn; Y darian, a'r pladuriau, Dros y tir gwelir yn gwau: Torf wasgar, lawn terfysgoedd, Pob cerbyd fal ysbryd oedd! Ary gelyn oer gilwg, Rhuthrent, a gyrent mewn gwg: Yntau 'n ddûr, a mûr un modd, Un enaid a'i hennynodd. Y Fanon, un eon, oedd Blaenores y blîn yroedd: Ac ar gerbyd tanllyd hon, Aflonydd, fyw olwynion; Ei dwy ferch, dïau o fodd, Cain luniau, a'i canlynodd.

Eu llygaid yn danbaid ynt,
A'u galar oll a gelynt:
Dial a roes, do, ail wrid
Ar ruddiau 'r rhai'n o Ryddid!
A'u brònau, caerau cariad,
Yn noethion, gwynion, drwy 'r gâd
Eu gyriad sydd ar gorwynt,
A'u gwallt yn droellau 'n y gwynt!

Gwroniaid mŷg yr ynys, Milwŷr o fraint, mal ar frŷs, Wrth weled hyfed yw hynt, Yr eiddil dair, ymroddynt, Eu holwynion dilynant, Ail fywyd ac ysbryd gânt. Weithiau o'u bwau buain, Syth yr hêd saethau yr rhai'n; A'r hir-bell bicell i'w bôn, I galonau gelynion. Pladuriau, (arfau erfawr Poethion olwynion) i lawr Megys ŷd, (och waedlyd chwant!) Mil o eraill maluriant: Tra gyrant, tröau gorwyllt, Trwy lu blîn byddin fal byllt.

Drwy 'r gwaed, hyd yr egwydydd, Weithiau 'r ânt, rhedant yn rhydd, I ganol (O fawr gyni!) Gelynion llymion yn lli. Llu ar lu yn llwyr â'i lawr, Torfoedd ar dorfoedd dirfawr; Llaw wrth law (difraw) a dûr Irad alon yw'r dolur. Angau 'mhob lliwiau a llûn, Oer a welir, arw eilun: A'i waeddiadau oedd ddidawl, Rhwng bloedd y miloedd a'u mawl. Ond O! er llywio'r lluoedd, Gan ysbryd yn danllyd oedd, Rhyw dynged,—dynged ingol I'r Brython wychion sy'n ol! Aeth cri a gweddi i'r gwynt, Ran duwiau ni wrandawynt! Trwy amryw gâd ofnadwy, A brâd oedd ymweliad mwy: Yr oeddynt i gyrhaeddyd Rhoddiad o ben Rhyddid byd.

Y ddu nôs a ddynesodd: Tafl dy lèn, f' awen, o fodd, Ar v maes lle 'n oer a mûd Hyd elltydd y'ngwaed alltud, Wyth deg mil, wych heppil chwyru, Rhîn a gwaed yr hên gedyrn, Sy'n gorwedd, gorwedd yn gau, Mawr och ing! yn mraich angau! Na âd glyst yn dyst i dôn Ing, llewyg angau, llwon; Gwaedd bychain, gweddw a beichiawg, Yr hên a'r ieuangc yr hawg, A roddid, rhag gofid gwaeth, (Ofer wylo) i farwolaeth! Tafl guddlen ar elfen wyllt Tonau gyrwynt, tân gorwyllt; A nyddent, o'u hanneddau, Goruwch brig y goedwig gau. I'r enaid sydd wir union, A theimlad di frâd da fron,

Uwchlaw crêd gyffred eu gwaith Yn niben eu hanobaith!

Yn nirgelaf ystafell
Ei llŷs gynt, lle bu llais gwell;
Y Fanon, o wiw fonedd,
Yn awr y sy'n oer ei sedd.
Nid wylaw mae 'n ei dulen,
Er ar law pwysaw y pen;
A grudd brudd; ond gradd a bri
Na chwynant yn ei chyni,
Yn ei gwedd ynt enwog wawl,
A mawredd uwchlaw marwawl!

Eisoes o'r byd a'i drasau,
A mawredd hwn, ymryddâu
Wna 'i hysbryd; byd heb oedi
Ysbrydion i'w bron yw bri.
O'i blaen y tybia luniau
Hynafiaid yn dibaid wau:
Gwŷr o einioes goronawg,
Oesoedd—hir oesoedd yr hawg!
Tra heibio 'r ânt, trwy barâu,
Amneidiant, â mwyn nodau,
Ar hon ei hîl i'w dilyn,
A'u hiaith, fal tybia, yw hyn:

" Pa le, BOADICEA,

" Dan gêl yn ddiogel dda,

"Y trigi 'n awr, erfawr wawd

" Rhufeinwŷr, neu rhy fwyn-wawd!

" I fynu dâl dy fonedd;

" Na gwall o barch, gwell yw bedd;

" Na foddia 'u gwŷn, na fydd gaeth."

----A chiliant fal drychiolaeth!

Marwolaeth oedd mawr alwad En geiriau;—i'w bronau brâd: Ond anian wân dŷnai 'n ol, Ar fin yr annherfynol. Nes ymddangos y noson, O'i gwr, a bri ger ei bron; A dywedyd, "Ynfyd waith "Ymddiried mwy i ddewr-waith " Dy gedyrn,—O! dîg ydynt

"Y duwiau, llawn gwyrthiau gynt:

" A allai ddyn, briddyn brau,

" (Mwy na dynes mewn doniau)

"A wnaethost, er annoethion,

" Dros Ryddid brid i bob bron:

" Ond pwy, er ofnadwy nerth

" Da ddoniau, nad yw ddinerth,

" Rhag tynged, mewn addfed nôd,

" Neu arfaeth sy' annorfod?

" Hir dynged o flaned flin

" A gyrhaedd wŷch a gwerin,

" O'n heppil aneiddil ni,

" Oer syniad i'r Iseni!

"Rhufeiniaid, Saesoniaid sydd

" A Daeniaid o'r un deunydd:

" Am oesoedd yn ormesawl

"Y byddant, honant eu hawl

" I'n tiroedd, lle 'r anturiant;

" Anhap blin fydd hyn i'n plant!

" Rhwng creigiau, muriau mawrion

"Yn dàl yr orllewin dòn,

"A mynyddau; caerau c'oedd,

" A phêr anwyl ddyffrynoedd

"Y trigant :-- ond torant did,

" I ymroddi am Ryddid.

"Yno 'n hir, yn ein hwyrion,

" A'u gwaed yn bur-waed o'n bôn,

" I Ryddid y ceir haddef,

" A'i gwŷch wna 'n wrthrych dan nêf!

" Tros oesoedd—oesoedd a ddel

" Er Rhufain hir ei rhyfel,

" A Saesoniaid, haid di hedd,

" Hi ni ddaw yno 'i ddiwedd.

" A'u bwâu, a saethau sỳn,

" Gwiliant hi rhag pob gelyn:

"Yn ei hachles, mynwes mawl,

" Ger y llanw gorllewinawl.

" Ond daw 'r dydd, pan fydd i fod

" Uniondeb, a iawn undod:

" A'r gwaed a fu 'n ergydiaw

" Gelyniaeth, ddu-driniaeth draw,

" O ddwy genedl ddig unwaith,

" Cyd-unir :- rhoddir un Rhaith!

" Ond er, eu huno 'n diriawn

" Digymmysg eu dysg a'u dawn

" A fyddant, a rhyfeddawl

"Gwn, un dydd, a fydd dy fawl,

"Yn eu hiaith:-ni una hon

"Yn oes oesoedd a Saeson."
Dywedodd:—a dïoedi
Diflanodd, o'i hanfodd hi:
A'i breichiau, tra brawychodd
Estynai; mynai 'mhob modd,

Ei ddala: awydd ddiles! Gwynt yn awr a gaent yn nes!

Ar hyn, y gwenwyn i'w gwaed A roddodd; a'r têg rudd-waed, O'i gruddiau, fu 'n lliwiau llòn, A giliawdd at y galon. Ei hysbryd, g'yd a fu 'n gau, Yn araf ei synwyrau Ddadglöai: fal rhedai 'n rhydd O'i agored wiw gaerydd. Tua 'r nef y dolefodd,

" Yn iach fyd, o anwych fodd:

"'Rwy'n dyfod-dyfod, nid oes

" I mi ran mwy o'r einioes."

Y Parch. E. Huws,

Bodfary.



# GALARNAD

AR FARWOLAETH Y GWIR BARCH. DR. HEBER,

DIWEDDAR ESGOB CALCUTTA,

GAN Y PARCH, J. BLACKWELL, TREFFYNNON.

Partie State State

CALCADA PARAD

AR EXPURED A REAR BORDED DR. HERER.

Thirthead his a bullion

NAME OF TAXABLE OF TAXABLE PARTY AND PARTY AND

# GALARNAD

# AR FARWOLAETH YR ESGOB HEBER,

# GAN ALARWR GLAN ISIS.

LLE treigla 'r Caveri¹ yn dònau tryloywon,
Rhwng glènydd lle chwardd y pomgranad a'r pîn,
Lle tyfa perlysiau yn llwyni teleidion,
Lle distyll eu cangau y neithdar a'r gwîn;
Eisteddai Hindoo ar lawr i alaru,
Ei ddagrau yn llif dros ei ruddiau melynddu,
A'i fron braidd rhy lawn i'w dafod lefaru,
Ymdòrai ei alaeth fel hyn dros ei fîn.
"Fy ngwlad! O fy ngwlad, lle gorwedd fy nhadau!

"Fy ngwlad! O fy ngwlad, lle gorwedd fy nhadau
A'i mangre y nôs fyddi byth fel yn awr?
Y Seren a dybiais oedd Seren y borau,
Ar nawn ei dysgleirdeb a syrthiodd i lawr;
Y dwyrain a wenai, y tymmor tywynodd,
A godrau y cwmwl cadduglyd oreurodd;

Dysgwyliais am haul—ond y Seren fachludodd Cyn i mi weled ond cysgod y wawr.

"Fy ngwlad! O fy ngwlad! yn ofer yr hidlwyd I'th fynwes fendithion rhagorach nag un, Yn ofer âg urdd bryd a phryd y'th anrhegwyd, Cywreindeb i fab, a phrydferthwch i fûn; Yn ofer tywyni mewn gwedd ddigyfartal, A blodau amryliw yn hulio dy anial, A nentydd yn siarad ar wely o risial, A phob peth yn ddwyfol ond ysbryd y dyn.

"Yn ofer y tardd trwy dy dîr heb eu gofyn Ddillynion pêr anian yn fil ac yn fyrdd; Yn ofer y gwiswgyd pob dôl a phob dyffryn A dillad Paradwys yn wyn ac yn wyrdd; Yn ofer rhoi awen o Nef i dy adar, A gwythi o berl i fritho dy ddaear; Yn ofer pob dawn tra mae bonllef a thrydar Yr anghred a'i anrhaith yn llenwi dy ffyrdd.

"Dy goelgrefydd greulon wna d' ardd yn anialdir, Ei sylfaen yw gwaed, a gorthrymder a cham: Pa oergri fwrlymaidd o'r Ganges<sup>2</sup> a glywir?

Maban a foddwyd gan grefydd y fam:

Ond gwaddod y gwae iddi hithau ddaw heibio; O! dacw'r nèn gan y goelcerth yn rhuddo, Ac uchel glogwyni y *Malwah*<sup>3</sup>'n adseinio Gan ddolef y weddw o ganol y fflam.

"Gobeithiais cyn hyn buasai enw Duw Israel,
A'r aberth anfeidrol ar ael Calfari,
Yn destun pob cerddi o draeth Coromandel,
A chonglau Bengal hyd i eithaf *Tickree;*Ac onid oedd *Bramah*<sup>5</sup> yn crynu ar ei cherbyd,
Er y pryd y bu Swartz yn cyhoeddi fod bywyd
Yn angau y groes i Baganiaid dwyreinfyd?—
Pan gredodd fy nhad yr hyn ddysgodd i mi.<sup>6</sup>

"A'th ddoniau yn uwch, ac yn uwch dy sefyllfa,
A'th enaid yn dân o enuyniad y Nef,
Cyhoeddaist ti, Heber, yr unrhyw ddiangfa,
Gyd â'r un serch ac addfwynder ag ef;
Dyferai fel gwlith ar y rhôs dy hyawdledd,
Ennillai 'r digrêd at y groes a'r gwirionedd,
Llonyddai 'r gydwybod mewn nefol drugaredd;
Mor chwith na chaf byth mwyach glywed dy lef!

"Doe i felynion a gwynion yn dryfrith,
Cyfrenit elfenau danteithion y nen;
Y plant a feithrinit nesâant am dy fendith,
A gwenant wrth deimlo dy law ar eu pen;
Doe y datgenit fod Nef i'r trallodus—
Heddyw ffraethineb sy fud ar dy wefus—
Ehedaist o'r ddaear heb wasgfa ofidus,
I weled dy Brynwr heb gwmwl na llen.

"Fy ngwlad! O fy ngwlad! bu ddrwg i ti'r diwrnod
'R aeth Heber o rwymau marwoldeb yn rhydd;
Y grechwen sy'n codi o demlau'r eilunod,
Ac uffern yn ateb y grechwen y sydd;
Juggernaut<sup>8</sup> erch barotoa'i olwynion—
Olwynion a liwir gan gochwaed dy feibion—
Dnodd y nôs—ac i deuln Duw Sïon
Diflanodd pob gobaith am weled y dydd."

Yn araf, fy mrawd, paid, paid anobeithio, Gwanai gam âg addewid gyfoethog yr Iôn: A ddiffydd yr haul am i seren fachludo? Os pallodd yr aber, a sychodd y môr? Na, na, fe ddaw boreu bydd un Haleluia, Yn ennyn o'r Gauts hyd gopäau *Himalaya*,<sup>9</sup> Bydd baner yr Oen ar bob clogwyn yn India, O aelgerth Cashgur hyd i garth Travancore.

A hwyrach mai d'wyrion a gasglant y delwau,
A fwrir i'r wadd ar bob twmpath a bryn,
I'w gosod ar feddrod ein Heber yn rhesau,
Ei gyfran o ysbail ddymunodd cyn hyn:
Heber!—ei enw ddeffrodd alarnadau,
Gydymaith mewn galar, rho fenthyg dy dannau,
Cymmysgwn ein cerddi, cymmysgwn ein drgrau,
Os dinôdd y gerdd bydd y llygad yn llyn.

Yn anterth dy lwydd, Heber, syrthiaist i'r beddrod,
Cyn i dy goryn ddwyn un blewyn brith;
Yn nghanol dy lesni y gwywaist i'r gwaelod,
A'th ddeilen yn îr gan y wawrddydd a'r gwlith:
Mewn mynyd newidiaist y mitre am goron,
A'r fantell esgobawl am wisg wên yn Sīon,
Ac acen galarnad am hymn anfarwolion,
A thithau gymmysgaist dy hymn yn eu plith.

Llwyni Academus, 10 cynorsaf dy lwyddiant,
Lle gwridaist wrth glôd y dysgedig a'r gwâr;
Y cangau a eiliaist a droed yn adgofiant
O alar ac alaeth i'r lluoedd a'th gâr:
Llygaid ein ieuenctid, a ddysgwyd i'th hoffi,
Wrth weled dy ardeb 11 yn britho 'n ffenestri,
A lanwant, gan gofio fod ffrydiau Caveri,
Yn golchi dy fynwent wrth draeth Tranquebar.

Llaith oedd dy fin gan wlithoedd Castalia,
O Helicon yfaist yn moreu dy oes;
Ond hoffaist wlith Hermon a ffrydiau Siloa,
A swyn pob testunau daearol a ffoes:
Athrylith, Athroniaeth, a dysg ar Awenau,
A blethent eu llawryf o gylch dy arleisiau;
Tithau 'n ddi fôst a dderbyniaist eu cedau,
I'w hongian yn offrwm ar drostan y groes.

Pan oedd byd yn agor ei byrth i dy dderbyn, Gan addaw pob mwyniant os unit ag ef, Cofleidiaist y groes, a chyfrifaist yn elyn Bob meddwl a geisiai fyn'd rhyngot a'r Nef: Yn Hodnet<sup>12</sup> yn hir saif dy enw ar galonau Y diriaid ddychwelwyd yn saint trwy'th bregethau-Amddifad ga'dd borth yn dy brïod a thithau-Y weddw a noddaist-y wan wneist yn grêf.

Gadewaist a'th garant,-yn ysbryd Cenadwr Y nofiaist dros donau trochionog v môr, I ddatgan fod Iesu yn berffaith Waredwr, I Fahmond Delhi, ac i Frahmin Mysore; Daeth bywyd ac adnerth i Eglwys y dwyrain-Offrymwyd ar allor Duw Israel a Phrydain-Yn nagrau a galar Hindoo gallwn ddarllain

Na sengaist ti India heb gwmni dy Iôr. O! Gôr Trichinopoly, cadw di 'n ddïogel Weddillion y Sant i fwynâu melus hûn, Pan ferwo y weilgi ar làn Coromandel, Gofynir adfeilion ei babell bob un ;-Ond tawed ein pruddgerdd am bennill melusach, A ganodd ein HEBER ar dannau siriolach; Yn arwyl y Bardd, â plia odlau cymliwysach Dilynir ei elor na'i odlau eu hun?

- " Dïangaist i'r bedd-pa'm galarwn am danat, "Er mai trigfa galar a niwl ydyw'r bedd?
- " Agorwyd ei ddorau o'r blaen gan dy Geidwad, "A'i gariad wna'r ddunos yn ddiwrnod o hedd.
- "Dïangaist i'r bedd-ac wrth adael marwoldeb,
  - "Rhwng hyder ac ofn os unwaith petrusaist,
- " Agoraist dy lygaid yn nydd trag'wyddoldeb, " Ac Angel a ganodd yr Anthem a glywaist."13
- Caveri --- avon yn ngorllewin Hindostan, a lifa heibio Trichinopoly, claddfa yr Esgob Heber, ac a ymarllwysa i for Coromandel, wrth Tranquebar.
- <sup>2</sup> Ganges---prif afon India---gwrthddrych addoliad y Brahminiaid. Cyffredin ydyw i wragedd daflu eu mabanod i'w thonau er mwyn boddio y duw Himalaya, a elwir yn Dad y Ganges.
- 3 Y Malwah--rhes o fynyddoedd nchel yn nghanol Hindostan. Nid yw cynghor na cherydd Prydeinaidd yn gallu rhwystro yr arfer greulon gyunwynol o losgi gweddwon byw gyd a'u gwyr meirw.
  - 4 Nid anghyffelyb Hindostan i drionglyn: Coromandel, Tickree, a Bengal, ydynt y conglau.
  - 5 BRAMAH, prif dduwies y Brahminiaid.
- 6 Tybir bod taa 40,000 o Gristionagion, ond bod mwy na'u hanner yn Babyddion, yn y Carnatic. Nid yw prin werth crybwyll mai un o hil dysgyblion Swarts, Cenadwr enwog, tua chan mlynydd yn ol, yw yr Hindoo a ddychymyga yr Alarnad. 7 Angau disyfyd a gymmerodd HEBER ymaith tra y mwynai drochfa dwymn. Y dydd o'r blaen, y Sabboth, cyflawnai ddyledawyddau ei daith Esgobawl.
- 8 JUGGERNAUT, un o cilunod penaf Hindostan. Ar ci gylchwyl llusgir ef ar gert anferth i ymweled a'i hafoty. Ymdafia miloedd o'i addolwyr dan ci olwynion trymion, ac yno y llethir bwynt.
- 9 GAUTS, mynyddaedd uchel wrth Travancore, penrhyn DEHKUUL. Ilimainys, mynyddaedd uwch, wrth Cashgur, penrhyn GOGLEDDUL Hindostan.
- 10 LLWYNI ACADEMUS. Nid oes ond a wypo a ddichon ddychymygu y parch a dalwyd yn Rhydychain i HEBER, a'r parch a delir yno etto i'w enw. Yno y daeth gynaf i wydd yrees drwy ei Balestine, a gyfeithwyd i Gymraeg mor ardderekog gan yr unig wr cyfaddas i'r gorchwyl, yr enwocaf Gynaro, Dr. Fugbe.
  - 11 ARDED, PORTRAIT.
  - 12 HODNET, yn Amwythig; yno y cyflawnai HEBER swydd Bugail Cristionogoi yn ddifefi hyd ei symmudiad i India-
  - 13 Gwel y Gwylledydd am Hydref, 1827.

# **CYWYDD**

DDIOLCHGAR AC ANFARWOL GOFFADWRIAETH

AM

# OWAIN MYFYR,

GAN MR. SAMUEL EVANS, GERLLAW CAERWYS.

## THE MERITS\*

OF

# MR. OWEN JONES, alias MYVYR,

THE ESTIMABLE

COLLECTOR AND PRESERVER OF WELSH LITERATURE,

# ADDRESSED TO SIR EDWARD MOSTYN, BART.

THE PRINCELY PRESIDENT OF THE DENBIGH EISTEDDVOD.

(FROM THE VISION OF TALIESIN, IN LLWYD'S POEMS.)

After celebrating other Votaries of the Muses, the Author proceeds:-

And He, who still, with liberal hand explores
The storied hoard, poetic page restores,
Unfolds the Volumes to his Country's view,
And bids her Chiefs and Sages breathe anew:
To him, the Bard, the kindest words addrest,
And clasp'd the generous Patron to his breast;
Look'd on the cliffs he lov'd, with patriot fire,
The roll of ages held—his Country's Lyre;
And, as the Gift, with parent hand was given,
Struck on its dulcet chords, the strains of Heaven!
Then said, with Angel voice, "thy boon be this,"
And soar'd to re-assume the Lyre of Bliss.

Mr. Jones was the son of a respectable freeholder in Llanvihangel-Glyu-y-Myvyr, (St. Michael in the Valley of the Contemplative,) in the county of Denbigh, descended from Marchweithian, (the Equestrian,) founder of one of the fifteen Patrician Tribes of North Wales, whose territory was the uplands of Hiraethog, and whose armorial symbol was a lion rampant, argent, in a field gules; to which Mr. Jones added the encouraging motto—"Nid divudd y divyd"—" the industrious will not be unrewarded." Of this origin also are the Prices of Rhiwlas, and that true lover of his country, the late Baron Price; the Wyunes of Sychtyn, of which house was Dr. Wynne, Bishop of St. Asaph, in 1714, of whom Willis, in his Survey, speaks so highly; the Wynnes of Voelas, the Pantons of Anglesey, and Rhys Vawr ab Meredydd, of Bryn Gwyn, in Yspytty, the intrepid Standardbearer of Henry the Seventh, at the battle of Besworth.

<sup>•</sup> The above biographical and genealogical notices (copies of which were liberally and gratuitously disseminated at the Denbigh Eisteddvod,) were supplied by that zealous and indefatigable promoter of the interests of his country---the unmatched Welsh herald and antiquary of his age—and the warm-hearted and intimate friend of Mr. Owen Jones,---Richard Llwyd, Esq. of Chester.
[Publisher]

Mr. Owen Jones, was the founder of the Gwyneddigion, or North Wales Society; to this Gentleman his country is indebted for the three copious volumes of the Archaiology of Wales, or British Classics; for a valuable edition of a favourite Bard, Davydd ab Gwilym, the Ovid of Wales; for an edition of that pious and useful work, Dyhewyd y Cristion; and for his generous and unremitted exertion in behalf of Literature.—His Countrymen, the Cambrian Society, offered him their thanks by public advertisement, in September, 1802.

If the Mæcenas's and the Medicis's of past times, have deservedly received from grateful Science, the Fama Superstes; if Patrons born on the lap of Plenty, who have encouraged Learning, and cherished its votaries with means which it has cost them no care to collect, no effort to create, and no forbearance to amass, live in Anvarwol eiriau (immortal strains;) what meed is to be given to that merit, which, born in a situation where industry was necessary to existance, has liberally given of its produce to rescue the neglected Literature of his Country from the destruction, which awaited it? To munificence thus enhanced, the voice of praise, the lyre, and the lay, is alike unequal, but the reward which the bosom of worth invariably pants for, is to be found in the future.

- " Some there are of nobler aim,
- "Who spurn the inglorious lot, and feel within,
- "The generous hope of well deserved praise."

Yea, Posterity will recognise, with grateful admiration, the Patron of Learning, not in the possessor of a Coronet, but in the person of a Citizen; not in the palace of Opulence, but in the toil of Thames-street; and, I contemplate with pleasure, the day when those, on whose lips the ancient language of Britain shall still live, will place the name of Owen Jones on the apex of the pyramid, that shall rise to record the benefactors of our Country. And when my worthy compatriots are disposed to do honour to the memory of Mr. Jones, and to themselves, the writer will be most happy to contribute.



# CYWYDD

# O GOFFADWRIAETH AM OWAIN MYFYR,

# GAN GOFIADUR COF-ADAIL.

#### THE ARGUMENT.

If it is the chief praise of Bards, that they can confer immortality, greater praise is still due to those, who have been the means of preserving their works.-The works of ancient Poets preserved by such means.—The chief collectors of manuscripts, and cultivators of the Welsh language celebrated.—MYFYR, the chief of them—his birth descent-native place-and account of his life.-His ardent love of native country, countrymen, and language.-His establishment of the Gwyneddigion Society.-The effects of the encouragement given by that Society to the cultivation of the Welsh language, Poetry, and Music.-His Archaiology of Wales, with a description of the Bards and Historians, according to the costume and manners of the respective ages in which they flourished.-His care for the moral and religious improvement of his countrymen evinced by his re-editing of Dyhewyd y Cristion .- The shade of an ancient Bard proclaiming his celebrity from the Monument in London.-The conclusion.

OS pénaf a mwyaf mawl
Y Beirddion, arab urddawl,
A'u swydd, bawb, yn oesoedd byd,
Rhëol fn, rhoi ail-fywyd:—\*
Pa glôd, a difeddrod fawl
A roddir i wŷr haeddawl,
A ail-godent, lu gwedi,
Yn g'oedd, yn ein oesoedd ni,
O fawrion Feirddion a fu,
O'u claddiad, i'w coleddu?
Di-barhâd yw, heb y rhai'n,
Hanes y Beirdd eu hunain."
Drwy ofal dyfal un dydd,

Yr *Riad* † o'r hëolydd. A'r *Enëaid*,‡ rîn awen, O dân poeth, (dyna eu pen!)

<sup>·</sup> See Horace, Lib. 4, Ode 8.

<sup>+</sup> It is said, that at first the Iliad of Homer was rehearsed about the Streets of Greece, in detached pieces, before it was collected and published in its present form.

Alluding to the wish expressed by Virgil that his Eneids might be burnt.

Achubwyd:—cafwyd cof-waith, Etto 'n Beirdd, yn heirdd, a'n hiaith, I ninnau ('r Cymry) 'n unwedd, Fal pe bai, o fôl pob bêdd.

Os ti, 'r hwn a geri 'r gwaith,
A ofyni 'n hŷf unwaith,
"Pwy o'r gwŷr, pûr o gariad
"I ddawn lwys eu haddien wlad,
"A'i choleddwŷr, awch lwyddawl,
"Deilyngaf o'r mwyaf mawl?"
Yn mysg y têg-addysg wŷr,
O! ymofyn am Myfyr!\*

Hir y bu drwy Gymru gynt,
(Ein talaith) anfad helynt:
Dan estron, a dinystriad,
Drwy 'r cleddyf, pryf, a phob brâd,
Beirdd enwog, a'u barddoniaeth,
Er gyru hên Gymru 'n gaeth!
A chwedi, od ychydig,
O ddwysder a dyfnder dîg,
A ddïangent; dydd ingol
Eu tew nŷch oedd etto 'n ol:
Sef, bod yn llwyd bryf-fwyd brau,
Ar golliant mewn llyfr-gellau.

O'r diwedd, mewn hedd mwynâd, Wedi eilio ein dwy-wlad, Coleddwŷr, gwŷr rhagorawl, O ddawn mŷg, yn haeddu mawl, A ddaient, yn nawdd awen, Gyda pharch, i godi ' phen. Siôn Dafydd, ddysgedydd gwych, Oedd iawn-ben i swydd Ddinbych; Ac Ab Prŷs, hysbys y sôn, A fu arall i Feirion. Lewis Môn yn union ŵr, Wychawl oedd:-a choleddwr Barddoniaeth odiaeth wedi, A'n helaeth hynafiaeth ni. Mae'r Bardd Hîr, yn wir a'i waith, Yn mrigyn y Cymreig-waith:

<sup>.</sup> The Bardic name of Mr Owen Jones.

Ac Owain Pugh, gwn y pen
A bïau, fal mab awen!
Ond etto, 'n ol rhifo 'r hawg,
Y gwŷr hyn, rhai gor-enwawg:
Carwŷr, goleu-wŷr eu gwlad,
A'u henwau 'n ddiwahaniad,
Fal prif-wladawl, ddoniawl ddyn,
Am Myfyr, rhaid ymofyn.

Hand' wnaeth hwn, un ethol, O wŷr-bri, fu 'n oesi 'n ol: Sef Wynniaid, a saif enwawg Mewn hanes, yn rhês, yr hawg! A Phrysiaid (bur-blaid o'u bôn) Y Rhiwlas oedd wŷr haelion. Ei wraidd oedd, nid o radd wan Mawr âch ethawl, Marchweithan A'i dyfiad, rhad, a hir hedd, Yn eginyn o Gwynedd! Da ydyw, a di-adwyth: —Y Llew\* yw arwydd y llwyth. Mab ieuengaf, cuaf, cain, I ddiwyd ŵr oedd OWAIN; A choeliaf mai uchelwr, O eiddo gwych, oedd y gŵr. Ein Owain, (da fu 'r newydd) Ei awel dêg, a'i liw dydd. (Têg cofiaw) gynta' cafodd, A henw+ fu, a hwnw o'i fodd: O Lanfihangel gwelych! Glyn y Myfyr, awyr wych! Oddiyno, 'n awydd anian, Mabolaeth, (rhagluniaeth glân) Ai' Gaerlûdd, gŵr i lwyddo A da ddawn, gwn ydoedd O. Llwyddo wnaeth, a llaw Dduw Nêr, Yn Llundain, enw, a llawnder, Iddo rhoes; ac einioes gyd A chalon ddifrycheulyd. Ond er ei lwydd, nid âi 'r wlad A'i magodd, dàn ddirmygiad:

<sup>•</sup> The Crest of Mr. Owen Jones was a Lion rampant, and his motto " Nid difudd y diwyd." + Viz: Myfyr.

Ei galon lòn ar lỳnoedd
Myfyrdod, a'i dyndod oedd.
Ac anwyl oedd pob gwyneb,
O'i hên wlad yn anad neb,
I'w noddwr awenyddawl,
O fin hên Dafwys, a'i fawl!
Côf i'r rhai'n yw cyfrànu
O'i lwyddiant fwyniant tra fu:
A galarent, gûl orwedd
Un o'i fath, Ow! yn ei fedd!

Pan nad oedd un pen na dysg I noddi awen hyddysg; A'r hên-iaith, er ei rhinwedd, (Pwy gred?) ar fyned i fêdd: Y'nghanol heol a haid, Aswy eu sŵn, o Saesoniaid, Le nid dôf, ar làn Tafwys, Gwelwn!-ei lawn galon lwys A gludodd gariad gwladol I'r nèn, uwch pen-uchaf Pôl.\* Gwelodd, pan edrychodd draw, Pawb welodd, (nid heb wylaw) Ddigynhwrf idd ogoniant Hên Gymru, hoff lu, a'i phlant! Mae'r dewr-weilch Gymmrodorion, Llu a fu, a'u Llew o Fôn: A'u Goronwy gywreinwaith :-Och! heb un i achub iaith! Gwelodd a synodd Ab Siôn; Gwelodd!-a'i wladol galon Ferwinodd; -a'i fawr enaid Ynddo, fal iawn Gymro gaid. Hwn ddygodd Wyneddigion, O wladawl, iawn frawdawl fron, Coleddwyr, hoffwyr effaith, A'r rhîn oedd, yn yr hên iaith, Ac addas Gymdeithas dêg, Yn Llundain, (enwau llondeg) Sefydlodd:-hudodd hoyw-don Ein iaith, a'i heffaith i hon.

Anfonent yna 'n fynych, Heirdd dlysau, sef gwobrau gwych, I Gymru, a'i llu oedd llôn, I noddi awenyddion.

A buan, buan y bu
I'w gwiw nodded gynnyddu;
Ac ennyn yn nhir Gwynedd
A Dehau (mànau a'i medd)
Rhwng creigiau fal caerau c'oedd
Mwyn addysg, a mynyddoedd,
Dân awen, neud o newydd;
Sef tân nod anian ein dydd,
Na ddiffydd nawdd ei effaith,
Tra byddo Gymro nac iaith!\*

Ond penaf a mwyaf maeth Owain Siôn, iawn wasanaeth! I'w Gymru, a'i llu, er lles, A fu anwyl i'w fynwes, Yn ei fwriad anfarwol At ei nawdd, oedd etto 'n ol.

A hyn ydoedd, hynodawl Uno dysg, a hynod wawl Hên oesoedd, a'u hanesion (Eres ynt!) gyda'r oes hon: Ac awen,—awen ddiwyw Hên Feirddion, a Beirddion byw!

Yn ei ddrych,† gorwych y gwaith, O Daliesin, a'i dlys-waith, Mewn barddas, mwyna' Beirddion, O rîn mawr, hyd 'Ronwy Môn, A ddaeant; fal addawyd, O feddau 'r llyfr-gellau i gyd! Ac wele 'n gyd, gwelwn gant O un enaid ennynant.
Bardd-telyn Llychlyn y llyw Hŷf aden, cyntaf ydyw; Y'ngwisg,—(a hardd-wisg yw hon) Awdwr addysg Derwyddon.

The Gwyneddigion, and especially Myfyr, may be looked upon as the renovators of Welsh Literature in our days.

<sup>+</sup> The Archaiology of Wales.

Aneurin, Myrddin, un môdd,
Ddalenawg a ddilynodd
Ein Llywarch, wŷch alarch, hên:
A Llywarch nad yw'n llawen.\*
Cynddelw, Bardd Cynddylan
O ddawn mŷg, ddaiai'n y màn:
Yr Iolo, Tudur Aled,
A hynaws liaws, ar led,
O Feirddion, awen fawr-ddysg,
A sain mwyn, y sy'n eu mysg.
Galw a wnaed ar Fab Gwilim,
O'i lwch dd'ai, ni lechai ddim:
Er Morfudd, lle'r ymguddiodd,
Wnai'n fllwch y tew-lwch a'i tôdd.

Amrywiol, fal mae 'r awen, A dull oes, diau a llên, Yw eu gwisgad, a'u gosgedd, Beirdd llŷs, ynt o bur ddull hedd; Y llurig yw dull ereill, Awyr-liw yw lliw y lleill. Yn eu gwaith, a'u henwog wedd, Eu hoes welir, a'u sylwedd.

Rhai ganant, mewn rhyw gyni,
Am blant oll wylant yn lli!
Anian y lleill ennyn llid,
I ymroddi am ryddid.
Yn y gâd, enwog ydynt,
A'u gwallt yn troelli 'n y gwynt.
A'u telyn, y Beirdd-teulu
A ganant, lleisiant yn llu,
I'w noddwŷr, ïe, nyddant
Pob un ei gerdd, pawb iawn g'ant.
A'r gerdd, fwyaf enwawg yw,
A'r fwynaf wnair i'r fenyw.

Gyda Beirdd, a gaid a'u bôn, Hyd o raddau 'r Derwyddon, Haneswŷr yr hên oesoedd, Gan Myfyr, deg wŷr, wnaed g'oedd:

<sup>.</sup> Mourning for the death of his sons slain in battle.

A'r doethion gynt rai dethawl, Gyda 'u plant, gwelsant y gwawl. Gwaith cymmysg, pob dysg a dawn, Yn ei gôf-lyfr, yw 'n gyflawn, Drwy 'r oesoedd, dîg oesoedd gynt, Anhylaw yn eu helynt, Hyd i'r Fanon\* derfynodd Hil Tudur, mûr yn mhob modd.

Ond nid tros ddysg hyddysg hên,
Na diwad enaid awen,—
Mwya' ofal ein Myfyr
A fu am Gymru a'i gwŷr.
Tu hwnt i'r byd, enbyd waedd,
Ei gariad ef a gyrhaedd:
A'i lafur, yn bur ddi baid,
A ràna nawdd i'r enaid.
Tra 'r Cristion, a'i fron, a'i fryd
Yw i Dduw, a'i Ddyhewyd,†
Ei gu nerthol gynnorthwy,
O lyfyr Myfyr fydd mwy:
A sonia 'n ei wasanaeth,
Yn y nef, am hyn a wnaeth.

Y fath a hyn (o gofyn gwŷr)
Yw:—a mwyfwy â Myfyr:
Ef yw'r gŵr, o'i fawr gariad,
Yn ei lwydd, i lwydd ei wlad,
A dreuliodd, o'i fodd, dda'i fyd,
Wâs ufudd, a'i oes hefyd,
Dda oedran! a'i ddiwydrwydd,
Dros Gymru, ei llu, a'i llwydd:
A'i dysg, a'i dawn, dasg ei dydd,
Uwch rhifwn! O! a'i chrefydd!

Tithau, fy ngwlad, wiwfad wedd, Dywed,—pa beth yw diwedd, A wnaethost dithau 'n ethol, Addwyn ŵr! iddo yn ol? Pa golofn ëofn a wnaist, Neu gof-adail gyfodaist;

<sup>·</sup> Queen Elizabeth,

<sup>+</sup> Dyhewyd y Cristion, or the Christian's Resolution, translated from the English by Dr. J Davies, and re-edited by the late Mr. O. Jones.

O diriawn goffadwriaeth,
O'r hyn oll, i'th rhan a wnaeth?
O! nid rhaid i'w enaid rhydd
Dy gariad, na dy gerydd!
Dy Foelydd di ofalant
Gadw y cof, rai gwiw-deg, gant,
Am Myfyr;—a'r gwŷr garant,
Yn eu plith, ddaioni' plant.
Mae 'i Farwdon, yn myfyrdod
Pob dyffryn, a glŷn o glôd.

Ond, ha! pan dros Loegria lwys,
A hyd hefyd i Tafwys,
Edrychaf, gwelaf golofn,\*
Megys cawr dirfawr nad ofn,
A'i phen goruwch pob nennawr,
Twrf torfoedd lluoedd y llawr.
Ac ar y pen wybrenawl,
Uwch mŵg, i'm golwg mewn gwawl,
Y tybiaf fod un tebyg
I Fardd mwyn, o nef urdd mŷg,
A'i wedd, o ddull hêdd, a lliw
Ei hir-laes wisg awyr-liw!

I lawr, yn awr, un eirian,
Y dengys â'i fŷs y fân,
A'r hēol lle rhoe awen,
Wrth Dafwys, ei phwys a'i phen.
A dywed, "tra rhêd, a'i rhîn,
"Hên Dafwys hon, a'i deu-fin,
"Rhwng tyrau, muriau mawrion,
"Y ddinas hir, ddawnus hon,
"Tra byddo 'n goleuo gwlad,
"Hwyl llewyrch haul a lleuad;

"Na glỳn, na dyffryn, na dysg, Dawn, haeddiant, awen hyddysg:—

" Am Myfyr bydd ymofyn, " A'i glod, ar bob tafod dyn."

" A'i glod, ar bob tafod dyn."

Dywedodd:—ond nid awdwr Marwolaeth gaeth oedd y gŵr:

<sup>\*</sup> The Monument near London Bridge, and overlooking Thames-Street.

Neu neidio, yn anodiaeth,
I nôs† ddiderfyn a wnaeth:—
Mwy tanllyd ei ysbryd oedd,
Ar ei nawf, â'i i'r nefoedd:
Lle Myfyr, a'r gwŷr i gyd
Da 'u hawen, a'u Dyhewyd:
Lle 'r trag'wyddawl lwysawl lên,
Bywyd, a phurdeb awen.

Mr. Samuel Evans,

Gerllaw Caerwys.

+ See the conclusion of Gray's Bard.



# CYWYDD

AR

# GANTRE'R GWAELOD,

GAN

MR. WILLIAM REES, LLANSANNAN.

# GULLETTE GULLED BE

THE PROPERTY

May have been bringered by the second

GAVERE H. CHALLOD

Market Company of Late 18 and

# CYWYDD

# AR GANTRE'R GWAELOD,

## GAN ELIDIR LYDANWYN.

### Y CYNNWYSIAD.

Golwg ar y wlad o ran ei sefyllfa.—Cywreindeb y trigolion yn llunio Sarn Badrig i argau y môr.—Golwg ar y gwaith.—Dychymmygu i'r trigolion heriaw y môr wedi ei gorphen.—Golwg ar ansawdd y wlad.—Seithionyn, ceidwad y dyfrddorau, yn ei feddwdod, yn eu gadael yn agored—y môr yn gorlifo i mewn—ei araith yntau wrth y brodorion ar ei ddyfodiad.—Eu dychryn—eu ffoad.—Y môr yn eu goddiweddyd—llawer yn boddi—rhai yn dïanc.—Un o'r rhai a ddïangasai yn sefyll ar fryn i olygu y dystryw.—Ei alarus gwyn uwch ben ei wlad.—Adolwg ar y difrod.—Y diweddglo.

Dalier sulw, fod y nôd wy yn y Cywydd, yn nodi y banau wythsill ynddo.

OLRHEINIAF, holaf helynt,
A gwedd yr amserau gynt;
A rhoed Nêr lawnder o lwydd,
I olrhain i fanylrwydd;
Rho anian, o dy dân di,
Dy gymhorth, O dwg imi,
I roi yn awr, eirian nod,
Golwg ar Gantre'r Gwaelod.

Hyfryd wlad o Leyn fad fwyth, Wastad hyd Aberystwyth; Llain hir o amaethdir mâd, A morfa ëang mawrfad:
Y môr oedd fal mûr iddi, Hallt wregys i'w hystlys hi; Iach afon Mawddach hefyd Ai trwyddi, i'w gweini i gyd, Ei dwfr melus, iachus oedd, I'w dïodi, da ydoedd.
Dolenai trwy 'r ardal lonwawr, Yna myn'd wnai i'r eigion mawr.

Dynion mirein cywrein cu
Oeddynt yn eu hanneddu;
Hwy wnaynt yn gadr Sarn Badrig,
I ddal o'r fro 'r dyfnfor dîg;
Cadwynynt acw ei dônau,
A darn o fûr cadarn cau;
Gwregysynt ei gry gesig,
Ffrwyno a dàl eu ffroenau dîg.

Iawn y mynwn am unwaith, Roi amlwg olwg o'r gwaith, Pan ydoedd y pen awdur Yn llunio gwaith maith y mûr; Certwyni, mèni 'n myned, Hyd y lwys ardal ar lêd; O'r bore gwyn hyd derfyn dydd, Eu gwelid yn gwau trwy' gilydd; Cludo llwythi o feini 'n fâd, Wŷr dilesg i'r adeilad: A chywrein seiri meini Yno a'i têg furynt hi; Rhoddynt y brwd gymrwd gwych, I'w dàl, adail deleidwych, Mòr erfai nad allai 'r dòn Chwalu eu goruchwylion: Asio 'r Sarn na osiai 'r serth Weilgi, a'i ddwfr rhualgerth, Ddyfod trosti i lenwi 'r wlad, Teilwng y cai ataliad.

Ac ar ben gorphen y gwaith,
Y gwŷr mewn enwog araith,
Heriasant,—arwyr iesin,
Hell oror y blyngfor blin:
Gofyn gwaethaf,—gwaethaf gau
Dannedd ei ffyrnig dònau!
"Ha! tyred yma, dringa dros
"Ein mûr yn ddiymaros;
{"Croeso iti, os medri, y môr,
{"Gyra dy dònau i'n goror;—
"Ymwrola 'n mawr elyn,
"Yma rhed trwy 'r muriau hyn—
"Gormod gwaith ddwywaith i'th ddig

" Aflonydd don fileinig!

"Er cryfed, garwed dy gur,

"Un dyrnfedd o'n cadarnfur,

" Ni syfl byth, dilyth y deil,

"Y furiedig fawr adeil;

" Er i'th eigion greuloni

"Yn derwyn i'w herbyn hi,

" A'i churo 'n dra chwerw-wyllt,

"Gwaetha'th galon, hon ni hyllt:

"Try 'n ol dwrw llanw y llif,

" A dialedd y dylif."

A hedd a gawsant fwynâu, Yn addas am flynyddau; Yn eu bro oraddien brid, Yr oeddynt mewn gwiw ryddid. Gwlad oludog, enwog oedd, Ail Eden araul ydoedd; Ni bu harddach, mwynach màn, Fwy enwog o fewn anian: Llwyni coed llawn cauedig, Ir-leision, breisgion eu brig; Adar mân yn chwibanu Beunydd yn y coedydd cu; Adlais ēos dlos awen, Gynt ro'i wawd trwy Gantre' wen. Heirdd balasau golau gwych, Adeiladau teleidwych; Muriau, a gwawr marmor gwyn Addurnawl, ydoedd arnyn': A rhoent, pan dywynai 'r haul, Ei derydyr gwiwfad araul, Adliwiau hynod loywon, Tra heirdd ar y Gantre' hon. Gerddi iwanferth gwyrddion-fâd, Llawn o ffrwythau, moethau mâd; (Perlleni a llwyni llawniawn, Afalau 'n grôg, felynawg rawn: A'r dolydd, O! mòr delaid, Yn feillion gwynion a gaid; Iachusawl heirdd fuchesoedd, Yn llaethog, serchog, ys oedd;

A defaid ac ŵyn dofion, Grychneidynt, llamynt yn llôn: Ni bu gwell dïadellau Yn bod yn Ewropa bau: Ac anwyl deg, ganol dydd, Gwelid yn mreichiau 'u gilydd, Heirdd Rianod yn rhodiaw Yn mysg meillion llon gerllaw: Edrych a wnaynt trwy ddrychau Ar oror y cefnfor cau; Gweled llongau 'n llengau llon, Yn nofiaw wyneb neifion; Gan ddwyn o'r môr drysorion, I'n hardal ddihafal hon; Delaid gyfoethog dalaeth Ei chlod yn dra hynod aeth; Gwyneb anian yn gwenu Arni i'w berth addurno bu.

Ond daeth arni gyni a gwall, A gerwin olwg arall; Ca'dd y fâd wlad oludog Y mawrddwfr, glasddwfr yn glôg!

Seithionyn feddwyn a fu,
I'w diachos fradychu:
Gadawai gwedi dïod,
Y glŵth folerwr di glod,
Y dyfrddor yn agored,
I'r môr a'i lîf mawr ei lêd,
Ddyfod trosti a'i soddi 'n serth,
I'w eigionfòl dig anferth!
Y mawr weilgi dyfrlli dig,
A'i chwai ddadwrdd chwyddedig,
D'od i'r fro tàn rüo 'r oedd,
Llidiog ac erchyll ydoedd.

Yn ei hiaith, bloeddio weithon, Yn erchyll wnai 'r deryll dôn, A d'wedyd gyda dadwrdd, " Wŷr! deffrowch! a ffowch i ffwrdd!

- " Fi pïau 'r wlad, gwnewch 'madael
- "Yn chwyrn, rhaid i mi ei chael;
- "Dw'r heli ydyw 'r hawlydd;
- " Brenin arni, myfi fydd.

- "Ni chaiff mwyach legach lu
- " O ddynion, ei meddiannu;
- " Ond môrfeirch, dewrfeirch y dòn
- " Fyddant ei hetifeddion.
- "Clywch chwithau! ciliwch, weithon!
- " Bob gŵr, o le dw'r y dòn;
- " Ar frys rhaid myned o'r fro,
- " Neu fygu yn fy eigion!
  - "Ha! p'le mae 'ch Sarn gadarn-gau?
- " Dorau heiyrn cedyrn cau,
- " Muriau gwŷch oedd genych gynt
- "I'm hatal? Dirym ytynt!
- " Muriau i ddal llif moryd?
- " Pw! ffoledd, gwagedd i gyd!
- " Un fath a phe b'aswn farch!
- " Ni chymmer dw'r eich a'mharch;
- " Drylliaf eich Sarn gadarnaf,
- " A thrwyddi ar egni 'r âf."

Tros yr oror âi 'r môr maith Ar redfa chwern ruadfaith; Ac O! gyni, gwaeddi gwyllt, Tàn guriad tònau gorwyllt! Gwrolion yn hagr welwi Yn llwyd yn nghanol y lli'! A'u plant bychain, rhai'n yn rhi' Yn eu gŵydd yno yn gwaeddi; Er eu gwaeddi egniol, Ni thro'i tòn neifion yn ol. Chwerw unllais ddychrynllyd, Dolef trwy 'r Gantref i gyd.

Y gu rywiog wiw Rïan,
Foneddigaidd loywaidd lân,
Er teced, a hardded hon,
Y lili gain oleulon,
Ni phrisiai 'r môr ragoriaeth
Y Fun, ond trosti fe aeth;
Boddai fonedd unwedd a
Y seilion wŷr isela';
Yr annoeth ŵr dirinwedd,
Yn wael, a'r doeth yr un wedd,

Wnaent gydfoddi 'n lli' llaith, Oer annedd gaent ar unwaith.

Gallai fod rhai 'n priodi
Yn llôn, pan ruthrodd y lli',
A throi 'r gwleddoedd yn floedd flin,
A gorwyllt ddychryn gerwin.
Ceisio dïanc gwnai 'r llanciau
Heb rus o'r enbydus bau;
A buain am eu bywyd
Y rhedynt, gwylltynt i gyd.

Rhedeg wnai 'r môr rhuadwy
Heb aros i'w liànos hwy;
Yn fileinig aflonydd,
Tònau ar eu sodlau sydd:
Llawer ga'dd eu cydgladdu
Tàn drochion y ddofndon ddu.

O flaen y dòn flîn e dŷnodd,
I'r làn, o'r anhoff fân, rhai ffôdd.

Gwelaf un o'r brodorion
Mewn chwerwder tân brudd-der bron;
Drwy ing u braw 'n dringo bryn
Trumawg, i roddi tremyn,
Golwg ar Gantre'r Gwaelod,
Gwelai fe anaele nôd;
A'r golwg dyr ei galon,
Dyrydd frûth hyd wraidd ei fron!
Crochlefai, e waeddai 'n wyllt,
A gerwin olwg orwyllt:

- "Ow!" medd o, "'n hoywfro hyfryd,
- " Er ei gwae, mae 'n fôr i gyd!
- " Mewn nerth mae 'r dwfr certh yn cau,
- " A dynion rhwng ei dònau;
- " Suddant yn brudd-brudd eu bron,
- " I ei leidiawg waelodion!
- " Mae Mam fâd a Nhâd o'n hol,
- " (O gyni!) yn ei ganol;
- "O!f' enaid! hwy 'r fynud hon
- " Sy a deifr tros eu dwyfron.
- "" Wele, don neifion mewn nerth,
- " Yn gyru acw at Gricerth;

"Trwy ofid aeth ein trefi

"Yn llwyr i eigion y lli';

" O'u hylon drigolion gynt,

" Hanes nid oes o honynt.

" A Chaer Wyddno amdöwyd

"Tàn gynhwr' y llifddw'r llwyd!

"Yn soddi cair Cadair Cedawl,

("Y môr hallt a'i cymmer i'w hawl;

ſ" Palasau dèl gwŷr uchelwaed,

"Y tònau a'u troes tàn eu traed!"

Try 'i wedd laith unwaith yno,

A'i drèm am yr ola' dro;

A chwai y rhedai i'r aig,

Ei ddagrau tros y ddugraig;

Ac fel hyn yn sŷn o'i serch, E lunia 'i ola' anerch:

"Y fwyn wlad fu 'n oludog,

" A llawn o bob grawn yn grôg,

" Aethost ti 'n llyn heli hallt;

" Dïau y môr a dywallt

" Ddyfroedd trwy 'th ddyffrynoedd ffraw,

"Yna i'w haddig anhuddaw;

" A'th holl ffrwythawl dyfawl dir,

" A dw'r llanw dirllenwir."

Dàn wylaw yna draw e drodd, O'i golwg fe a giliodd; Gorfu ado ei fro frâs, Delaid, yn mòl môr dulas!

Tywod sy'n llenwi'r teiau,
A'r pysg yn gymysg sy'n gwau;
Morfeirch dihefeirch hyfion,
Llymriaid arw haid yr awr hon,
Sy'n heigiau 'n amlhau yn mlith
Y gweunydd lle bu gwenith!
E geir, lle bu ŷd a gwîn,
Fawr grugiau o fôrgregin!
Hoff lysoedd a phalasau
Gan nerth y dyfroedd certh cau,
Eu cydiawl furiau cedyrn,
Ddatodid, chwelid yn chwyrn!
E dŷna certh dônau cau,
'R anoddyfn trwy'r neuaddau.

Dw'r dylif döa 'r dolydd
Fu 'n serchog, ddeiliog ryw ddydd;
Yn llawn meillion ceinion cu,
Wnai wyneb y wlad wenu.
Ydlanau hynod lawnion
A chwalodd, daflodd y dòn;
Deisi gwenith dysgynynt
I'r eigion, (anhylon hynt!)
A gwîn melus i'w ganmoli
Doraeth llawn, a drwythai y lli';
A gwridiai y gwirodydd,
Liwiau 'r dòn tros lawer dydd!
Medd pêr yn meddwi y pysg,
Gemau a llaid yn gymysg!

Felly 'r aeth y dalaeth dêg, A'i chyfoeth, (anwych ofeg:) Fel nad oes, yn ein hoes ni, Hanes am gŵys o honi.

Gwelir eto 'i thrigolion
Bob cnawd, fore brawd ger bron;
E rwygir bòl yr eigion,
Chwelir croth dofngroth y dòn!
Gwewyr esgor ar fôr fydd,
I fawr radd; ryw foreuddydd!
Pob tòn a'i dynion yn d'od,
Chwyda 'r meirw o'i cheudod!
Gelwir hwy at eu gilydd,
I y farn ofnadwy fydd:
Yna, fe dderfydd anian,
Awyr, a thir, dw'r, a thân.

WILLIAM REES,

Llansannan.

# AWDL AR AMAETHYDDIAETH,

GAN

Y PARCH. EDWARD HUHES, A.M. BODFARY.

TO THE

## GWYNEDDIGION SOCIETY,

WHOSE LIBERAL AND PATRIOTIC EXERTIONS,

POR

NEARLY SIXTY YEARS,

HAVE BEEN DIRECTED TO THE CULTIVATION OF THE

WELSH LANGUAGE, ITS POETRY, MUSIC, AND LITERATURE

IN GENERAL,

I DEDICATE THIS

POEM.

EDWARD HUGHES.

BODFARY, 24th OCTOBER, 1828.

# AWDL

## AR AMAETHYDDIAETH,

### GAN GWYNEDDYN.

#### THE ARGUMENT.

Agriculture contemplated as man's first employment.—Its influence on his life, manners, and habitation.—A view of the countries where it is neglected.—Its interesting effects in Switzerland, Holland, England, and particularly in the Principality of Wales.—Agricultural Societies.—Sir W. W. Wynn.—Description of several late improvements in the Principality.—Menai Bridge.—The future progress and happy results of a still more perfect state of Agriculture contemplated.—The conclusion.

DY nodded, awen Adda, Gofynaf, un ddoethaf dda, I'm i gyrhaedd magwrawl Fawrâd Amaethiad, a'i mawl. Os hon, i ardd lon, werdd lwys Y bêr wiwdeg Baradwys, A rwyddodd ffrwyth pereiddiaf, Yn ol gorchymyn y Nâf, Mwy o borth yma' berthyn, O'i hylaw ddwylaw i ddyn; Pan o'i chwys, heb hon, ni cha' Lafurwr i'w law fara.

Ei gwaith ar ddiffaith rhydd wên,—a'i chnydau, Gwych neidiant yn llawen: Nawdd ei rhad wna ddaear hên, Anial, lwyd, yn ail Eden.

Da yw 'n ei heffaith, i'r dyn a'i hoffo: Uchaf i wledydd, yw ei chofleidio: Da yw ei lluniaeth, a diwall yno, I drefi 'n llawnion, draw a fu 'n llunio: A hon, i'w Brython eu bro—addurnodd, A da y llwyddodd Duw ei holl eiddo! Gwel ddyn! gwael yw ei ddoniau Heb drin hon,—heb droi na hau! Mîeri, a d'rysni draw,
A rydd y ddaear iddaw:
A'i fryd yw, lle 'n foreu daeth,
Hylaw yru Helwriaeth.
Gwyllt yw, mewn gwall o duedd
I degwch, harddwch, a hêdd:
A gwrthddrych o'n nych hên ni,\*
Drwy einioes ei drueni!

Amaethyddiaeth, faeth foethol,—wnai iddo Anneddu 'n gartrefol: Gan ddwyn un anfwyn yn ol, A'i ddenu i wedd ddynol.

Trwy ei maith addysg, try Amaethyddiaeth Ddyn; neu tòra i addwyn naturiaeth: Rhydd i'w llu wiwdrefn, rhwydd a llywodraeth, Dïau fwy o elw, a da fywoliaeth: Y creulon wylltion a wnaeth—yn ddofiawn, Tyner eu gloywddawn, tàn ei harglwyddiaeth.

Lle mae 'n hau, try 'r cytiau caeth Yn dai llon, a da 'u lluniaeth: Llüestai, hyll eu hystyr, Yn borthladdau 'n minau mŷr; A threfi helaeth, ryfedd, Llawnion, a gwychion eu gwedd.

O'i dwylaw, eiddaw addas—a'i lluniaeth, Y llonir pob dinas: A dyn a wir edwyn râs, A dethawl ffyrdd cymdeithas.

O brysied! aed heb ruso,
Hyd i Affrig i'w deffro:
I'r 'Merig aed, er morio,
At Indiaid, weiniaid yno:
Mŷr dëau, tra 'n mordwyo,
Pob ynys, pawb a uno:
A'th fawr râd, (hwyliad ei hynt)
Dduw arnynt a'u haddurno.

<sup>.</sup> The fallen state of man,

Myfyriwn, edrychwn draw, Ar wledydd i'w herlidiaw: Marwaidd, er têg dymmorau, Y'nt heb hon, i'w llon wellâu! Pwy a'th drin, Palestina! Ni welir tir ynot' da! Ni ddaw o dir addewid. Ond caethder, llymder, a llid! O ddiffyg hoywaidd effaith Ei dawn yn gyflawn a'i gwaith, Llwyr redodd lle o'r Idal,\* Fu 'n Eden, yn siglen sâl. O'i llafur, y gwall hefyd, (Heblaw trawsder, balchder byd) Y barodd fod Iberia Yn llymdir,-nid doldir da.

Yr haul, a'i dês, rhëoli dydd-o'i nef, Wna 'n ofer a'r wledydd: Màn neu barth, lle mwyna' bydd, Methiant vw heb Amaethydd!

Och! gweled afiach goelion-neu fwriad Niferoedd o ddynion; Och! draw gweled iach drigolion, Heb wiw ryddid, hoywber roddion; Heb un doeth, i ddwyn bendithion, O dêg wledydd, da 'u gwaelodion; † Heb 'nabod, hynod yw hon-corn' helaetht

Amaethiaeth, a'i moethion!

Ond dyro i'm hynt dirion, Awen dêg, a hoyw iawn dôn, Hyd wledydd, a bronydd bri, Dylanwad ei haelioni. Lluniodd, addurnodd yn dda Hael feusydd hyd Helfesia: A'i chreigiau 'wnaeth, ochrawg nen, Yn addas i'r winwydden. Ethyl fôr a'i dyfr-ddorau,§ Dyfnder mewn caethder mae 'n cau:

· Campagna di Roma.

The Sluices, in Holland.

<sup>+</sup> The writer here alludes to the deplorable state of agriculture under the Turkish government. --- læto diffundit copia cornu.

A'i chynnydd, fel haf-ddydd hir, Sy hael-deg ar *Iseldir.*\* Yn mhob lle dêl, gwêl ei gwaith! Mae 'n deilwng o'i mwyn dalaith: Gwna bob gwlad yn Baradwys, Pob dyffryn, a glŷn dêg lwys!

Chwi feusydd, bronydd, bryniau!—chwi goedydd! Chweg ydynt eich ffrwythau; A llawnion y'ch winllanau, A wnaeth hon yn llon wellâu!

A rhin gwiw lwydded y rhan ogleddawl;
O! rho'ed ger llwynau 'r ŷd gorllewinawl;
Ei da a ràno 'i wledydd dwyreiniawl;
Da yw i eithaf dëau ei hethawl:
Yn Mrydain firiain o fawl,—cartrefed,
O fy Nuw, bydded yno fwy buddiawl.

Wrth sain ein Brydain a'n bro, Wyd, f' awen, yn adfywio: Eheda, er meithdra môr, I gyrhaedd y dêg oror: Amaethiad y wlad lydan Dduwies gu, fo'th ddewis gân. Addurnodd hon, hawdd ddirnad, Ddyffrynau, a glynau 'n gwlad: Yn mynydd, a phob maenol, Dengys yn hysbys ei hôl. Lliw 'r dolydd, a'r llawr deiliog, Lle nytha 'r frân, lle cân côg, A gwyrddion heirdd-deg erddi, Y'nt fawr-waith ei heffaith hi. Mor iawn dêg yw mawrion dai! (O fendith os i fân-dai!) Llànau, a threfi llawnion, Addurnodd a harddodd hon!

Cynnydd Amaethydd yw'r mâd—wiw gysur, A geisia'r ymddifad: Gwel wen elusen y wlad, Chwïorydd hi a chariad.

<sup>.</sup> The Netherlands.

<sup>+</sup> Great as the charity of our country is, yet, even the most prejudiced must allow, that the principal resource of the poor is Agriculture.

Ar Frydain, fro gain, Nef 'ro gynnydd;
Rhag pallu, methu o Amaethydd:
Cnydau, clau ydau i'w gwaelodydd;
Corniog, da gwlanog rhoed i'w glènydd:
A chadwed Duw 'n ei choedydd—lyngesau,
Y gorau gwaliau rhag garw gywilydd!

Llaw-forwyn yw llafur-waith Pob newydd, gelfydd dêg waith. Mae rhediad ei mawrhydi Uwch pontydd ein nentydd ni:\* Sef dyfr-ffosydd sydd lesâd Draw 'n ei dilyn drwy 'n dwy-wlad.

Marsiandaeth heb Amaethydd, Och weled dosted f'ai 'i dydd! Ni ollyngai 'r naill angor, Diau, fyth nid âi i fôr: Ni hwyliai yn ei helynt, Flin ei gwedd, o flaen y gwynt, Heb ddaear ffrwyth yn llwythi, I'w gludo 'n awr o'n gwlad ni.

Cryfder a gymmer y gâd—yn ddilys, O ddwylaw Amaethiad: Gwyr morwŷr (da wŷr di wâd) Y môr-d'ranau 'i mawr driniad.

O! mirain yw ei mawredd, A gwiwlon gwlad a goledd; Mae golwg o'i hymgeledd Ar *Lloegria*, er ei llygredd: Hi ni âd un gwastadedd, Na brŷn, yn hon, heb rinwedd: Iechyd diwyd, hyfryd, da, I bawb una,—'i bob annedd.

A thi, ein mâd hênwlad hon, Ein Gwalia, enwog, wiwlon, Derbyniaist di wir bènaf Fendithion newyddion Nâf! A mynych iawn o'm annedd, Ar dy fynwes, achles hedd,

<sup>&</sup>quot; One of these is Pont y Cysylltn, near Llangollen.

Pan dremiaf, wylaf foliant,\* Am dy lwydd, byw lwydd dy blant, Lle gynt, yn y gwynt yn gwau, Gwisg gadarn, oedd gysgodau, Sef deri, a d'rysni draw, Eu anialwch vn' eiliaw: Meillionog, ddeiliog ddolydd, Yw 'r llawr, yn awr, yn fy nydd: Llawr gwanwyn ŷd, lle 'r gwenith, A ffrwythau blodau 'n ei blith! A'i gỳrau 'n ddwy dêg oror, A'i odrau 'n ymylau môr! Cwyd hên Glwyd heb arswyd ben, A gwenu mae 'n ddi gynhen, Ar effaith maith Amaethiad, A'i lliwiau sydd, a'i llesâd: A'i ffrwythau 'n ochrau pob nant, A'u cu rawn, a'i coronant. Yr erchyll hên Gestyll gwel, Yn y diwedd yn dawel: Mwy nid y'nt y mànau dig, Am elyniaeth mileinig; Na'r unrhyw' wnaent yr anrhaith O lwydd diwydrwydd da 'i waith: Yn lle gwŷr chwyrn Lloegr a'u chwant, Adar nôs a deyrnasant I

Pan o'r Gaer,† ar ddisglaer ddydd, Yr ymwelaf a'r moelydd; Draw a ranant diriona' Hardd ddyffryn, ar ddyffryn dda, Mòr gu, o Gymru dêg wedd, I'm yw gwyneb mŷg Wynedd! Dwyre, dwyre, di oror, Dy greigiau, penmànau môr; A dangos, O! dangos di, Draw'r aradr drwy Eryri! Syndod, a rhyfeddod fydd Yma'i daith, i ymdeithydd,

Wylaf foliant.—To shed tears of praise, is as natural to man, as to shed tears of gratitude, which is but a common expression.

<sup>+</sup> Behind the Author's house is Mosl y Gaer, so called on account of its triple circumvallation: and from the summit of which, the prospect over the Vale of Clwyd, a part of St. George's Channel, and the Caernarvonshire Hills, is one of the most beautiful and picturesque, that can be imagined.

Ar hyn a wnaeth Amaethiad,
A'i chrôg lwydd hyd ochrau gwlad!
Gweled dan deyrnged i'w dûr
Hynotaf orsedd natur!
Mynych saif, goris mànau
Tirion, a wnai hon eu hau:
Gwel feusydd, uwch meusydd maith,
I'w dilyn yn y Dalaith;
O fôr hyd oror eira,
Cribawg, fynyddawg fàn iâ.

Crechwena 'r Wyddfa mòr werdd Ei gwasg hi, yw ei gwisg hardd: Mae 'n nôd rhyfeddod i fyrdd; A'i phen ag wybren a g'wrdd.

Oddiyno, anhawdd anian,
A'i chreigiau, nid muriau mân,
Ni rwystra 'i gyrfa dêg wedd,
I Feirion, a'i hy' fawredd:
Lle a dwg ei llaw-degwch,
A'i nerth ar dir serth a'i sŵch,
A'i gwir nawdd, o gỳrau 'n îs,
Hyd odrau hynod Idris!

O ffyniant, hwyliant heul-wen—i'r bwriad, Ar Berwyn rhoed las-len; Ar Ddyfrdwy ac Wy dêg wên, A hyfryd finau Hafren.

Gwŷr enwog a wir unant.
Oll heddyw yn ei llwyddiant:
Hau gweiriau hwy a garant,
A gwartheg têg a werthant.
I rinwedd gwobrau ranant,
Ac ydau dwys a godant:
Holl Arfon a Môn a'u medd,
A'n Gwynedd yn ogoniant.

Ymffrostied, synied y Sais do
Ei ddefaid wledd a'i ddyfais:
Os tewion, a gwychion, gwêl
Yr ychain y'nt oruchel:
Nid llai llwydd, yn rhwydd i'n rhaid,
Ein diddofion, da ddefaid:

A'n ychain ni sy'n iachus, Düon, a breision heb rûs. A Llyw gwych, nid a llaw gaeth, Yma' ethol Amaethiaeth. Ar hon, ŵr rhadlon, y rhydd, Wiw daeniad, ei adenydd.

Gwir wellâd, a gorau llûn Ar rywogaeth, odiaeth wên, Dïau bydd: da yw y bôn O Wynnstay i einioes dyn.

Clod i'r enwog, a'r cu wladwr yno, Da yn ei wleddoedd, y dena 'i lwyddo: Tòrai iâ i lawer, eu tir i lawio; A da yr adwaenir ei dir dano: Prif ddyn ar frigyn y fro—Syr Watkin,\* Gwych hyn a gwerin, a gewch yn gwirio.

Pe medrwn gweuwn ar gân,
I fil eraill fawl eirian:
Carwŷr, goleuwŷr eu gwlad,
Am ethawl ein Amaethiad.
Ond i lais hên Daliesin,
Neu Homer fwynber ei fin,
Rhy ddwys iawn gynnwys yn gain,
Ar araith eu harwyrain.
Mae 'r rhai'n i gyd i'w mawrâu,
Dàn Sior a dawnus eiriau:
Mab i un a fu 'n wiw faeth
Maith addysg Amaethyddiaeth.

Llwydded, a rhwydded â rhâd—Duw anwyl Eu daionus fwriad:

Ac unwn ninnau ganiad, O ran llwydd i'r iawn wellâd.

Ond pwy â chlodadwy dôn, Da nodded awenyddion, All adrodd, ar ddull hydr-iaith, Amcanion gwychion a gwaith, Digoll ŷd, a gwelladau, Amaethiad y fwynwlad fau?

As the Duke of Bedford, Mr. Coke, and others have been so much celebrated for their encouragement to English Agriculture, the Author did not deem it foreign to his subject to introduce the name of Sir W. W. Wynne, as one of the chief encouragers of Agriculture in the Principality. This he has done, without the most distant view of disparaging others.

Hynt dwfr, i'r lle myno, tyn, Llwyr dew-ffrwd uwchlaw 'r dyffryn: A phrif-ffyrdd (ei phur effaith) A fyddant gofiant o'i gwaith. Ffrwynodd, attaliodd y twrf, A llanw gwyn, llawn o gynhwrf: Lle 'r pysgod, gwaelod oedd gu, A ennillodd iawn allu: I borthi, rhoddi i'n rhaid, Filoedd o anifeiliaid! Heirdd drefydd newydd a naid, A thwymnol, wrth ei hamnaid, A'i gwyrth yw y llong-byrth llawn, Amryw Dyrus, mor diriawn! Ceir pob maeth arddwriaeth dda, Gain lun, a'i gwên a lòna: Ceir lluniaeth, côr llawenydd, A llwyr deg, ceir llawer dydd: Lle nad oedd i'n llòni dir, Nac afiaith i'n a gofir; Dim ond natur bur yn bod, Glynau, a chornchwiglenod.

O Gwalia fwyn, gweli faint—dy hynod,
Wahanol ragorfraint!
Dy anian ydyw ennaint
Y tir hwn,—nis tery haint.

Maith eiddaw Amaethyddiaeth, Yw'r hyn oll i'w rhan a wnaeth Celfyddyd byd, heb oedi, Golud, a nerth ein gwlad ni. Rhüodd, a nofiodd Neifion, A gwlych mawr, o amgylch Môn, Ac iddi gwnai honni hawl, Am oesoedd yn ormesawl: A thybiai nad allai dyn Ei fawr rwysg ef oresgyn.

Ond dyn, ar fin y tònau—a gododd
Ei gedyrn golofnau:
A dodwyd hirion didau,
Er yno 'i nerth, arno 'n iau.

Cadarn yr haiarn, fal rhwyd. O graig i graig a grogwyd. Dros gryfion, fawrion furiau, Fal hil aneiddil hên Iau: Gawri mŷg, ar gỳrau môr, A dig ofwy 'n dygyfor. Daliant, goruwch v dylif. Yr haiarn-ffordd braff-ffordd brif: Yn yrfa o hên Arfon, Hyd odrau ymylau Môn. Wrth weled y nerthol-waith, O haiarn dwys arno 'i daith :-A gwŷr byd ar gerbydau, Uwch ei ben, ar ei nen iau:-Draw 'n gyru yn dra gorwyllt, Gan hau o garnau dân gwyllt.-A mawr dwrf amryw dorfoedd, A'u cernau blin, cyrn a bloedd-Ei dwrw Neifion droe 'n afar, A'i grychiawg, ewynawg wàr, Ostyngai :- nid Menai mwy, Yrfa'i aruthr ryferthwy.\*

Nesâu mae 'n ddïau 'r mwyn ddydd,
Wawr lawn o wir lawenydd,
Pan yn ol prophwydoliaeth,
Daw amser mwynber pob maeth!
Mawr ddoniau amryw ddynion,
A geisiant y llwyddiant llon:
Profant lwydd eu harglwyddiaeth,
Dawn y Nêr i'r dyn a wnaeth.
Chwiliant ffyrdd yr uchelion,
A'u rhwysg ar ein daear hon;
A chludant, o'u chwiliadau,
Bob arwydd llwydd a gwellâu.

Gwelwn ben, diben da obaith,—pob rhodd,
Pob rhwyddwych gelfyddiaeth!
Gwneud y ddaear, foddgar faeth,
Yn olau Eden eilwaith.

<sup>&</sup>quot;Should it be maintained, that Highways, Menai Bridge, and other similar improvements, have no connexion with Agriculture, let it be recollected, that the commandment given to man, to "subdue the Earth," seems to comprehend every improvement that can be made upon its surface.

O! mor wir felys fydd mawr orfoledd Y dydd o gynnyrch y daw ddigonedd! E döir rhànau daear â rhinwedd, Newyn i'n heinioes ni wna anhunedd. A mwynâu a wnair mewn hedd,—heb ofid Y da addewid, ïe, diddiwedd.

O brysied, deued y dydd!
Boed, fy Nuw, byd fo newydd!
Byd llawnder mwynber a maeth,
Heddwch, ac Amaethyddiaeth.
Mwy ni fydd màu i fyddin;
A rhâd e geir ŷd a gwin!
Y gwaewffŷn o hên goffa,
Gwnant gyllt'ran, pladuriau da!
Y llew a'r hŷdd, c'ant lonydd wledd,
Yr oen a'r blaidd yr unwedd!
A dyn a edwyn ei waith,
A'i alwad cyntaf, eilwaith:—
Gwneud daear yn wâr o wedd,
Boddio 'i Dduw,—byw ddiddiwedd.

PARCH. EDWARD HUGHES,

Bodfari.



# YR ENGLYN BUDDUGAWL

AR

# YR AWYREN

GAN ERYR GWERNABWY.

AWYREN, belen, glud bali,—drwy chwa, Derch hynt hyd wybreni; Nwyf wib long, bau nawf, heb li, A llaw dyn yn llyw dani.

Mr. Robert Davies,

Nantglyn.

#### TRANSLATION.

That air-filled body, the balloon, a silken vehicle, by a blast see soaring on its course through ethereal regions; as a ship of lively range, aloft it swims, without a flood, having for a guide the hand of man beneath.



# APPENDIX.

#### LIST OF

# PATRONS, VICE-PATRONS, COMMITTEE, &c.

Under whose direction the Royal Denbigh Eisteddvod was conducted.

# PRESIDENT.

SIR EDWARD MOSTYN, BART. TALACRE.

#### PATRONS.

Lord Grosvenor Lord Powys Lord Bagot Lord Dungannon Lord Kenyon Lord Newborough Lord Plymouth Right Rev. Lord Bishop of St. Asaph

Right Rev. Lord Bishop of Bangor Marquis of Anglesey Lord Dynevor Lord Clive Lord Ashley, M. P. Sir W. W. Wynn, Bart. M. P. Sir E. P. Lloyd, Bart. M. P. Sir Charles Morgan, Bart. M. P.

### VICE-PATRONS.

Right Hon. C. W. W. Wynn. M. P. Sir T. Mostyn, Bart. M. P. Sir T. Hanmer, Bart. Sir R. W. Vaughan, Bart. M. P. Sir R. Williams, Bart. M. P. Sir John Williams, Bart. Sir Foster Cunliffe, Bart. Sir Richard Puleston, Bart. Hon. Frederick West Hon, P. R. D. Burrell H. Clive, Esq. M. P. J. W. Griffith, Esq. G. H. D. Pennant, Esq. M. P. Colonel Vaughan, Rûg J. Price, Esq. Sir D. Erskine, Bart. Sir H. Browne, Knt. Colonel Hughes, M. P. Very Rev. the Dean of St. Asaph R. M. Bulkeley, Esq. T. D. Cooke, Esq. Thomas Fitzbugh, Esq. T. Mostyn Edwards, Esq. J. Heaton, Esq. Ll. B. Hesketh, Esq. Dr. Howard, Rector of Denbigh E. M. Lloyd, Esq. Pengwern E. Lloyd, Esq. Cefn Capt. Lloyd, Royal Denbigh Militia J. Madocks, Esq. J. Marsden, Esq Colonel Maxwell

F. R. West, Esq. M. P. H. M. Mostyn, Esq. D. Pennant, Esq. Francis Richard Price, Esq. Colonel Salusbury C. W. G. Wynne, Esq. J. Ll. Wynne, Esq. R. W. Wynne, Esq. S. Yorke, Esq. P. W. Yorke, Esq. Edward Grainger, Esq. Edward Slaughter, Esq. G. Naylor, Esq. Rev. W. W. Edwards Wilson Jones, Esq. Rev. E. Thelwall Bevis Thelwall, Esq. Spire Hughes, Esq. J. B. Hesketh, Esq. Thomas Lloyd, Esq. E. Lloyd, Esq. Major Harrison Sir Stephen Glynne, Bart. Sir John S. P. Salusbury Rev. Dr. Wynne Philip Lloyd Fletcher, Esq. R. M. Biddulph, Esq. The Hon, and Rev. G. Neville Grenville John Williams, Esq. J. Townshend, Esq. Rev. J. M. Luxmoore Edward Lloyd Williams, Esq. Dd

## COMMITTEE.

Rev. R. C. Chambres Rev. R. Clough Rev. R. B. Clough Rev. A. B. Clough Rev. T. W. Edwards E. Edwards, Esq. S. Edwardes, Esq. T. Evans, Esq. James Eyton, Esq. Rev. E. Hughes Rev. J. Jones Rev. J. Jones, Rhuddlau R. H. Jones, Esq. Mr. W. Jones Rev. J. Jones, Henllan Rev. D. L. Jones Rev. J. Jones, Denbigh Mr. Joseph Jones Rev. Ll. Lloyd H. Lloyd, Esq Rev. R. Newcome Rev. W. H. Owen Rev. H. Parry Mr. E. Parry, Chester A. O. Pughe, Esq. Rev. R. Richards Rev. T. Richards Rev R. Ll. A. Roberts R. Roberts, Esq. Rev. J. Smalley Rev. G. Strong J. Twiston, Esq.

J. Williams, Esq. M. D. R. Lloyd Williams, Esq. J. C. Williams, Esq. Rev. R. Williams Rev. E. Williams J. V. Horne, Esq. Rev. L. Richards J. Williams, Esq. Abbey Rev. J. Owen Walter Cecil Davies, Esq. H. P. Clough, Esq. John Hughes, Esq. J. Parry, Esq. Thomas Hughes, Esq. Edward Jones, Esq. James Hughes, Esq. J. Hughes, jun. Esq. Robert Roberts, Esq. John Roberts, Esq. David Hughes, Esq. Rev. J. Jackson Gabriel Hughes, Esq. Rev. Ellis Roberts Rev. J. Jones, Llangynhafal Rev. R. Jones Rev. F. Owen Rev. J. Davies Rev. Edmund Williams William Chambers, Esq. Rev. E. Jones Rev. E. J. Owen

# COMMITTEE OF MANAGEMENT.

In publishing this list, we cannot avoid noticing the indefatigable zeal of the Chairman, J. Heaton, Esq. to whose perseverance, in a great measure, the success which attended the Eisteddvod is mainly to be attributed:—

# JOHN HEATON, ESQ. PLAS HEATON, CHAIRMAN.

John Madocks, Esq. Glan y Wern Edward Edwards, Esq. Denbigh Samuel Edwardes, Esq. Denbigh Thomas Evans, Esq. Denbigh Rev. John Jones, Denbigh Hugh Lloyd, Esq. Tros y Park Aneurin Owen, Esq. Charles Sankey, Esq. Treasurer John Twiston, Esq.
John Twiston, Esq.
Dr. John Williams
Richard Lloyd Williams, Esq.
J. Vaughan Horne, Esq.
John Williams, Esq. Abbey
Thomas Hughes, Esq. Astrad Cottage
R. P. Jones, M. D. Hon, Secretary.

#### HONORARY MEMBERS.

Mrs. Hemans
Miss Cotton
Miss Angharad Lloyd
Miss F. A. Luxmoore
Miss Jones, Crosswood, Montgomery
Miss Davies, Manavon
Miss Walters, Darowen
Miss Richards, Darowen
Miss Jane Richards, Darowen
Sir Walter Scott, Bart.

W. O. Pughe, Esq. L. L. D.
Rev. Walter Davies
Rev. W. J. Rees
Rev. J. Jenkins
Griffith Jones, Esq. London,
Mr. John Parry, London
Richard Llwyd, Esq. Chester
Sharon Turner, Esq.
Robert Southey, Esq. L. L. D.
Thomas Moore, Esq.

# LIST OF THE BARDS AND MINSTRELS.

It would have been very desirable to have had the Bardic names, places of residence, &c. of those who attended on this interesting occasion; and it is to be feared many are omitted, the Secretary being utterly unable to offer so correct a list as he could have wished:-

W. O. Pughe, Esq. L.L.D .- Idrison John Roberts, Hersedd **Edward Jones** John Parry Thomas Williams-Pererin Richard Williams William Parry John Owen, Liverpool Evan Evans Richard Jones Joshua Davies Simon Jones Edward Evans Thomas Edwards John Evans Peter Jones-Pedr Fardd Daniel Jones William Williams John Williams Absolom Roberts Rev. J. Blackwell-Alun Griffith Williams-Guttyn Peris Morris Hughes

Joseph Williams Richard Davies Thomas Jones-Thomas Gwynedd William Davies Rev. Edward Hughes, Bodfarry Robert Jones Edward Jones William Edwards, Ysceifiog Robert Lloyd William Rees-Gwilym Hiraethog Samuel Roberts David Hughes William Edwards-Gwilym Padarn Joseph Williams Richard Roberts, Harper John Lewis Robert Davies-Bardd Nantglyn Hugh Roberts Evan Daniel Richard Williams David Jones Stephen Davies John Conway

# LIST OF DONATIONS

Of the Cymmrodorion Society in Gwynedd, to promote the objects of the Grand Eisteddvod at Denbigh, in 1828.

	£.	s.	d.		£.	8.	d.
Sir Edward Mostyn, Bart	100	0	0	Charles Calveley, Esq. ditto	2	2	0
John Heaton, Esq. Plas Heaton	5	5	0	J. Vaughan Horne, Esq. Denbigh	2	2	0
John Madocks, Esq. Glan y Wern		5	0	Richard Bythell, Esq. St. Asaph	1	1	0
John W. Griffith, Esq. Garn	5	0	0	Rev. D. L Jones, ditto	1	1	0
John Price, Esq Hope Hall	5	5	0	Rev. J. Smalley, Cwm	1	1	0
Sir Henry Browne, Bron-y-wylfa	5	5	0	Rev. J. Roberts, Henllan	1	1	0
Wilson Jones, Esq Gelligynan	5	5	0	Mr. Roberts, Bull Inn, Denbigh	1	1	0
Rev. E. Williams, Vicar Llanrhaiadr.	3	3	0	Rev. W. H. Owen, Tremeirchion	1	I	0
Thomas Evans, Esq Denbigh	3	3	0	Lloyd Bamford Hesketh, Esq	5	5	0
Mr Humphreys, Rose Hill	2	2	0	Col. Hughes, Esq. Kinmel Park	20	0	0
Richard Ll. Williams, Esq	2	2	0	F. R. West, Esq. M. P	10	10	0
D Williams, Esq. Grove House	2	2	0	Capt. Caldecott, Dolben	3	-	0
John Lloyd Wynne, Esq Coed Coch	5	5	0	Richard Roberts, Esq. Grove Place.	-1	1	0
Rev. Stephen Donne, Oswestry	1	1	0	Rev. J. Jones, Rector of St. George.		1	0
T. Hugbes, Esq. Astrad Cottage	2		0	The Very Rev the Dean of St. Asaph		5	0
James Hughes, Esq Ruthin	2	2	0	John Twiston, Esq. Denbigh		1	100
Rev. J. Jones, Denbigh	1	1	0	The Right Hon. Lord Bagot	10		0
S. Edwardes, Esq ditto	1	1	0	The Right Hon. Lord Ashley, M. P.	10	0	0
Mr. Gee, ditto	1	1	0	Edwin Wyatt, Esq St. Asaph		3	0
E. Edwards, Esq ditto	1	1	0	Joseph Ablett, Esq Llanbedr Hall	10		
Mr. Price Price	1	1	0	Simon Yorke, Esq. Erthig	5	-	0
Mrs. Naylor, Plas Clough	2	2	0	J. H. Salusbury, Esq. Gallt-faenan	-	-	0
George Naylor, Esq	3	3	0	Charles Sankey, Esq		2	-
Rev R Ll. Roberts, Llangwyfan	1	1	0	The Misses Peel, Dolhyfryd	-	2	
Rt. Rev The Ld. Bp. of St. Asaph.		10	0	J. Wright, Esq. Oaklands	-		0
Mr. Green, Crown Inn, Denbigh	3	3	0	P. Read, Esq. Llanrwst	1		0
Walter Wyatt, Esq. St. Asaph	1	1	0	Sir Thomas Mostyn, Bart. M. P	10	0	0

Sir W. W. Wynn, Bart. M. P	25	0	0 1	Rev. A. B. Clough, Jesus College	2	2	0
Rev. R. Myddleton, Gwaunynog	2	2	0	Thomas Lloyd, Esq Marle	3	0	0
Rev. R. Newcome, Ruthin	2	2	0	Sir Edward Pryce Lloyd, Bart M. P.	5	5	0
Rev. R. Richards, Caerwys	2	0	0	Rev Thos. W Edwards, Rhuddlan	2	2	0
Rev Archdeacon Jones, Llanbedr	1	1	0	Colonel Vaughan, Rug	5	5	0
G. H. D. Pennant, Esq, M. P	5	0	0	Edward Lloyd, Esq Rug	5	0	0
Colonel Wynne, Garthewin	5	5	0	Rev Dr Howard, Denbigh	3	3	0
Rev. G. Strong, Dyserth	2	2	0	Sir Stephen Glynne, Baronet	10	10	0
Mr. S. Williams, Denbigh	1	1	0	Rev. R. Jones, Derwen	1	1	0
Sir J. Williams, Bart, Bodelwyddan.	5	5	0	Edward Jones Hughes, Esq	1	1	0
Rev. Henry Parry, Llanasa	1	1	0	Hugh Roberts, Esq	1	1	0
Rev. Edward Owen	2	2	0	Rev. J. Boulger, Llanrwst	1	1	0

# An Account of Money paid to the Public Performers who were engaged for the Eisteddvod.

the male angle of the section and the section of	£.	S.	D.
To Mr. Braham	115	10	0
Miss Stephens and Miss Johnstone	120	0	0
Messrs. Collyer and Atkins	60	0	0
Mr. J. Jones, B. M. Oxford	30	0	0
Signior and Madame Puzzi	26	5	0
Chorus Singers	20	13	0
Total	£372	8	0



# ABSTRACT OF THE TREASURER'S ACCOUNTS.

Paid Public Performers 372 8 0 Incidental expences at Ball, Oratorio, and Concert, including Prizea, Rewards, Advertisements, &c. &c	BALANCE DISPOSED AS FOLLOWS:   Parry and Son   Wesh Literary Fund   25 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0 0	This Account was examined and audited by the undersigned members of the Committee:  Edward Edwards Thomas Evans Sanuel Edwardes Thomas Hughes, Richard Roberta
£. s. d. Total Amount of Donations and Subscriptions	Balance in Treasurer's hands 19 12 9	The above Balance was voted towards adorning and ornamenting the Bowling Green, the beautiful spot upon which this splendid meeting was held and where it is intended to erect amemorial in bonor of a Festival hitherto unparalleled by any modern Eisteddvod.

# HONORARY TESTIMONIALS.

The liberal spirit and efficient services of Sir Edward Mostyn, has been deservedly the theme of universal admiration. These were duly appreciated by the Committee, who, at a full meeting, held on the 6th of April, 1829, Charles Sankey, Esq. in the Chair, unanimously passed the following resolution:—"That a Gold Harp, after the model of the ancient Welsh Harp, to be designed by Mr. Ellis, be presented to Sir Edward Mostyn, Bart. of Talacre, President of the Royal Eisteddvod, as a memorial of his patriotism on that occasion." In conformity with this resolution, the elegant tribute of respect was executed; and, on the 17th of September, a deputation of the Committee waited on the worthy Baronet in order to its presentation, when the following address was also read by Dr. Phillips Jones, the Secretary:—

"To Sir Edward Mostyn, of Talacre, Bart. President of the Royal Denbigh Eisteddvod, A. D. 1828.

" SIR,

"The Committee of the Denbigh Royal Eisteddvod have the honor to present to you this model of the Welsh Harp, designed to

commemorate that Eisteddvod and your Presidency.

"The Committee cannot but feel how inadequate a testimonial this token is of your services on that occasion; but they hail it, as affording them an opportunity of expressing the high sense they entertain of the liberal and patriotic manner in which you encouraged and promoted that brilliant Festival, when, under your happy auspices, and gladdened by the gracious presence of that illustrious Prince, His Royal Highness the Duke of Sussex—the Rank, the Talent and unrivalled Beauty of Cambria assembled in joyous concord in the ancient Fortress of Denbigh.

"That you may long live to enjoy the well merited regard, esteem, and respect of your fellow Britons, is the ardent wish of

"Your devoted faithful friends and Servants,

" Thomas Evans,

(Signed on behalf of the Committee) "Edwa

" Edward Edwards,

"Thomas Hughes,

" Charles Sankey, Treasurer.

" Richd. Phillips Jones, M. D. Hon. Secretary.

While the gentlemen of the Committee were zealously alive to the transcendant services of their excellent President, they were

not less impressed with the merits of their Secretary, whose sedulous and able attentions had contributed, in no small degree, to the splendour of the Festival. Accordingly, at a General Meeting of the Committee, held on the 7th of October, 1828, J. Heaton, of Plas Heaton, Esq. in the Chair, it was resolved, "That the sum of twenty-five pounds be appropriated towards the purchase of a Piece of Plate, to be presented to Dr. Phillips Jones, for his zealous and patriotic services in promoting the objects of the Eisteddvod." -Mr. Ellis, of John-street, Oxford-street, London, Medalist to the Royal Cambrian Institution, was requested to execute, after his own design, a drinking goblet of an ancient form. - Mr. Ellis thought of the Hirlas Horn, and he completed one of the most beautiful, as it is the most unique, pieces of workmanship ever beheld. It is an elegantly carved horn, about eighteen inches long, brilliantly polished, and richly mounted, the cover highly ornamented with chased oak leaves, and the tip adorned with an acorn; the horn resting on luxuriant branches of an oak tree, exquisitely finished in chased silver. Around the cover is engraved the following inscription: -" Presented by the Cymmrodorion in Gwynedd, to RICHARD PHILLIPS JONES, M. D. for his unwearied exertions in promoting the Royal Eisteddvod, held at Denbigh, 1828." The horn (the inside of which is lined with silver) will contain about three half pints; and we doubt not that it will be often passed around, filled with Cwrw da, in remembrance of the interesting event which it is intended to commemorate-

# " And former times renew in converse sweet."

In a London print, is contained the following description, and the ancient use to which this celebrated utensil was devoted:—
"About 1160, Owain Cyveiliog, one of the most distinguished Princes of Powys, flourished; he was a great warrior and an eminent poet; several specimens of his writings are given in the Archaiology of Wales, published by the late patriotic Owain Jones, Myfyr. His Poem called the Hirlas Horn (the Long Blue Horn) is a masterpiece. It used to be the custom with the Prince, when he had gained a battle, to call for the horn, filled with metheglin or mead, and drink the contents at one draught, then sound it to show that there was no deception; each of his officers followed his example. Mrs. Hemans has given a beautiful song, in Parry's Second Volume of Welsh Melodies, on the subject, concluding thus—

"Fill higher the HIRLAS! forgetting not those
Who shar'd its bright draught in the days which are fled!

Tho' cold on their mountains the valiant repose,
Their lot shall be lovely—renown to the dead!
While harps in the hall of the feast shall be strung,
While regal ERYRI with snow shall be crown'd—
So long by the Bard shall their battles be sung,
And the heart of the Hero shall burn at the sound;
The free winds of Cambria shall swell with their name,
And OWAIN'S rich HIRLAS be fill'd to their fame!"

In addition to the above presentations, thanks were voted to the above gentlemen, as also to John Heaton, of Plâs Heaton, Esq. the active Chairman of the Committee; and to the following gentlemen, who had undertaken the task of acting as adjudicators in deciding on the merits of the various compositions:—The Rev. Walter Davies, Manavon; The Rev. Rowland Williams, Meivod; The Rev. J. Blackwell; The Rev. John Jones, Llanfair; The Rev. the Warden of Ruthin; The Rev. Henry Parry, Llanasa; The Rev. R. Richards, Caerwys; The Rev. J. Jones, Llanychan; Dr. Owen Pughe; The Rev. Edward Hughes, Bodfarry; Aneurin Owen, Esq.; and Mr. Robt. Davies, Bard of Nantglyn.

#### ERRATA.

In a note, page 3, for Owen Dean of Arches, read Wynn.

FINIS.

